Y DRYSORFA.

RHIF. 704.] MEHEFIN, 1889. [LLYFR LIX.

Y PARCH. WILLIAM HOWELLS, TREFECCA.

GAN Y PARCH. JOHN HUGHES, M.A., MACHYNLLETH.

(MEWN DWY BENNOD.)

PENNOD I.

CYN clywed o honom y newydd, yr oedd wedi myned i'r dystawrwydd tragywyddol. Wedi marw, ac wedi ei gladdu gyda'r symlrwydd mwyaf (braidd na theimlasom ar y pryd gydag oerfelgarwch am ddyn cyhoeddus fel efe), cyn i ni wybod fod perygl i ni ei golli. Ond yr ydym wedi byw digon yn y byd i wybod mai pethau fel hyn sydd i'w dysgwyl ynddo. Yn wir y mae hyn yn beth sydd yn cuddio i'n golwg ni lawer o ddiffygion ac anwastadrwydd y sefyllfa bresennol: nid ydyw angeu yn aros cyfleusdra neb. Rhaid i'r ymherawdwr ar ei orsedd, yn gystal â'r cardotyn yn ei fwthyn, y dysgawdwr mwyaf a'r pregethwr hyawdlaf, yr un ffunud a'r baban sydd heb dreiglo yr un gydsain dros ei wefus, fyned pan ddêl amser Duw i ben. Ac yn aml, i'n golwg ni, angeu ydyw y peth mwyaf dwyfol ymysg y pethau a welir. Pan ddarllenasom gan hyny yr hysbysiad am farwolaeth Proffeswr HOWELLS, yr hyn a gymerodd le tuag wyth o'r gloch, nos Iau, Tachwedd 15, 1888, gwelsom ddwyfoldeb yr amgylchiad, a dywedasom, "Ewyllys yr Arglwydd a wneler." Mae y gweision yn myned i'r orphwysfa: amynedd! ac o drugaredd Duw fe ddaw yr un *promotion* i ninnau. Ac yn awr y mae y pin ysgrifenu yn ein llaw i daflu ar bapyr rywbeth ddaw i'n meddwl am dano, ac yna i'r "fasged," neu i'r DRYSORFA, yn ol fel y penderfynir gan yr awdurdodau y sydd.

Y mae yn awr yn agos i ugain mlynedd er pan y daeth enw Mr. Howells yn hysbys ac o un dyddordeb i ni. Yr oeddem yn adnabod ei ddiweddar gydlafurwr, DR. JONES, cyn hyny, ac wedi ei glywed yn pregethu lawer gwaith, ac yn edmygydd mawr o hono, mae'n dra thebyg, fel llawer o fechgyn ieuainc eraill, o herwydd ei lais peraidd a'i hwyl hapus wrth bregethu. Cofiwn yn dda, pan yn llygadu ar y pulpud ein hunain, ein bod yn gosod ein hunain wrth ei ochr, ac yn mesur ein hunain wrtho. Sylwem arno yn dra manwl—ei wedd, ei waedd, ei lais, ei lygaid, a holl fanylion ei wynebpryd; yn enwedig y darn breninol hwnw sydd fe allai, yn fwy nag un rhan arall, yn fynegiad o'r dyn oddimewn, ac yn penderfynu arddull y wynebpryd. Nis gwn paham yr oedd y darn hwnw o'r wynebpryd yn *item* mor bwysig yn yr ystyriaeth, ond dyna y ffaith. Nis gallasem fod wedi canfod y pryd hwnw, yr hyn a wnaethom wedi hyny, fod eraill hefyd yn ystyried yr aelod pwysig hwnw o'r wynebpryd dynol yn ffurfio *type* y wyneb, a'i fod yn elfen mor fawr i ffurfio dyfodol y dyn. Gwelsom yn ddiweddar, wrth ddarllen bywyd y

dyn o bawb adawodd ei argraff ddyfnaf ar wyddoniaeth yr oes, ac sydd yn sefyll ysgwydd yn ysgwydd â Newton, fod ffurf yr aelod dyrchafedig hwn wedi bod yn ymyl ei rwystro unwaith i gymeryd y cam effeithiodd fwyaf ar ei ddyfodol, ac a'i gwnaeth yr hyn ydoedd: "*Fitzroy was a disciple of Lavater, and thought he could declare a man's character from his features; and he doubted whether any man with Darwin's nose possessed sufficient energy for the voyage.*"*

Ond i ba le yr ydym yn crwydro? Dywedyd yr oeddem ein bod yn adnabod y diweddar Dr. Harris Jones flynyddoedd cyn i ni glywed gair o son am y Proff. Howells, a'n bod yn cymeryd golwg dra manwl arno, gan fesur ein hunain wrtho, i edrych a oedd gobaith i ninnau fyth gyrhaedd y tir uchel y safai arno. Ac y mae genym adgofion hapus am ei weinidogaeth, a'r hwyl hyfryd gyda pha un y traddodai y genadwri am y groes yn nghanol cymoedd Morganwg.

Yr oedd Proff. Howells yn ddyeithr hollol yn y cylchoedd hyny, ac yn holl gylchoedd Cymreig y Cyfundeb; ac o herwydd hyny ni chlywsem am ei enw, na gwybod am y berthynas ddyddorol oedd i fod rhyngom fel dysgybl ac athraw mewn blynyddoedd i ddyfod. Yr oedd hyn yn sicr yn golled i'r Cyfundeb, ac yn ddiau yn golled nid bychan i'r Athrofa. Ni chlywsem son am dano fel dyn ac fel pregethwr. Cofiwn yn dda gan hyny yr argraff a wnaeth arnom pan y clywsom ef yn pregethu gyntaf yn fuan wedi i ni fyned i'r Athrofa. Ei destun ydoedd yr Orphwysfa, yn Heb. iv., pwnc oedd ymhen blynyddoedd i afaelu yn gryf yn ein meddwl a'n myfyrdod. Yr oedd y bregeth yn un dra nerthol; ac aethom i'n hystafell y noson hono gan deimlo cywilydd o'r pregethwr oedd wedi dyfod gyda ni o Forganwg, a'r hwn oedd yn mynu trigo o dan yr un tô a ninnau. Wedi clywed y Prifathraw, bu cywilydd arnom am ddyddiau meddwl ein bod yn dipyn o bregethwr, gan mor ragorol ac mor ardderchog yr argraff a dderbyniasom oddiwrth y bregeth. Nid ydym yn cofio dim o honi, ond y mae y pregethwr yn fyw ger ein bron y foment hon. Safai yn syth ac yn syml, llefarai yn dawel a digyffro, gan osod i lawr sylfaen ei bregeth mewn esboniadaeth fanwl a meddylgar. Elai ymlaen yn hollol hamddenol, gan ddefnyddio yr iaith fwyaf syml a grymus. Heb amcanu yn y mesur lleiaf at hwyl, cynhesai yn araf at ei bwnc, ac ymdriniai âg ef yn eang ac yn feistrolgar. Cyfarchai y deall, gan daflu ffrwd o oleuni i feddyliau y gwrandawyr. Yr oedd y dychymyg yn y tresi yn barod at waith, a gwelem y dur gloew yn dysgleirio, ond yr oedd y pregethwr â'i law ar y ffrwyn hyd nes y byddai y deall yn oleu gan y gwirionedd. Yr oedd gan y Proffeswr ddychymyg bywiog a chryf, ond gwyddai hefyd mai nid ceffyl blaen ydoedd i fod yn y pulpud. Ymlaen yr äi gyda'i bregeth yn yr ymadroddion mwyaf hapus, a'i deimlad ei hun a theimladau ei wrandawyr yn dechreu croni. O'r diwedd y mae y gwaed yn saethu i'w wyneb, mae ei law yntau i fyny at ei dalcen, ac yn cael ei thaflu allan; y mae ei nwydau wedi eu fflamio gan y gwirionedd; ac y mae y bregeth yn ymdori mewn hyawdledd nerthol sydd fel llifeiriant yn ysgubo y cwbl o'i flaen. Nid oes un rhan o'r dyn nad ydyw y pregethwr yn ymaflyd ynddo: y mae y gwirionedd wedi ei egluro i'r deall, y mae y dychymyg wedi ei ddeffroi a'i foddhau, ac y mae yr appeliadau at y gydwybod yn nerthol a difrifol, ac yn goron ar y cyfan. Ni chlywsom ef nemawr o weithiau

* *Life and Letters of* Charles Darwin.

wedi hyny, ond yr oedd y tro hwnw yn ddigon i ni ei restru ymysg pregethwyr mwyaf nerthol Cymru, ac yn wir unrhyw wlad. Y mae ysbryd a nerth y bregeth hono yn aros yn ein meddwl o hyd, er nad ydym yn cofio fawr o'r sylwadau. Gwnaeth y bregeth ni yn hollol anfoddlawn arnom ein hunain. Gwelsom pa mor bell yr oeddem o'r man lle y safai y Proffeswr. Fe allai na chyfeiliornem pe dywedem, na chawsom fendith fwy yn ystod ein harosiad yn yr Athrofa na'r teimlad o gywilydd a diddymdra gododd ynom wedi ei wrando.

Y mae yn sicr fod Proffeswr Howells yn un o ddynion galluocaf y Cyfundeb, ac nid oedd yn ail i neb fel pregethwr. Cafodd y Cyfundeb golled fawr am ei fod wedi ymneillduo mor llwyr o'r cylchoedd Cymreig. Nid ydym yn petruso dywedyd ddarfod iddo i ryw fesur wneyd cam âg ef ei hun, a cholledu y genedl yn fawr yn hyn. Nid ydoedd, o herwydd anfanteision boreuol, yn ysgolhaig mawr. Diau y gallasai ragori fel ysgolor oni b'ai hyn, canys yr oedd yn ŵr o alluoedd mawrion a thra chydbwys. Yr oedd yn ddiau mewn rhai cyfeiriadau yn dra chymhwys i lenwi ei swydd fel Prifathraw Trefecca. Nid o herwydd ei fod yn ysgolor mawr nac yn ddduwinydd hynod. Nid oedd fe allai cymaint o anghen y ddau beth hyn a rhai cymhwysderau oeddent mor gyflawn ynddo ag unrhyw ŵr yn y Cyfundeb.

Fe allai nad ydyw yr oes hon yn rhydd oddiwrth y duedd o roddi gormod o bwys ar ysgolheigdod noeth, ar wahân oddiwrth elfenau eraill sydd, mewn sefydliadau addysgol, ac yn enwedig Athrofa dduwinyddol, yn llawn mor bwysig. Nid ydym yn myned i ddyweyd dim yn erbyn Prifysgolion ac Arholiadau. Fel rheol, y mae difrifoldeb efrydydd sydd yn myned drwyddynt, a'r egni gyda pha un yr ymrodda at y gwaith o addysgu ei hun, yn ernes o'i lwyddiant yn y dyfodol, a'r safle a gymer yn ei alwedigaeth pa beth bynag a fyddo. Ond nid ychydig fe allai ydyw yr engreifftiau o efrydwyr dysglaer ac ysgolheigion llwyddiannus yn troi allan yn fethiant mewn bywyd ymarferol. Ni chlywir dim am fwyafrif y *Senior Wranglers* a'r *First Class* wedi iddynt adael eu *Alma Mater* a myned allan i'r byd. Nid ydyw gradd ac anrhydedd mewn Prifysgol gan hyny yn sicrwydd am gymhwysderau dynion i lenwi pob cylch mewn byd ac eglwys: nid ydynt yn ddiwerth, ond dylid eu cymeryd am eu gwerth priodol, ac i'r amcan y bwriadwyd hwynt. Ac ni ddylid rhoddi dim pwys arnynt fel prawf o gymhwysderau i lenwi cylchoedd crefyddol sydd yn gofyn galluoedd ymarferol a diwylliad moesol nas gall ein Prifysgolion eu cynnyrchu ond yn bur aneffeithiol. O holl ganlyniadau ein Sefydliadau Addysgol, o'r Ysgolion Elfenol i fyny i'r Prifysgolion, fe allai mai y diwylliad moesol hwn ydyw yr un y gallwn ymffrostio leiaf ynddo.

Y mae yn hysbys nad oedd Proffeswr Howells wedi derbyn graddau gan un Brifysgol. Diau pe cawsai gyfleusdra yn moreuddydd einioes, y gallasai yn hawdd hynodi ei hunan yn y cyfeiriad hwn; ac y mae yn sicr y buasai yn gymaint ag un a adwaenasom wedi manteisio yn fawr ar hyn. Ond os nad ydoedd yn ysgolor enwog, yr oedd yn ddyn o ddiwylliad llwyr ac eang. Gwelsom lawer yn fwy o ysgoleigion yn ol dull y byd o gyfrif y peth, ac wedi cymeryd graddau uchel mewn Prifysgolion, ond heb fod ganddynt ddegwm y diwylliad oedd gan Mr. Howells. Ac mewn rhai cymhwysderau hanfodol anghenrheidiol i fod yn Brifathraw mewn Athrofa dduwinyddol, nid yn hawdd y gallesid cael ei ragorach yn y Cyfundeb.

Yr oedd yn deall pregethu mor berffaith a neb yn Nghymru. Fe allai ei

fod wedi cael profiad helaethach a mwy amrywiol o'r gwaith nag odid i un arall yn y Cyfundeb. Nid oes dim, fe allai, ond hir brofiad o'r gwaith hwn, fel pob gwaith arall, all roddi meistrolaeth arno. Nid hir brofiad yn y pulpud a feddyliwn. Y mae llawer wedi bod yn hir yn y pulpud, ond heb ddeall fawr o gyfrinion yr alwedigaeth gysegredig hon. Nis gal neb adnabod ffordd yr Ysbryd yn y weinidogaeth, fel ag i feddu unrhyw gymhwysder i gyfarwyddo ac i galonogi eraill at y gwaith, ond un sydd wedi pregethu llawer ei hun, ac wedi pregethu llawer i'r un bobl; wedi ei daflu flwyddyn ar ol blwyddyn, mewn myfyrdod dwys yn yr Ysgrythyrau, ar gyfoeth yr efengyl; ac weithiau, wrth daflu ei olwg ymlaen dros dreigliad y blynyddoedd, a chymeryd i mewn y posiblrwydd iddo gael ei alw gan yr Arglwydd i borthi ei bobl am flynyddoedd lawer, eto i gyd yn mawrhau Duw am gyflawnder diderfyn yr Ysgrythyrau, ac fel lefiathan yn chwareu yn eu dyfnderoedd yn teimlo y gallai, fel rhai o'r Puritaniaid, gadw praidd Duw i bori am ddeng mlynedd ar hugain yn mhorfa fras un adran o'r Gair sanctaidd. Trwy bregethu llawer i'r un bobl y gall dyn gyrhaedd yr hyder hwn. Y mae cyfrinion yn perthyn i waith y pregethwr sydd yn sefyll llawer yn nghyfrinach yr Arglwydd, nas gall y pregethwr teithiol, nad ydyw o bosibl wrth esgyn grisiau y pulpud wedi myned ymhellach na dywedyd fod dau a dau yn bedwar, byth eu gwybod. Nid o herwydd ei fod yn ddiflygiol mewn gallu, na gras nac ymroad, ond o herwydd nad oes ganddo yr un pulpud o'i eiddo ei hun i ddringo yn aml iddo, am fod yn rhaid iddo aros amnaid rhywun arall, ac yn y cyfamser grwydro yn ddiddym, ac yn aml, fel rhai rhagorol y ddaear, yn gystuddiol ac yn ddrwg ei gyflwr. I fod yn brofedig yn y weinidogaeth, fel ag i feddu cymhwysder i gyfarwyddo eraill, anghenrhaid ydyw fod dyn wedi bod yn llafurus am flynyddoedd yn yr Ysgrythyrau, yn "ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd," ac yn gwybod yn dda beth ydyw meddwl effro i ddal a defnyddio awgrymiadau ac arweiniad Ysbryd y gwirionedd, yr hwn ydyw ystafellydd mawr teyrnas Crist; ac o herwydd hyn yn gallu dwyn allan o'i drysorau Sabbath ar ol Sabbath bethau newydd a hen. Blynyddoedd o lafur yn y Gair, a phrofiad llwyr ac amrywiol yn y pulpud, all yn unig wneyd un yn *Professor* yn yr alwedigaeth gysegredig hon.

PENNOD II.

Os nad ydym yn camgymeryd yn fawr, nid oedd neb yn y Cyfundeb, ar yr adeg y gwnaed y dewisiad, wedi cael y profiad hwn yn helaethach, ac yn sefyll yn uwch yn y cymhwysder hwn, na Mr. Howells.

Bu yn weinidog sefydlog yn Abertawe, Caerfyrddin, a Liverpool am flynyddoedd; yn llafurio gyda diwydrwydd ac yn pregethu gyda nerth i'r un bobl. Ychydig iawn mewn cymhariaeth o weinidogion y Methodistiaid, yn y dyddiau hyn, sydd yn brofedig yn y weinidogaeth sefydlog, ac yr oeddent yn llai yn nyddiau gweinidogaeth Mr. Howells. Ac y mae yn sicr fod ei lafur yn y blynyddoedd hyn, a'i brofiad o bob anghenrhaid mewn pregethwr, wedi cynnyrchu un o'i brif gymhwysderau i fod yn Brifathraw Trefecca. Nid oedd neb yn y Cyfundeb yn deall y *Theory of Homiletics* yn well. Yr oedd yn feistr fel y dywedasom yn y gelfyddyd o bregethu, os priodol dywedyd felly; ond fel pob meistr arall, yr oedd yn deall yr egwyddorion yn fwy perffaith nag y gallasai roddi ymarferiad iddynt. Yr oedd ei ddosbarth mewn *Homiletics* yn un o'r rhai pwysicaf yn yr Athrofa, ac fe allai nad oes yr un wedi dwyn

cystal ffrwyth. Teimlwn yn dra dyledus i'r diweddar barchedig Athraw am yr addysg a'r hyfforddiad a gawsom yn y *theory* a'r *practice* yn y dosbarth hwn. Os oes genym syniad cywir am waith mawr ein bywyd, os nad ydym yn y niwl ynghylch gwir natur ac amcan pregethu, yr ydym i fesur mawr yn ddyledus am dano i Drefecca, ac i'r hyfforddiad a gawsom gan Mr. Howells. Ac nid ydym yn meddwl fod yr un efrydydd difrifol wedi dyfod o'r Athrofa yn ystod amser Mr. Howells â syniad niwlog ac anghywir am bregethu.

Cofiwn yn dda am un amgylchiad pan y gosodai y Prifathraw bwys mawr ar fod y pregethwr yn gwneyd defnydd helaeth o'r Ysgrythyrau, ac yn defnyddio hyd yr oedd yn bosibl eiriau Duw ac nid ei eiriau ei hun, pan yn ceisio gafaelyd yn nghydwybod y gwrandawyr, fod un o'r efrydwyr yn codi gwrthddadleuon ac yn ammheu y priodoldeb o hyn. "*I would rather use my own words*," meddai. Atebodd yr athraw, "*You can use, Mr.* ——, *your own words with your own poor results; but I would rather grapple with the conscience with God's words, which are far more likely to be effective.*" Cofiwn yn dda yr ysbryd gyda pha un y llefarwyd y geiriau, a'r argraff ddwys gynnyrchwyd ganddynt. *Poor Mr.* ——*!* nis gwyddom pa le y mae, pa un ai yn y corff ynte allan o'r corff; ond cawsom brawf ymarferol wedi hyn y buasai yn fwy defnyddiol ac yn fwy dedwydd pe buasai addysg yr athraw ar hyn wedi cael mwy o le yn ei feddwl!

Yr oedd yn *Professor* Howells barch dwfn iawn i Air Duw, ac yr oedd wedi ei feddiannu i raddau mawr gan ei ysbryd. Yr oedd yn weddïwr mawr. Cawsom gymaint o hyfforddiad ac addysg lawer gwaith, os nad mwy, yn ei weddïau ag yn ei ddosbarthiadau. Yr oedd yn *treat* o'r mwyaf ei glywed ar ei liniau yn y cyfarfod gweddi. Y fath barchedigaeth, y fath symlrwydd, y fath gyflawnder o ddeisyfiadau yn cyfateb i holl amrywiaeth y bywyd ysbrydol, a'r cyfan wedi ei arliwio gan yr Ysgrythyrau! Ni chyfododd erioed oddiar ei liniau heb lwyddo i fyned â ni y tu fewn i'r wahanlen, nes teimlo o honom ein hunain yn sefyll yn mhresennoldeb Duw. Yr oedd ein parch iddo yn dyfnhau bob tro y clywsom ef yn gweddïo; ac y mae y weledigaeth o hono ar ei liniau yn debyg o aros yn ein meddwl am dalm o amser.

Yr oedd yn ei holl gysylltiadau â'r efrydwyr yn foneddwr perffaith. Nid ymddygai atynt fel bechgyn o dan oed, gan edrych i lawr arnynt megys un o uchder mawr; edrychai arnynt fel ei gyfeillion, yn sefyll ar yr un tir ag yntau, ac wedi eu galw at yr un gwaith mawr ag yntau. Ni tharawodd dim ni yn fwy pan aethom i'r Athrofa na'r boneddigeiddrwydd hwn ynddo. Gwelodd rhai o'r bobl ieuainc eu hunain mewn goleuni newydd, a dyrchafwyd eu syniad am gymeriad a swydd y pregethwr wrth ddyfod i gyffyrddiad âg ef. Yr oedd y dyrchafiad o awyrgylch a thraddodiadau yr Ysgol Ramadegol i'r Athrofa, o herwydd yr elfen hon yn nghymeriad y Prifathraw, yn un a groesawid yn fawr genym; ac yr oedd yr argraff a wnaeth ar ein hysbryd ymhell o fod yn dibwys. Cawsom ein haddysg ragbarotoawl mewn Ysgol Ramadegol o'r dosbarth goreu. Y mae genym barch diffuant i'n hathraw. Yr oedd yno ugeiniau lawer o bob oed a sefyllfa, ac fe allai fod dau neu dri o honom yn bregethwyr. Nid oedd derbyn wyneb gyda'r athraw; maes mawr heb ddim ffafr oedd i gael gydag ef. Yr oeddem ninnau wedi ein gwneyd yn bregethwyr, wedi pasio y Cyfarfod Misol, ac yn bur aml ar y Sabbothau yn ysgwyd cynnulleidfäoedd; a chan roddi pwys mawr arnom

ein hunain, dysgwyliem i'r athraw gydnabod rhyw gymaint ar ein sefyllfa, a gosod rhagor rhyngom a'r llwythau eraill. Ond na, dim gwahaniaeth; gogrynwyd ni yn ddidderbyn-wyneb ymysg yr ugeiniau eraill, heb unrhyw gydnabyddiaeth o'r urddau anrhydeddus oedd eisoes yn ein meddiant. Cofiwn yn dda fod rhai brodyr anrhydeddus yn gwingo yn enbyd yn erbyn yr oruchwyliaeth; ac yr ydym yn adnabod un brawd dorodd i lawr yn llipryn o dan yr oruchwyliaeth lem ond iachus, ac a adawodd yr ysgol yn ffroenuchel. Ond Annibynwr oedd efe. Parhasom ni ac eraill hyd y diwedd, ac y mae genym barch calon i'r athraw hyd y dydd hwn. Cawsom ein bendithio yn fawr drwyddo. Gwnaeth ni i weithio yn galed, ni ddarfu i ni erioed wedi hyny weithio yn galetach. Gosododd ei iau yn drom arnom wrth ddechreu, ac yr ydym yn ddyledwyr iddo hyd yr awr hon.

Nid ydym yn ei feïo ef wrth wneyd cyfeiriad at ddull gwahanol Proffeswr Howells tuag at yr efrydwyr. Mewn Ysgol Râmadegol yr oedd hyn yn iawn a manteisiol, ac yr oeddym yn well ymhob ystyr o'r ddysgyblaeth lem, ac o awdurdod didderbyn-wyneb yr athraw. Ond yr oeddym mewn perthynas wahanol yn Nhrefecca; ac yn sier nid ysbryd y *Grammar School* oedd yn briodol i weinyddu y Sefydliad. Yno yr oeddym yn frodyr, a'r eglwysi a'r Cyfarfodydd Misol wedi rhoddi eu sêl ar ein galwad gan Grist i waith mawr y weinidogaeth; a thuag at weinyddu sefydliad o'r fath yn effeithiol, priodol oedd fod hyn yn tymheru holl ymwneyd yr athraw â'i ddysgybl. Ac ar ein mynediad yno teimlasom y gwahaniaeth yn y sefyllfa; ac yn ein cyfarfyddiad cyntaf â'r Prifathraw Howells gwnaeth hyn argraff ddwys arnom. Gwelsom ein hunain mewn goleuni newydd. Daeth urddas y sefyllfa, a phwysigrwydd ein galwedigaeth i'r gwaith mawr o bregethu Crist, yn fwy byw nag erioed ger bron ein meddwl; a chynnorthwyodd ymddygiad boneddigaidd a hynaws y Prifathraw tuag at yr efrydwyr ni i sylweddoli y dylai pob *student*, sydd â'i wyneb ar waith mawr y weinidogaeth, fod yn rhinwedd ei swydd yn ŵr boneddig. Dyrchafai ein syniad am y swydd a'r gwaith y cymhwysid ni iddo trwy y modd hynaws a boneddigaidd yr ymddygai tuag atom. Ni chymerodd fantais ar ei sefyllfa i ddiystyru neb, ac i ymddwyn yn anfoneddigaidd tuag at neb. Pa beth bynag oedd y gŵr ieuanc cyn dyfod i'r Athrofa, a pha beth bynag oedd ei alluoedd, ymddygid tuag ato fel gŵr boneddig gan y Prifathraw. A rhaid ei fod yn gwneyd hyn o egwyddor, canys nid ychydig fe allai oedd y profedigaethau a gafodd, fel pob gŵr oedd yn llanw sefyllfa gyffelyb, gan fod aml un bychan yn eistedd wrth ei draed ag y gallasai yn ddiberygl droi golwg heb fod yn urddasol arno. Ond y cyfryw oedd ei syniad goleu am anrhydedd y swydd weinidogaethol, ac urddas yr eglwysi a'r siroedd a ddanfonasant y gwŷr ieuainc ato am gyfarwyddyd ac addysg, fel nad oedd y perygl lleiaf i air nac ystum anfoneddigaidd. Os meddyliai weithiau fod rhyw sylw o'i eiddo wedi rhoddi teimlad neu friw i neb, yr oedd yn barod ar yr achlysur cyntaf i wneyd ymddiheurad. Yr oedd yn feistr ar y watwareg fwyaf llem, a gallai âg edrychiad foddi gwrthwynebydd mewn dirmyg. Ond nid mewn arfogaeth felly yr ymddygai at yr efrydydd mwyaf eiddil ei amgyffredion. Diau fy mod yn mynegi teimlad ei holl efrydwyr pan yn dywedyd fod y Prifathraw Howells wedi gadael argraff ddofn arnynt ei fod yn foneddwr perffaith.

Am ei allu fel bardd a llenor, nid rhaid i ni draethu am danynt. Yr oedd yn fardd o fri. Wrth edrych dros rai rifynau o'r *Welsh Calvinistic*

Methodist Record, gwelwn rai *sonnets* o deilyngdod uchel, y rhai a ddengys y gallasai wneyd enw iddo ei hun fel bardd ped ymroddasai at y gorchwyl. Yr oedd ganddo y chwaeth lenyddol uchaf, a barn gywir am deilyngdod llenyddol. Yr oedd wedi darllen yn eang ac yn helaeth mewn llenyddiaeth Seisonig; ac nid ydym yn ammheu na allasai gydag ymroddiad gynnyrchu gwaith o deilyngdod llenyddol uchel. Mewn gair, credwn fod ei feddwl o'r fath gydbwysedd, a'i alluoedd mor amrywiol, fel y gallasai ragori mewn unrhyw un o'r llwybrau sydd yn arwain dynion i anrhydedd ac enwogrwydd. Ond y clod mwyaf iddo ydyw, ddarfod iddo ymfoddloni i wasanaethu ei gydgenedl o fewn cylch y Cyfundeb yn Nghymru, tra y gallasai wrth gymeryd ei arwain gan uchelgais wneyd enw iddo ei hun mewn cyfeiriadau eraill. Mae rhai dynion ieuainc yn ein dyddiau ni, os bydd ganddynt ddawn i ddywedyd, yn dechreu teimlo Cymru yn rhy gyfyng, ac yn estyn eu gyddfau dros Glawdd Offa. Ond dyma wr fuasai yn anrhydedd i unrhyw bulpud yn y Brifddinas, wedi rhoddi ei hunan i'w Dduw ac i'w wlad, gan fod yn foddlawn i wasanaethu cynnulleidfaoedd bychain Seisonig ein gwlad heb chwennych anrhydedd nac enw ymysg dynion. Ni bu ond odid neb o gedyrn cin gwlad â'i enw yn llai yn y cyhoedd nag efe. Anaml iawn y gwelsom ei enw mewn newyddiadur. Y mae enwau rhai yn llwyddo i fod o hyd ar adenydd yr angel diweddaf hwn, os angel hefyd, o eiddo ein gwareiddiad. Y mae eu geiriau a'u gweithredoedd gorchestol trwy ryw swyngyfaredd yn disgyn fel cenllysg iddynt. Y mae y gohebyddion yn hollwybodol, a'r newyddiaduron yn cael eu llenwi â phwffyddiaeth. Ac i ba beth? Addoli y *public* y mae rhai, ac eraill yn cael llawn cymaint o foddhad wrth addoli eu hunain, a gweled eu henwau yn fflachio am ddiwrnod yn ngoleuni dydd. Onid ydym mewn perygl o golli ymfoddhad mewn dyledswydd a gwasanaeth i Dduw, yn annibynol ar barch ein cyd-ddynion? Mae gwir fawredd yn cael ei wobr a'i fawrhad mewn gwasanaeth i Dduw yn y cylchoedd mwyaf dystaw a neillduedig. Nid ydyw rhinwedd a gwir fawredd yn sefyll mewn anghen am hysbysiadau. Digon ganddo ydyw yr hysbysrwydd sydd yn y gydwybod ei fod yn gwneuthur ewyllys Duw. Y mae "y gohebydd neillduol" yn un o eilunod penaf yr oes, ac y mae gormod o'n dynion cyhoeddus yn llosgi arogldarth iddo. Teimlasom awydd lawer gwaith i'w gyru hwynt i gyd am flwyddyn i gaethiwed, fel y caffai y wlad lonydd i feddwl mwy am burdeb tuag at Dduw:—

"How pitiful a thing seems the approval or disapproval of these creatures of the convention of the hour, as one figures the merciless vastness of the universe of matter sweeping us headlong through viewless space; as one hears the wail of misery that is for ever ascending to the deaf gods; as one counts the little tale of years that separate us from eternal silence!"

Nid oes dim a edmygwn yn fwy yn ein hen athraw, na dim yn fwy o addurn ar ei gymeriad, na'r ymfoddhad a deimlodd mewn gwneyd gwasanaeth dystaw neillduedig dros Dduw. Yn yr Athrofa ac yn y pulpud nid oedd yn udganu o'i flaen. Ac er ein bod yn credu ddarfod iddo wneyd cam âg ef ei hun ac â'r Cyfundeb wrth ymgadw mor neillduedig, eto i gyd, mewn oes pan y mae pob doniau yn sychedu am gael eu gweled, a llawer mewn perygl o dorfynyglu wrth estyn eu gyddfau yn rhy uchel, y mae yn ammeuthyn ac yn ysbrydoliaeth i weled un o ddynion galluocaf y genedl, ac un o'r pregethwyr hyawdlaf esgynodd i bulpud, yn ymbleseru mewn gwneyd gwaith dystaw dros Dduw trwy bregethu Crist i gynnulleidfaoedd bychain tlodion, yn foddlon ar gydna-

byddiaeth oedd fawr dros ben talu ei dreuliau—pregethwr na chlywyd mo'i hyawdlach yn mhrifddinasoedd y byd. Dyma engraifft o wir fawredd ag y byddai yn dda i'r genedl edrych yn ddyfal arno!

Gall y diweddar Brifathraw ddysgu gwers i ni i gyd yn y dyddiau hyn. Un o anghenion penaf ein Cyfundeb yn y dyddiau hyn ydyw yr hunan-aberthiad hwn. Y mae gormod o chwennych y cylchoedd mwyaf cyhoeddus yn ein mysg. Nid ydym yn foddlawn i wasanaethu Crist mewn cylchoedd neillduedig a chartrefol, gan ystyried tystiolaeth ein cydwybod a chymeradwyaeth ein Harglwydd ein tâl penaf. Yr ydym yn chwennych aeron teg y cyhoedd, am gael ein henwau fel dynion mawr yn chwyfio yn yr awelon; ac fel cawr arall, rhaid i ninnau gael y gŵr a'r darian gyda ni yn mhob man. Cyfoded Duw lawer yn ein Cyfundeb yn meddu yr un galluoedd a'r diweddar Brifathraw, ac yn enwedig yn meddu yr un ysbryd gwrol a haelfrydig i ymhyfrydu yn ngwasanaeth Duw mewn cylchoedd neillduedig a dystaw, o herwydd mai gwasanaeth Duw ydyw, ac nid o herwydd ein bod yn wrthddrychau edmygedd y bobl—yr ysbryd sydd yn ystyried fod Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist yn haeddu yr ymgysegriad mwyaf a'r doniau uchaf yn y lleoedd mwyaf neillduedig, ac allan o swn chwibaniad yr argraffwasg; ac yn ymbleseru yn ddystaw mewn gwneyd pulpud y tlodion mor hyawdl ac mor ddysglaer ag eiddo gŵr y fodrwy aur a'r dillad gwychion! Y cyfryw ŵr ydoedd y diweddar Brifathraw Howells, ac y mae ein Cyfundeb a'r wlad wedi cael colled fawr ar ei ol. Y mae ein hiraeth ninnau yn fawr na chawn weled ei wyneb mwy yn y cnawd. "Fy nhad, fy nhad! cerbyd Israel a'i farchogion!"

PREGETH ANGLADDOL

I'r diweddar Barch. Isaac Williams, *Llanbrynmair.*

Gan y diweddar Barch. Joseph Thomas.

(Cofnodwyd gan Miss Sarah Williams, Llanbrynmair, Hydref, 1886.)

2 Timotheus iv. 6—8: "Canys myfi yr awr-hon a aberthir, ac amser fy ymddattodiad i a nesäodd. Mi a ymdrechais ymdrech dêg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw: ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef."

Paul a lefarodd y geiriau hyn pan yn y carchar yn Rhufain, pan ar gael ei ferthyru. Yr oedd amser ei ymddattodiad yn agos, ac yntau wedi cael ei adael yn o unig, ac y mae am gael gweled Timotheus cyn ymadael. Pa un a gafodd ai peidio nid ydym yn gwybod.

Yr hanes cyntaf a gawn am Paul ydyw ei fod yn dal dillad y rhai oedd yn llabyddio Stephan. Gallasem feddwl mai rhywbeth damweiniol oedd hyn, ond y mae Paul ei hun yn dyweyd ei fod yn cydsynio i'w ladd ef. Yr oedd pobl yr Arglwydd yn meddwl yn bryderus pwy a gaent i lanw lle Stephan, dyn mor dda a defnyddiol; ond yr oedd yr Arglwydd wedi meddwl am un i lanw ei le, a mwy na llanw ei le. Ond yr oedd hwnw mewn gwaith annhebyg iawn, yrwan, yn dal dillad y rhai oedd yn llabyddio Stephan. Ni ddylem wan-galoni yn wyneb colli rhai ffyddlawn, pan gofiwn fod yr Arglwydd yn codi rhai o le mor annhebyg i lanw eu lle.

Y mae Paul wrth son am ei dröedigaeth yn dyweyd, "Mi a gefais drugaredd." Y mae tair elfen yn y drugaredd yma: (1) Duw yn hir-ddioddef iddo. Fe laddodd Duw lawer pan oeddynt yn y weithred o erlid; fe foddodd Pharaoh a'i fyddin yn y Môr Coch ar y weithred o erlid; ond fe gadwodd Paul yn fyw: (2) Fe faddeuodd Duw yr erlid iddo; ac (3) Fe roddodd Duw waith iddo. "Yr ydwyf yn weinidog yn ei waith, wedi fy nghyfrif yn deilwng i fod yn ddyn o *drust* ganddo," meddai Paul. Dyma "y cleddyfau yn cael eu troi yn sychau,"—Paul yr erlidiwr yn cael ei wneyd yn weinidog.

Llafur Paul, llafur cariad ydoedd. "Yr wyt ti yn yn ydu," meddai rhywun wrtho. 'Nac ydwyf,' meddai Paul, 'ond cariad at Grist sydd ynof.'

Pan ranwyd gwlad Canaan yr oedd yno un llwyth wedi cael rhy fach o le, ac yr oedd yr hwn oedd yn rhanu y wlad yn perthyn i'r llwyth hwnw, fel yr oedden nhw yn dysgwyl *share* go dda. 'Yr ydym ni yn bobl fawr,' meddent wrth Josua, 'ac wedi cael rhy fach o le.' 'Wel,' meddai Josua, 'mae genych ddigon o fynydd, arloeswch hwnw, a thorwch y coed.' Y mae rhai tebyg i'w cael eto, pobl eisieu y tir wedi ei arloesi. Ond y mae eisieu yr ysbryd cenadol i arloesi tir newydd. Dyma yr ysbryd oedd yn Paul,—tori tir newydd. Ni fedrai arch Duw ddim bod yn yr un fan a Dagon heb ymosod arno. Yr oedd yr elfen yma yn gref iawn yn Paul. Fe gariodd Paul yr efengyl i'r Cenedloedd. Paul ddaeth â'r efengyl i Ewrop. Yr ydym ni y Cenedloedd yn ddyledus iawn i Paul. Efe oedd y dyn rhyfeddaf a gerddodd y ddaear yma erioed. Nid yw y Patriarchiaid a Moses ond plant wrth ei ochr. Yr oedd Paul yn pregethu yr efengyl er pob anhawsder: mewn newyn—cael rhy fach o fwyd; mewn noethni—rhy fach o ddillad am dano. Fe ellsid yn hawdd ddyweyd wrtho, 'Paul, pam na wnei di *dentiau* i ti gael gwell dillad?' wrth ei weled o yn gwthio ymlaen drwy y tyrfaoedd â'r hen efengyl ganddo. 'Na,' meddai Paul, 'anghenrhaid a osodwyd arnaf, a gwae fydd i mi, oni phregethaf yr efengyl.' Fe wnaethant gasgliad iddo unwaith. Wel, yr oedd o yn fwy boddlon, wedi hyny. 'Na,' meddai, 'yr oeddwn i yn foddlon o'r blaen,—wedi dysgu ymha gyflwr bynag i fod yn foddlon.' Ai wrth draed Gamaliel y dysgaist ti? 'Na, wyddai Gamaliel ddim am y ddysgeidiaeth yma, ond wrth draed y Bachgen a anwyd yn Bethlehem.'

Ond "amser fy ymddattodiad i a nesäodd," meddai yn y testyn. Maent yn dyweyd fod yma gyfeiriad yn y geiriau yna at godi yr angor pan fydd y llong ar gychwyn i'r môr—ar gael ei gollwng yn rhydd i'w helfen. Wrth ollwng *balloon* i fyny, y maent yn graddol lacio y rhaffau, ac y mae y *balloon* yn myned i fyny hŷd y rhaffau o hyd. Mae y Cristion yr un fath. Pan y mae rhaffau y byd yma yn llacio ychydig ar ddydd Sul, y mae o yn esgyn i fyny ar unwaith: "Amser fy ymddattodiad i a nesäodd." Wel, beth y mae Paul yn ei wneyd? Mae o yn gwneyd yr un peth ag a wnawn ni i gyd pan yn nesu at y terfyn —adolygu ei fywyd. Dyna fel y gwnaeth Hezecïah. Yr oedd Hezecïah, yn ol pob tebyg, i farw y diwrnod hwnw; ac y mae yn edrych yn ol ar ei fywyd, ac yn cael fod ei yrfa yn o wastad. 'Mi wyddost,' meddai wrth yr Arglwydd, 'sut y rhodiais i ger dy fron di mewn gwirionedd ac â chalon berffaith.' Hezecïah, a fu dy gamrau di yn berffaith? 'Naddo, ond yr oedd fy nghalon yn berffaith.' Yr oedd Hezecïah yn cael cysur wrth adolygu ei fywyd. Wn i ddim a ddaw yr odfeuon yma â chwi i adolygu eich bywyd, ond mi ddowch ryw bryd, yn sicr i chwi. Paul, wrth fwrw golwg ar ei fywyd, yn gallu dyweyd, "Mi a ymdrechais ymdrech deg." 'Doedd hi ddim yn hir, ond yr oedd yn deg. Mae yn debyg ei fod yn cyfeirio at y campau, a'i fod wedi cadw at y rheolau — wedi cadw y ffydd, wedi byw a phregethu yr efengyl a roddwyd ato i'w chadw. 'Gofala dithau am dani,' meddai wrth Timotheus. *Just* fel yr oedden' nhw wedi gwneyd gyda'r bobl wrth ddyfod o Babilon. Rhoddent rai o lestri y deml iddynt i'w cario, ond wrth eu rhoddi yn eu pwyso a'u cyfrif, ac yr oeddynt i'w *delivero* yn ddiogel yn Jerusalem i gael eu pwyso a'u cyfrif yno, i weled a oeddynt yno i gyd, ac yn yr un pwysau â phan yn cychwyn. Dyna fel yr oedd Paul yn gorchymyn i Timotheus ofalu am yr athrawiaeth. Yr oedd Paul wedi gofalu, ond 'rwan yr oedd o ar gael ei alw adref. "Nid wyf yn gwneuthur cyfrif o ddim," meddai, "ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw." 'Peidiwch â fy nigaloni; yr wyf yn edrych ymlaen at gael derbyn y goron o law y Barnwr cyfiawn.' Pwy condemniodd di i farw, Paul? 'Wel, barnwr *anghyfiawn;* ond mi gaf y goron o law Barnwr cyfiawn.' Nid oedd dim yn Paul yn haeddu marwolaeth, ond yr oedd Nero anghyfiawn

wedi ei gondemnio. Y mae yr un goron i'w chael i bawb a'i ceisiant.

Ond bellach mi ddywedwn dipyn am Mr. Williams. Yr oeddwn yn ei adwaen er yn lled foreu. Yr oedd wedi cael tipyn mwy o addysg na'r cyffredin o bregethwyr yr oes hono. Yr oeddem ni, y bobl ieuainc, yr amser hono yn ei bwyso a'i fesur, ac yn addaw y cawsem bregethwr da ynddo. Mi wranta eich bod chwithau wedi ei fesur a'i bwyso lawer gwaith. Wel, yr oedd yntau yn graff iawn, ac wedi eich mesur a'ch pwyso chwithau.

Wrth edrych ar ei fywyd yn y wedd nacäol, gallwn ddyweyd ddarfod iddo fyw cystal â nemawr un a fu byw am bedwar ugain mlynedd yn eich mysg; lygrodd o neb. Yr oedd hon yn elfen gref iawn ynddo. Nid oedd yr elfen ymosodol mor amlwg. Yr oedd wedi dysgu sut i fyw yn Llanbrynmair, ac wedi astudio ei bobl yn dda.

Nid oedd Mr. Williams yn hoffi aflonyddu rhyw lawer, ond fe ymdrechodd ymdrech deg iawn. Oes o ymdrech fu ei oes, ymdrechfa fu; ac y mae yn dda genyf fi ei fod wedi myned i'w orphwysfa yrwan. Mi gydoesodd â thair oes. Fe ddechreuodd dan law yr hen *ddivine* o Bontrobert (hen *ddivine* na fagodd Sir Drefaldwyn, os magodd unrhyw Sir, ei debyg). Y mae y rhai oedd yn dechreu pregethu tua'r un amser ag ef wedi myned er's talm; ei gyfoedion oeddynt Richard Jones o Lanfair a Ffoulk Parry, ac eraill. Erbyn hyn y mae oes newydd o bregethwyr ar y maes—oes o rai wedi cael llawer o fanteision na chafodd yr hen bobl. Gyda y gwŷr traed y cychwynodd ei yrfa, ond yr oedd o yrwan yn gorfod rhedeg gyda'r gwŷr meirch.

Mi fentrodd ar y weinidogaeth mewn adeg anfanteisiol iawn. Anhawdd iawn oedd i ddyn fyw ar y gydnabyddiaeth a gai am bregethu yr adeg hono. Yr oedd un peth a allai pregethwr wneyd, sef teithio, ond ni wnaeth ef ddim rhyw lawer o hyny. Yr oedd pob enwad arall â'u gweinidogion yn byw ar y weinidogaeth ond y ni. Mi gollodd ei briod pan oedd ei blant yn fân, ond mi safodd yn ddystaw gyda'i blant; a chafodd fyw i weled ei faich wedi ei ddwyn i ben. Dylai y rhieni gofio am y plant y maent yn fagu; mi wnant fel y dywedwch wrthynt yrwan, ond y maent rywbryd eto yn sicr o eistedd mewn barn ar eich ymddygiadau, a pheth mawr fydd i chwi beidio myned i lawr yn eu barn. Mi ddeil ymddygiadau Isaac Williams i'w blant eistedd mewn barn arnynt.

Mi gadwodd y ffydd. Nid pethau ammheus a bregethodd, ond hen wirioneddau. Ni byddai yn pregethu llawer o'r pethau y mae Cristionogion yn gwahaniaethu arnynt. Y mae rhai am sefyll ar yr ychydig bethau hyny; ond geiriau gwirionedd a sobrwydd oedd ganddo ef bob amser. Cenadwri er eich *lleshau* oedd ganddo; nid eich *boddhâu* oedd ei amcan. Ddaethoch chwi erioed yma gan feddwl y caech ryw ddifyrwch ganddo. Nid oedd o ddim yn rhoi rhyw lawer o bwys ar ddoniau. Yr ydw i yn cofio bod yn siarad â fo ar ol rhyw Sasiwn go hwyliog, a'i fod yn dyweyd wrthyf, "Mi ge's fwy o fendith wrth wrando ar Jonathan Judd yn y Bont nag a ge's i yno." Mi ddaeth yma bobl enwog iawn i'r Sir yma, a swn mawr iawn efo nhw; ac fe fyddai rhai yn tramgwyddo wrth yr holl swn, a gweled troi yr hen weinidogion heibio. Ond mi safodd o yn eu canol yn ddystaw, ac fe gadwodd ei barch yn yr holl Sir hyd y diwedd.

Ni ddarfu o ddim goroesi ei lafur a'i ddefnyddioldeb; ac nid peth bach, wrth ddringo i fyny at y pedwar ugain, oedd hyn. Nid peth bach oedd hyn chwaith pan yr oedd yn byw efo oes wedi cael llawer mwy o fanteision nag a gafodd ef. Hawdd iawn oedd iddynt basio hen bobl ar y rhiw. Ond fe gadwodd o i fyny â'r oes.

Mae o wedi cyrhaedd at ei bobl yrwan—ei berthynasau a phobl ei ofal; ac y mae wedi eu cael yn burach nag y cafodd hwy erioed o'r blaen. Y mae wedi cyfarfod drachefn â'r rhai helpodd o ar y ffordd. Mi fyddwch yn bur gyfrifol am y geiriau a bregethodd. "Llosgodd y fegin." Nid diffodd a wnaeth mewn rhyw glefyd, ond mi losgodd allan ar ol pedwar ugain mlynedd o lafur. Clywais un hen wrandawr, ar ol marw tri o'r hen bregethwyr, yn dyweyd, "Mi gawn fyn'd i'r fan fynwn ni o'u rhan nhw bellach, ond y mae Iesu Grist yn fyw eto rhyngom â'r fflamiau." Cofiwch chwithau hyn. Y mae eich hen wein-

idog wedi myned, ac ni chewch ei glywed o yn eich rhybuddio eto, ond y mae Iesu Grist yn fyw. Yr oedd llawer o weithwyr yr ail deml yn marw cyn gweled ei gorphen, ond yr oedd Zorobabel yn fyw. 'Wyt ti yn gwybod fod dy feistr i gael ei gymeryd oddiarnat?' meddent wrth Eliseus. 'Mi a wn hyny, tewch chwi a son,' meddai yntau. Y mae yn cael yr un stori yn Jericho, yr oeddynt yn ei boeni; ond ar ol colli Elïas, y mae yn cael cysur wrth gofio fod Arglwydd Dduw Elïas eto yn fyw.

Meddyliwch lawer am y byd y mae Mr. Williams wedi myned iddo. Fel y gwnaeth Dafydd ar ol y bachgen, "Nyni a awn ato ef, ond ni ddychwel efe atom ni." Mae tri gair am fyned i'r nefoedd: (1.) Y cerbyd a ddaeth i 'mofyn Elïas. Wn i ddim pwy aethai i hwnw ond Elïas. (2.) "Ei ddwyn gan yr angylion i fynwes Abraham;" a (3.) "Huno yn yr Iesu," fel y fam yn rhoddi ei phlentyn i gysgu. "Marw yn yr Iesu,"—yn yr Iesu yn y farn, yn yr Iesu am dragywyddoldeb.

Mae Mr. Williams wedi ei gadw, ond beth am danoch chwi? Yr oeddwn i unwaith yn un o drefi Lloegr, ac mi welwn hen ysgolfeistr oeddwn yn ei adwaen yno, a rhyw chwech o fechgyn yn ei ganlyn. Yr oeddwn yn synu ei weled mor bell o'i gartref, ac mi ofynais iddo beth oedd yr achos. "Wel," meddai, "y mae y bechgyn yna i sefyll arholiad yma, ac mi ddês innau yma gyda nhw i gael bod yn dipyn o galondid iddynt." Mi gwelais o wedi hyny ymhen rhai diwrnodau â golwg lawen dros ben arno, ac meddai, "Y mae fy *scholars* i gyd wedi pasio." Mi fydd yn dda gan Mr. Williams weled ei *scholars* yn pasio ddydd y farn.

Hefyd am ei deulu. Pan oedd Christiana yn marw, yr oedd yn anesmwyth iawn am ei phlant. Mi fuasai yn well ganddi pe buasent yn cael myned gyda hi. Ond wedi eu cael adref ati i gyd, gwelodd fod Duw wedi eu marcio i gyd, ac yr oedd yn gallu eu gadael yn hapus wedi hyny. Gobeithio fod plant Mr. Williams wedi eu marcio i fywyd tragywyddol. Peth hapus fydd bod yn y nef yn deulu cyfan,—penderfynu yn nghymhorth gras i fod yno i gyd, yn gyfan.

CYNGHOR

I nifer o frodyr ar eu neilldiad yn Swyddogion yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Brynypydew, Ebrill 18, 1889.

Gan Mr. William Mona Williams, *Deganwy (gynt o Tanygrisiau, Ffestiniog).*

Wel, fy mrodyr, mi a chwennychais yn fawr weled yr adeg hon, er mwyn i ni gael ymddyddan wyneb yn wyneb; ond fe'm lluddiwyd i gael hyny gan yr Hwn sydd yn gwneuthur pob peth "wrth gynghor ei ewyllys ei hun;" felly nid oes genyf ond traethu ychydig o fyfyrdodau i chwi trwy gyfrwng un arall ar bapyr. Pell wyf o deimlo fy mod yn alluog, nac yn deilwng o'r anrhydedd y mae'r Cyfarfod Misol wedi ei roddi arnaf, sef i roddi Cynghor i chwi. Mae'n debyg mai henaint oedd cymhelliad y Cyfarfod Misol i roddi yr anrhydedd yma arnaf fi; ond os dyna ydoedd, rhaid cofio fod henaint yn hawlio cydymdeimlad, ac yr wyf yn dysgwyl y caf hyny gan y Cyfarfod.

Y mae hanes ac athrawiaeth yn perthyn i'r swydd ag yr ydych chwi wedi eich gosod ynddi heddyw gan y Cyfarfod Misol; ond ni a adawn yr hanesiol a'r athrawiaethol ar hyn o bryd, gan geisio crynhoi ychydig o sylwadau ymarferol.

Y peth cyntaf a ddywedaf wrthych ydyw, *am i chwi beidio gadael i'r amgylchiad hwn fyned heibio heb i chwi deimlo oddiwrtho.* Yr ydych, trwy dderbyn y swydd hon, mewn sefyllfa nad oeddych ynddi o'r blaen. Mae y swydd wedi eich gosod mewn mantais i wneyd mwy o ddaioni neu o ddrwg nag erioed o'r blaen, ac am hyny y mae eich cyfrifoldeb, fy mrodyr, yn fawr. Ymdeimlwch eich bod mewn swydd bwysig yn nheyrnas yr Arglwydd Iesu, swydd ag y mae anrhydedd mawr yn perthyn iddi. Mawrhewch eich swydd, fy mrodyr, fel yr oedd yr apostol Paul yn gwneyd, gan gofio fod pob swydd yn gyfartal mewn anrhydedd yn ei pherthynas â'r Arglwydd Iesu. Gweddïwch lawer am gael tywalltiad helaeth o gariad Duw yn eich calonau yn yr amgylchiad hwn. Y cariad hwn fyddo yn ysgogi eich holl weithrediadau gydag achos y Gwaredwr mawr. Nid yw yr Arglwydd Iesu yn *trustio* ei waith i

ofal neb ond y rhai sydd yn ei garu. Dyna y cwestiwn a ofynodd yr Iesu i Simon Pedr, "Simon, mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i?" Ac wedi iddo gael atebiad cadarnhäol dair gwaith, rhoddodd iddo waith i'w wneuthur. Gweddïwch chwithau, fy mrodyr, am gael eich gwreiddio a'ch seilio yn y cariad hwn, ac ni bydd dim yn rhy fawr na dim yn rhy fach genych wneyd gydag achos Iesu Grist.

Yr hyn ag yr oeddwn yn meddwl ceisio galw eich sylw ato yn fwyaf neilldnol oedd FFYDDLONDEB yn ngwasanaeth yr Arglwydd. Y mae ein Harglwydd am i ni fod yn *ffyddlawn*, ac y mae wedi cysylltu y wobr yr ochr draw â'n ffyddlondeb, ac nid â'n talentau. Pe buasai gwas yr un dalent yn ffyddlawn, cawsai wobr yr un fath a'r lleill. Byddwch ffyddlawn yn gyntaf *i'r Cyfundeb* yr ydych wedi eich gosod yn swyddogion ynddo. Pe buasech yn Annibynwyr, buasai y Cynghor hwn yn ddianghenrhaid; oblegid nid yw y brodyr hyny yn Gyfundeb, ond pob eglwys ar ei phen ei hun yn annibynol ar eglwysi eraill; ond y mae'r Methodistiaid Calfinaidd, a'r Wesleyaid hefyd o ran hyny, yn gyfundebau. Y mae ein Cyfundeb wedi ei gyfansoddi o wahanol gymdeithasau; cymdeithasau neilldnol, misol, chwarterol, ac hefyd erbyn hyn y Gymanfa Gyffredinol, yn yr hon y mae yr holl Gyfundeb yn cael ei gynnrychioli.

Astudiwch, fy mrodyr, hanes dechreuad a chynnydd y Cyfundeb hyd yma; na fydded hanes yr hen Gyfundeb anwyl yn ddyeithr i chwi, fel ag yr wyf yn ofni ei fod i lïaws o'n swyddogion. Cerwch eich Cyfundeb; bydded genych ffydd ynddo. Ni wnawn ddim o honi yn y byd yma heb ffydd. Nid ffydd yn Nghrist wyf yn ei feddwl yn awr; yr wyf yn dysgwyl fod hono genych; ond ffydd Fethodistaidd, ffydd yn y Cyfundeb, fel un ag y mae yr Arglwydd wedi ei arddel mor amlwg. Nid oes eisieu i chwi ddirmygu enwadau eraill wrth wneyd hyn. O na; Duw yn rhwydd i bawb sydd yn caru yr Arglwydd Iesu Grist mewn purdeb ymhob man! Gofynodd y diweddar Mr. Humphreys o'r Dyffryn i frawd yn nhŷ capel Llanfrothen, er ys llawer dydd, "A wyddoch chwi, hwn a hwn, pa fodd y dylech feddwl a siarad am yr enwad crefyddol yr ydych yn perthyn iddo?" "Na wn i," meddai yntau. "Wel, yr un fath," meddai Mr. Humphreys, "ag y byddwch yn meddwl ac yn siarad am y wraig; pe baech yn dyweyd mai genych chwi y mae y wraig lanaf, harddaf, a mwyaf darbodus yn yr holl wlad, caech eich cyfrif yn ddiffygiol braidd mewn *common sense;* ond pe baech yn dyweyd fod *yn well genych chwi* ANN na'r un wraig arall, ni byddai hyny ond y peth a ddysgwylid oddiwrth bob gŵr priod. Felly hefyd am y Methodistiaid; pe baech yn dyweyd mai hwy ydyw y bobl oreu yn y wlad, ac mai ganddynt hwy y mae cyfangorff y gwirionedd, caech eich cyfrif yn ynfyd-ddyn gan bawb; ond pe baech yn dyweyd fod *yn well genych chwi* y Methodistiaid na neb arall, ni byddai hyny ond yr hyn a ddysgwylid oddiwrth bob aelod, ac yn enwedig blaenor, yn y Cyfundeb." Ac fel y dywedai rhyw hen frawd yn Tanygrisiau, pan y gofynwyd iddo a oedd ganddo ddigon at fyned o'r byd yma, atebodd, "Nid wyf yn siwr iawn am hyny, Evan Robert; ond mi a wn ymha le y mae digon i'w gael, ac nid dim byd o beth ydyw hyny, Evan Robert." Gofynai y blaenor yn bur awdurdodol wedi hyny, "A ydych chwi yn siwr eich bod yn caru Iesu Grist, Robert Evan?" "Wel, mi ddywedaf i chwi," meddai yntau; "Iesu Grist, Evan Robert, ydyw y goreu i mi, a'r goreu gen i, ac i bawb arall fod yn burion, wyddoch, Evan Robert." Felly chwithau, fy mrodyr, bydded y Methodistiaid yn oreu o bawb genych chwithau, ac i bawb arall fod "yn burion."

Byddwch ffyddlawn, yn y lle nesaf, i'r Cyfundeb *yn ei symudiadau.* Rhyw greadur lled anesmwyth ydyw Cyfundeb y Methodistiaid o'i ddechreuad hyd yma; safodd o ddim yn ei unman o'r cychwyn; y mae yn gweled rhywbeth ymlaen, ac am symud tuag ato yn barhaus. Mae'n debyg mai'r symudiad pwysicaf gymerodd le yn y Cyfundeb oedd ordeinio pregethwyr yn weinidogion, 78 o flynyddoedd yn ol, sef yn y flwyddyn 1811. Cyn hyny, yr oedd meddwl am ordeinio dynion i weinyddu y sacramentau, heb fod o dan ddwylaw yr esgob, yn

fynydd mawr. Yr oedd surni yr olyniaeth yn meddiannu yr offeiriaid oedd wedi dyfod drosodd o Eglwys Loegr, ac wedi gweithio ei ffordd i fesur trwy yr aelodau yn lled gyffredinol. Ond er mor uchel oedd y mynydd hwn, ac er mor anhawdd ei ddringo, dechreuodd yr Hen Gorff ei ddringo, ac ordeiniwyd wyth o frodyr yn mis Mehefin, y flwyddyn a nodwyd, yn y Gogledd, a'r un flwyddyn, yn mis Awst, neillduwyd tri ar ddeg o frodyr yn y Deheudir; ac fel hyn, er mor uchel yr ymddangosai y mynydd mawr hwn, cafodd ei symud o flaen Zorobabel y Cyfundeb, ac nid oes dim o'i ôl. Symudiad pwysig arall oedd cael Cenadaeth o'n heiddo ein hunain. Naw mlynedd a deugain i fis Ionawr diweddaf, cafodd Mr. Thomas Jones, o Sir Drefaldwyn, ei ordeinio yn y Bala i fyned allan fel Cenadwr i Khasia. O'r blaen yr oeddym yn llafurio mewn cysylltiad â Chenadaeth Llundain. Mawr ydyw y llwyddiant sydd wedi bod ar y gwaith Cenadol o hyny hyd yn awr. Dyna symudiadau pwysig eraill—yr Achosion Seisonig a'r Fugeiliaeth; y maent oll yn talu am eu lle. Cofier fod gryn nifer o'r Khasia fintai ddiweddaf a aeth allan i wedi codi o'r Achosion Seisonig.

Fy amcan yn galw sylw yn frysiog fel yma at symudiadau mawrion y gorphenol ydyw, er mwyn i'r tô presennol gael mantais i weled ffyddlondeb mawr y tadau, er eu cynhyrfu hwythau i lafur ac ymroddiad gyda'r gwaith mawr. Mae arwyddion yr amseroedd yn argoeli fod symudiadau pwysig eto gerllaw. Nid yw yr Hen Gorff wedi "cau pen ei fwdwl;" y mae ei waed yn curo mor iach ag erioed. Mae hyn yn dangos y dysgwylir llawer o waith oddiwrth y rhai sydd yn dyfod yn lle y tadau. Mae genym achos i ddiolch i Dduw ac i gymeryd cysur, od gan y Cyfundeb eto weinidogion a blaenoriaid yn cael eu llywodraethu gan ofn Duw, a chariad at Grist a'i waith yn llenwi eu calonau. Peidiwch chwithau, fy mrodyr, a meddwl mai edrychwyr ydych i fod ar y gwaith yn myned yn ei flaen. O na; gan eich bod fel hyn wedi eich gosod yn y swydd hon, y mae yn ddyledswydd arnoch wneyd eich goreu i gael y cerbyd yn ei flaen. Dylai pawb fod wrthi, cystal a'u gilydd, yn esgobion a diaconiaid. Rhaid cael yr holl Gorff gyda'i gilydd. Meddyliodd yr apostolion am fyned ymlaen heb y diaconiaid, ond buan y gwelwyd nad äi y cerbyd yn ei flaen heb ragor o olwynion dano, ac na hwyliai y llong ddim heb ychwaneg o ddwylaw ar y bwrdd.

Byddwch yn ffyddlawn, eto, i *gasgliadau* y Cyfundeb, trwy roddi yr holl gasgliadau Cyfundebol yn eu hamser o flaen yr eglwysi a'r cynnulleidfaoedd. Nid ydych yn gyfrifol am swm y casgliadau yn gymaint, ond yr ydych yn gyfrifol am eu rhoddi yn onest a theg o flaen y cynnulleidfaoedd. Clywais am hen frawd o flaenor yn rhywle oedd yn erbyn yr Achosion Seisonig, ond byddai yn cyhoeddi hwnw mor zelog a'r un arall; a phan ofynwyd iddo pa fodd yr oedd yn gallu gwneyd hyny, ac yntau ddim yn credu yn yr Achosion Seisonig, ei atebiad oedd, "mai gwas i'r Cyfarfod Misol a'r Cyfundeb ydoedd wrth gyhoeddi y casgliad, ac nad oedd ganddo hawl i ymddwyn tuag ato yn wahanol i gasgliadau eraill." Felly chwithau, fy mrodyr, nid ydych yn rhydd i wneyd â'r casgliadau Cyfundebol fel y byddwch yn dewis, ond yr ydych yn rhwym o'u gosod yn deg o flaen y cynnulleidfaoedd, fel gweision i'r Cyfundeb.

Byddwch ffyddlawn, yn y lle nesaf, i'r *Cyfarfod Misol* a'r *Cyfarfod Dosbarth*. Mae y cyfarfodydd dosbarth erbyn hyn wedi dyfod yn sefydliadau pwysig, ac iddynt amcan daionus er hyrwyddo y gwaith ymlaen, er y rhaid addef nad ydynt yn perthyn yn wreiddiol i'r Cyfansoddiad. Mae i'r Cyfarfod Dosbarth ei reolau fel y gwyddoch; un o ba rai ydyw fod rhifedi penodol o swyddogion i fod yn bresennol cyn y gellir penderfynu achosion neillduol: ac felly chwi welwch y gallai eich absennoldeb chwi trwy anffyddlondeb brofi mewn llawer o amgylchiadau yn anfantais fawr i'r achos. Byddwch ffyddlawn i'r Cyfarfod Misol, trwy roddi hyd y gellwch eich presennoldeb ynddo. Mi a fum ieuanc ac yr wyf bellach yn hen, ac wedi myned felly heb geisio; ond ni welais fawr o *raen* erioed ar y swyddogion cartrefol yma. Dywedai un hen frawd wrthyf rywbryd, fod myned i'r Cyfarfod Misol i dderbyn y swydd yn ddigon, a myned adref wed'yn i weithio. Ond nid oedd

yr hen frawd hwn yn ei deall hi; na, rhaid dilyn y Cyfarfodydd Misol mor reolaidd ag y byddo modd. Mae y blaenoriaid hyny sydd yn aros adref, ac heb ddyfod i'r Cyfarfod Misol, yn gyffredin fel rhyw glepgwn bach yn cyfarth penderfyniadau y Cyfarfod os na byddant at eu chwaeth hwy. Mae y brodyr hyn yn blwm wrth odreu yr eglwys lle bynag y maent. Byddai yn air rhy gryf, fe allai, dyweyd eu bod yn felldith, ond pa fodd bynag, eglur yw eu bod yn *stroke* o flaen yr olwyn i rwystro y gwaith yn ei flaen. Peidiwch, fy mrodyr, ag efelychu y dosbarth hwn, o herwydd crino a myned yn ddiffrwyth y gwelir hwy bob amser. Penderfynwch gario allan benderfyniadau y Cyfarfod Misol yn zelog; mynwch eu gweled yn cael eu rhoddi mewn gweithrediad yn yr eglwys gartref. Peidiwch hefyd a gadael dim o'r aur ar eich ol yn y Cyfarfod Misol, ond ewch â'r pethau goreu adref. Mae esgyrn weithiau yn dygwydd bod mewn Cyfarfod Misol; ond gadewch chwi y rhai hyn ar ol i bydru ac i ddarfod, a chofiwch mai cwn fydd yn llusgo ac yn cnoi esgyrn.

Byddwch ffyddlawn, eto, *i'r eglwys gartref.* Byddwch ofalus am gael y cyfrifon yn fanwl a chywir; gwnewch bob peth mor eglur fel y medro yr hwn a redo ei ddarllen. Cedwch hwy mor eglur, fel pe baech yn marw yn sydyn, y gallo pawb eu deall heb na nod nac esboniad. Mae aml i brofedigaeth wedi dygwydd mewn rhai eglwysi o herwydd diffyg cywirdeb yn nghyfrifon y diaconiaid. Byddwch ffyddlawn, gan hyny, fy mrodyr, i "ddarpar pethau onest yn ngolwg pob dyn." Erbyn hyn y mae llyfrau pwrpasol wedi eu darparu ar gyfer cadw cyfrifon eglwysig, a gwnewch chwithau ddefnydd o honynt.

Byddwch ffyddlawn, hefyd, *i ddilyn pob moddion o ras gartref.* Nid oeddwn yn meddwl, wrth eich annog i ddilyn y Cyfarfodydd Misol a'r Cyfarfodydd Dosbarth, i chwi esgeuluso y cyfarfodydd cartrefol. Gofalwch yn arbenig am y cyfarfodydd cartrefol, ac am fod ynddynt mewn pryd; o herwydd peth sydd yn ddinystr i ddylanwad aml i swyddog eglwysig ydyw y musgrellni gyda pha un y mae yn dilyn moddion gras.

Un gair yn ychwanegol; byddwch ffyddlawn *i'ch cydswyddogion*, yn weinidogion ac yn ddiaconiaid, heb na brad, na malais, na thwyll yn agos atoch. Dyma gynghor yr Apostol ar hyn, "Na wneler dim trwy gynhen neu wag-ogoniant, eithr mewn gostyngeiddrwydd, gan dybied eich gilydd yn well na chwi eich hunain," Phil. ii. 3. Beth feddyliech chwi, fy mrodyr anwyl, o'r llanerch ddyogel a thawel hon i aros ynddi, "gan dybied eich gilydd yn well na chwi eich hunain." Mi gewch ddadleu â'ch gilydd ynglŷn â dygiad yr achos ymlaen, ond gofaler am i hyny gael ei wneyd o fewn cylch y cyfrin-gynghor *(cabinet).* Os dygwydd tipyn o anghydweledigiad weithiau, cymerwch bwyll, a pheidiwch a dangos awydd fel yr Ahimaas hwnw i redeg i ddyweyd wrth y rhai oddiallan. Y mae llawer o flinderau ac o ymrysonau ac anghydfyddiaethau wedi tori allan mewn eglwysi, trwy i frodyr fod yn rhy barod i redeg. Peidiwch a meddwl am roddi yr un achos o bwys o flaen yr eglwys heb yn gyntaf ymgynghori â'ch cydswyddogion, yn ddiaconiaid ac yn weinidogion. Tra byddwch chwi yn ffyddlawn i wneyd hyn, ni lithrwch chwi ddim byth i'r brofedigaeth o orfod edrych ar yr eglwys wedi syrthio i ganol ymrysonau ac ymraniadau.

Wel, fy mrodyr, dyma y gwaith y bydd raid i chwi fod wrtho bellach holl ddyddiau eich einioes yn rhyfela yn erbyn y byd, y cnawd a'r diafol. Ond cymerwch gysur, ni raid i chwi ryfela ar eich traul eich hunain, o herwydd y mae'r holl draul o du y Brenin. "Haiarn a phres a fydd o dan dy esgidiau, ac megys dy ddyddiau y bydd dy nerth," Deut. xxxiii. 25. "Digon i ti fy ngras I; canys fy nerth I a berffeithir mewn gwendid," 2 Cor. xii. 9. Ac y mae'r Brenin yn myned i wobrwyo y ffyddloniaid oll yn niwedd y daith. Rhyw eiriau rhyfedd lefarodd Iesu Grist wrth ei ddysgyblion, ychydig amser cyn iddo eu gadael i fyned at ei Dad: "Chwi yw y rhai a arosasoch gyda mi yn fy mhrofedigaethau; ac yr wyf yn ordeinio i chwi deyrnas, megys yr ordeiniodd fy Nhad i minnau; fel y bwytaoch ac yr yfoch ar fy mwrdd I yn fy nheyrnas, ac yr eisteddoch ar orseddfeydd yn barnu deuddeg llwyth Israel," Luc xxii. 28—30. O Iesu

mawr! y mae swn rhyfedd yn y geiriau yna! Y mae Iesu Grist wedi bod mewn profedigaethau yn ein hachos ni yn bersonol ar y ddaear pan oedd Ef yma yn nyddiau ei gnawd; ac y mae Ef yr un mor wirioneddol eto mewn profedigaethau ynglŷn â'i achos yn y byd. O Iesu mawr! beth wyt ti am wneyd â hwy sydd wedi aros yn ffyddlawn gyda thi yn dy brofedigaethau? Wel, gwrandewch, fy mrodyr anwyl, y mae'r Brenin yn myned i roddi y *prizes* allan ei hunan. "Yr wyf yn ordeinio i chwi deyrnas, megys yr ordeiniodd fy Nhad i minnau; fel y bwytaoch ac yr yfoch ar fy mwrdd I yn fy nheyrnas." Nid oes genym, fy mrodyr, gyda golwg ar y gwobrwyon mawrion hyn, ond credu y neb sydd wedi eu haddaw, heb allu eu hamgyffred. Beth fydd y bwrdd, y bwyd, a'r ddiod, a phwy fydd y cwmni, nis gallwn amgyffred heddyw, ond ni a gawn wybod ar ol hyn; y pwnc mawr i ni ydyw bod yn ffyddlawn. Os na allwn amgyffred geiriau fel hyn yn awr, gallwn fod yn sicr mai nid twyll a lledrith ydynt, ond geiriau gwirionedd a sobrwydd, oblegid ni ddyferodd ond gwirionedd erioed dros ei wefusau bendigedig Ef. "Am hyny, fy mrodyr anwyl, byddwch sicr, a diymmod, a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd," 1 Cor. xv. 58. "Llafur yn yr Arglwydd." Y mae rhyw swyn i mi yn y geiriau hyn. Nid llafur *dros* yr Arglwydd, ond *yn* yr Arglwydd. Y mae llawer o ddynion annuwiol, fel Jehu a Cyrus, wedi gwneuthur pethau mawr dros yr Arglwydd, fel offerynau i gario allan ei ewyllys; ond nid oes neb ond y rhai sydd wedi eu huno â Christ yn llafurio *ynddo*. Y mae'r saint yn Nghrist a Christ ynddynt hwythau, a'r naill a'r llall yn cydweithio i ddwyn ei waith ymlaen.

Wel, frodyr, bellach byddwch wych a chalonog, a gweithiwch yn ffyddlawn; a bendith y Nefoedd a'ch dilyno holl ddyddiau eich hoes; a "bydded eich dillad yn wynion bob amser, ac na fydded diffyg olew ar eich pen," yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. Amen.

[Yr oedd y CYNGHOR rhagorol hwn yn nwylaw yr argraffwyr, os nad wedi ei gysodi, cyn i'r newydd am farwolaeth ei awdwr ein cyrhaedd. Cymerwyd ef mewn ysgrifen, o enau ei awdwr, tuag wythnos neu ddwy cyn ei farwolaeth, gan y Parch. Edward Thomas, Deganwy, yr hwn hefyd a'i darllenodd yn y Cyfarfod Misol. Adyna y gwasanaeth olaf a gyflawnodd yma dros ei Feistr. Y mae yn awr wedi myned i fwynhau y "gwobrwyon mawrion" y sonia mor effeithiol am danynt. Nid un cyffredin fel Cristion nac fel swyddog eglwysig oedd Mr. WILLIAM WILLIAMS. Yr oedd ynddo ragoriaethau amlwg a phendant. Meddai synwyr cryf, craffder a challineb ymarferol, tymher nawsaidd, mesur o arabedd a dawn i ymwneyd â dynion, cydnabyddiaeth helaeth â'r Ysgrythyrau, a graddau annghyffredin o wybodaeth a phrofiad o wirioneddau crefydd. Er yn bedwar ugain mlwydd oed, yr oedd yn ieuengaidd ei ysbryd, ac yn cyd-symud yn ewyllysgar â holl ysgogiadau y Cyfundeb. Ac er ei fod yn rhagori cymaint ar ei gydweithwyr, un o honynt yn hollol oedd efe, syml a chartrefol yn ei iaith a'i holl agweddau; a rhoddai y cyfuniad hwn iddo ddylanwad mawr arnynt. Claddwyd ef ddydd Sadwrn, Mai 4ydd, yn ymyl capel Bethesda, Ffestiniog. Hyderwn y ceir Cofiant teilwng o hono cyn hir.—GOL.]

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill* 1*af*, 1888, *i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

Y DOSBARTH CANOL.

SABBOTH, MEHEFIN 9FED—*(y Wers am* TACHWEDD 11EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 11).

Adolygu gwaith y Sabbothau blaenorol.

SABBOTH, MEHEFIN 16EG—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* TACHWEDD 18FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

Adgyfodi Lazarus.

YR oedd pob peth yn awr yn addfed i'r trychineb olaf. Yr oedd annghrediniaeth y genedl ar fin cyrhaedd ei eithaf yn nghondemniad yr Iesu. Prysurwyd yr argyfwng hwn gan y wyrth o adgyfodi Lazarus.

ADN. 1: *Ac yr oedd un yn glaf, Lazarus*—ffurf fyrach ar Eleazer. Dyma

doriad ar neillduaeth yr Iesu yn Perea (x. 40—42) gan glafychiad Lazarus. 'Yn awr' neu 'ond' (δέ). *O Bethania.* Pentref bychan ar lechwedd dwyreiniol Mynydd yr Olewydd, tua dwy filldir o Jerusalem (adn. 18). *O dref Mair a'i chwaer Martha.* Dyma ddau arddodiad *o.* Dywed Meyer fod y ddau yn golygu yr un peth—tarddiad. Rhydd Westcott y cyntaf i olygu lle genedigol (ἀπό)), a'r olaf, lle preswylfod (ἐκ.) Dealla Godet y cyntaf am breswylfod, a'r ail am le genedigaeth. Paham y desgrifir Bethania fel "tref Mair a'i chwaer Martha?" Nid oedd enw y naill na'r llall wedi ei grybwyll o'r blaen yn yr Efengyl hon. Y mae yn debyg fod yr Efengylwr yn cymeryd yn ganiataol fod enwau y ddwy yn hysbys i'w ddarllenwyr trwy draddodiad efengylaidd, ac yn arbenig trwy yr hanes a gofnodir gan Luc (x. 38—42). Diammeu fod y ddwy chwaer yn wir dduwiol, ac fe allai mor dduwiol a'u gilydd; ond yr oedd duwioldeb y ddwy o batrwn neu *type* gwahanol. Cynnrychiolai Mair yr elfen *fyfyrgar* yn yr Eglwys, a Martha y dueddfryd *weithgar.* Enwir Mair yn gyntaf, a Martha fel ei chwaer, a Lazarus fel ei brawd, am yr hyn a nodir yn adn. 2. Martha oedd yr henaf, y mae'n debyg, gan fod gofal y tŷ arni (Luc x. 38), a Lazarus yr ieuengaf o'r tri.

Adn. 2: *A Mair ydoedd yr hon a eneiniodd yr Arglwydd âg enaint,* &c. Nid oes un sail dros dybied mai yr un oedd hon a Mair Magdalen, neu y wraig a fuasai bechadures, er mai hwn oedd y syniad a ffynai cyn y Diwygiad Protestanaidd (Luc viii. 2; vii. 36). Y mae amgylchiadau y ddau eneiniad yn dra gwahanol, ynghyd a'r lle a'r amser.

Adn. 3: *Am hyny y chwïorydd a ddanfonasant ato ef, gan ddywedyd, Arglwydd, wele y mae yr hwn sydd hoff genyt ti, yn glaf.* Yn Perea yr oedd yr Iesu y pryd hwn, "dros yr Iorddonen," lle yr aethai o afael ei elynion (x. 39, 40). Y mae cenadwri y chwïorydd yn llawn lledneisrwydd tyner, felly rhoddir hi yn eu geiriau hwy. Sylwa Godet fod pob gair yn arwyddocaol: "Arglwydd"—ei allu gwyrthiol; "wele"—yr argraff a wneid arno yn sicr gan y newydd annysgwyliadwy; "yr hwn sydd hoff genyt ti"—serch tyner yr Iesu at Lazarus, yr hyn a'i gwnelai yn ddyledswydd arnynt beidio ei adael yn anwybodus o sefyllfa ei gyfaill. "Wele"—nid ydynt yn gofyn dim. Teimlent nad oedd eisieu ond ei hysbysu. Yr oedd y deisyfiad yn y mynegiad. Gorweddai yr apêl at ei gariad yn y ffaith noeth. Heblaw hyny, nid ydynt yn gofyn am iddo ddyfod yno, am y gwyddent y peryglon oedd yn ei aros yn Judea. Rhoddent yr achos ger ei fron, a gadawent iddo ef benderfynu beth a wnai.

Adn. 4: *A'r Iesu pan glybu, a ddywedodd, Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth, ond er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw trwy hyny.* Dywedid hyn wrth y rhai oedd yn bresennol, yn gystal ag wrth y chwïorydd trwy y cenadon. Nid na byddai Lazarus farw, ond nid marwolaeth fyddai diwedd yr achos hwn, ond gogoniant Duw trwy ogoneddiad Mab Duw yn y wyrth; a thrwy y wyrth fel yr arweiniodd i addfedu llid ei elynion nes dwyn ymlaen ei angeu, yr hyn a arweiniodd i'w ogoneddiad eithaf. "Er"—*er mwyn* gogoniant Duw. Dyoddefai Lazarus mewn ystyr ddirgeledig er mwyn gogoniant Duw. Y mae yma dair gwedd ar y clefyd: *i*—gyda golwg ar y canlyniad gweithredol; *er*—y syniad o "aberth er mwyn" (felly y golyga yr arddodiad ὑπέρ yn mhob man yn yr Efengyl hon); ac *fel*—yn golygu y bwriad dwyfol. "Trwy hyny:" gellid ei ddeall am "ogoniant Duw" yn y frawddeg o'r blaen; ond mwy naturiol ei gyfeirio at y clefyd.

Adn. 5: *A hoff oedd gan yr Iesu Martha, a'i chwaer, a Lazarus.* Parotoad at adn. 6, yn llawn cystal neu fwy nag at adn. 7. Darfu iddo yn nybenion doeth ei gariad, oedi am ddau ddiwrnod, yn gystal a myned atynt wedi hyny, am eu bod yn hoff ganddo. Nid yw "hoff" yn gyfieithiad da. Y mae yn gweddu yn dda i adn. 3, yn ngeiriau y chwïorydd, fel gair o serch a thynerwch naturiol. Ond defnyddir yma air arall o nodwedd uwch, "caru," yn cynnwys elfen foesol.

Adn. 6: *Pan glybu efe gan hyny ei fod ef yn glaf, efe a arosodd yn y lle yr oedd, ddau ddiwrnod.* Yr oedd gwaith yr Iesu yn myned atynt, ac yn oedi heb fyned am ddau ddiwrnod, y naill fel y llall, yn ganlyniad ei gariad dwyfol a'i wybodaeth ddwyfol. Aeth atynt, am ei fod yn eu caru, yn hollol yn yr adeg y byddai ei ymweliad yn ateb y dyben goreu, ac nid yn y fan pan y gwahoddwyd ef. *Dau ddiwrnod.* Felly bu farw Lazarus pan gyrhaeddodd y genadwri, adn. 17, 39. Yr oedd y daith yn ddiwrnod, arosodd yntau ddau ddiwrnod, yna y daith i Bethania yn ddiwrnod; yr hyn a wna i fyny "bedwar diwrnod," adn. 39. Nid arosodd hyd nes iddo farw, ond gwyddai ei fod wedi marw. Yn y cyfamser, gorphenodd yr hyn oedd ganddo i'w wneuthur cyn dychwel i Judea.

Adn. 7: *Yna wedi hyny efe a ddywedodd wrth y dysgyblion, Awn i Judea dra-*

chefn. Nid i Bethania; ond i Judea. Edrychid arni fel gwlad o wrthwynebiad anghrediniol, yn gyferbyniol i Perea (x. 40).

Adn. 8: *Y dysgyblion a ddywedasant wrtho, Rabbi, yr oedd yr Iuddewon yn awr yn ceisio dy labyddio di: ac a wyt ti yn myned yno drachefn?* Cwestiwn o bryder a gofal am fywyd eu hanwyl Athraw. *Yn awr.* Yr oedd y dygwyddiadau mor ddiweddar ac mor fyw yn eu meddyliau, nes oeddynt fel rhan o'r presennol, x. 31.

Adn. 9, 10: *Onid oes deuddeg awr o'r dydd?* Sylwa Westcott fod yr ateb hwn yn cyflenwi ix. 4. Yma dangosir fod amser wedi ei roddi i weithio, ac y gellir gwneyd gwaith tra y pery yr amser hwn. Dangosir yn ix. 4, ar y llaw arall, nad oes ond amser terfynol, a bod rhaid gorphen y gwaith o fewn y terfynau hyny. Fel hyn y dyry Meyer yr ystyr: 'Nid yw yr amser a osodwyd i mi gan Dduw i weithio eto wedi dyfod i ben; cyhyd ag y pery hwnw, nis gall neb wneyd dim i mi; ond pan y daw i ben, syrthiaf i ddwylaw fy ngelynion, fel yr un a rodia y nos, ac a dramgwydda, am ei fod heb oleuni.'

Adn. 11—14: *Ein cyfaill Lazarus yn huno.* Unai yr Iesu ei ddysgyblion âg Ef ei hunan yn rhwymyn y cyfeillgarwch â Lazarus—"*ein* cyfaill." "Ein cyfaill" ydyw Lazarus er marw, yn myd yr ysbryd. *Yr wyf fi yn myned i'w ddihuno ef.* Deallai y dysgyblion hyn yn llythyrenol; a dadleuent fel y gwelir yn adn. 12 mor afreidiol oedd hyny.

Adn. 12: *Os huno y mae, efe a fydd iach.* Cododd y camsyniad oddiar gamddeall yr addewid yn adn. 4. Tybiodd y dysgyblion fod y "cwsg" wedi ei ddwyn oddiamgylch yn wyrthiol trwy gyfryngiad yr Iesu, a'i fod yn argyfwng *(crisis)* gwellâd, fel mewn clefyd. Felly, paham yr oedd eisieu y daith beryglus? A phaham yr oedd eisieu ei ddihuno? *Efe a fydd iach.* Neu, efe *a achubir.* Y mae yn bwysig sylwi, medd un, fel y mae y gair "achub" yn rhedeg trwy holl natur dyn i bob rhan. Nis gallwn dynu y llinell rhwng yr enaid a'r corff—y rhan uchaf a'r isaf. Iechyd yw drychfeddwl y geiriau Seisonig am iachawdwriaeth a sancteiddrwydd. Felly y Gymraeg—iachâu yw *achub*, iachawdwriaeth.

Adn. 13: Nid yw mor ryfedd ag y mŷn rhai fod y dysgyblion wedi camddeall. Ceisient ryw esgus dros annog yr Iesu i beidio myned i Judea. Wedi yr addewid yn adn. 4 tybient nad oedd yn bosibl i'r clefyd derfynu mewn marwolaeth. A dyma gwsg wedi dyfod, rhagredegydd adferiad, yr hwn fuasai *o hono ei hunan* yn dybenu mewn adferiad (heb eisieu neb i'w "ddihuno").

Adn. 14: Dywedodd "yn eglur," am eu bod wedi methu deall y gair a roddasai Efe fel prawf ar eu dirnadaeth ysbrydol; "yn eglur" heb attalfa na chymhariaeth. *Bu farw.* Golyga yr amseriad hwn weithred—pwynt y cyfnewidiad; yn gyferbyniol i *yn huno*—ystâd barhaol.

Adn. 15: *Ac y mae yn llawen genyf nad oeddwn I yno.* Fel ag i attal ei farwolaeth. Llefara fel pe buasai marw yn beth anmhosibl yn ei bresennoldeb Ef. *Er eich mwyn chwi.* Nid oedd yn llawen am farw Lazarus, ond am amgylchiadau ei farwolaeth, a'r canlyniadau a fyddai iddi. *Fel y credoch.* Yr oeddynt yn credu eisoes, mewn un ystyr. Ond y mae pob prawf newydd ar ffydd yn chwanegu ei thyfiant. Nis gall ffydd sefyll na bod yn gyflawn. Dywedai Luther: "Yr hwn *sydd* yn Gristion nid yw Gristion." *Ond awn ato ef.* Heb aros gyda'r galar presennol na'r llawenydd i ddyfod. Nid "yno," ond "ato ef;" nid at y chwïorydd sydd yn galaru ar ei ol—"ato *ef*." Llefara am y corff yn y bedd yn "huno" fel y dyn ei hunan. Sefydla feddyliau y dysgyblion ar berthynas wirioneddol bresennol rhwng Lazarus â hwynt ac âg Ef ei hunan. Dyma oedd yn awr yn sail gobaith.

Adn. 16: *Yna y dywedodd Thomas, yr hwn a elwir Didymus, wrth ei gyddysgyblion.* Thomas, yr enw Arameaidd, *Didymus*, yr enw Groeg cyfystyr *(gefaill).* Yr enw olaf a arferid ymysg y Cristionogion Cenedlig. *Awn ninnau hefyd, fel y byddom feirw gydag ef.* Ateb i'r gwahoddiad yn adn. 15. Dyn o dymher wresog, llawn cariad, bywiog a gonest, oedd Thomas; ond diffygiol mewn ffydd. Yr oedd am *weled* cyn credu. 'Gan ei fod yn penderfynu myned i'r perygl, awn ninnau hefyd, pe byddai raid i ni farw gydag ef.' Y mae yn barod i farw yn ngrym y cariad oedd ganddo, ond nid yw am ffugio ffydd nad oedd ganddo. Y mae dywediadau eraill Thomas o'r un nodwedd, xiv. 5; xx. 25.

Sabboth, Mehefin 23ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Tachwedd 18fed *yn y* Gwersyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Adn. 17: *Yna yr Iesu wedi dyfod, a'i cafodd ef wedi bod weithian bedwar diwrnod yn y bedd.* "A'i *cafodd ef*"—ar ol ymholiad neu hysbysiad, medd rhai; i bwysleisio dyben ei ddyfodiad, medd eraill. Ar y "pedwar diwrnod," gwel ar adn. 6.

Adn. 18: *Pymtheg ystâd.* Tua dwy filltir.

Adn. 19: *A llawer o'r Iuddewon a ddaethent at Martha a Mair, i'w cysuro hwy am eu brawd.* Arferai yr Iuddewon gladdu eu meirw cyn machlud haul yr un diwrnod ag y buant feirw. Cynnelid math o alar-ŵyl, yr hon a barhâi yn gyffredin am saith niwrnod, 1 Sam. xxxi. 13; 1 Chron. x. 12. Dyma y pryd y telid ymweliadau â'r teulu gan gyfeillion, i gyd-alaru â hwynt ac i'w dyddanu. Rhydd yr Efengylwr y pellder, adn. 18, fel cyfrif paham y deuai cynifer o'u cyfeillion o Jerusalem.

Adn. 20: *Yna Martha, can gynted ag y clybu hi fod yr Iesu yn dyfod, a aeth i'w gyfarfod ef, ond Mair a eisteddodd yn y tŷ.* Ymddengys fod Martha gyda'i gorchwylion teuluaidd, pan ddygwyd y newydd iddi, ond fod Mair mewn ystafell arall nês i mewn yn galaru. Yr oeddynt wedi bod yn gwylio yn ddyfal am ddyfodiad yr Iesu tra yr oedd gobaith; ac ymddengys eu bod wedi parhau i edrych allan am dano wedi i obaith ddarfod. Ymddengys fod y geiriau yr un ag a ddygwyd i Martha: "Y mae yr Iesu yn dyfod." Aeth hi allan yn y fan i'w gyfarfod, yn ei hawydd, heb fyned i fynegi i'w chwaer.

Adn. 21: *Yna y dywedodd Martha wrth yr Iesu, Arglwydd, pe buasit ti yma, ni buasai farw fy mrawd.* Nid cerydd sydd yma, ond cwynfan galar. Gwyddai fod ei brawd wedi marw cyn i'r newydd am ei glefyd gyrhaedd yr Iesu. Ac yr oedd yn awr am anturio awgrymu deisyfiad o'r fath fwyaf! Iaith ffydd a chariad sydd yma. 'Yr oeddit yn absennol o anghenrheidrwydd, — ond, pe buasai fel arall!'—

Adn. 22: *Eithr mi a wn hefyd yr awr hon, pa bethau bynag a ddymunech di gan Dduw, y dyry Duw i ti.* 'Ond er fod y cwbl drosodd, nid yw eto yn rhy ddiweddar!' Teimlai nad oedd lle i anobaith yn mhresennoldeb y fath Berson. Y mae cynnildeb y deisyfiad yn dra phrydferth: *pa bethau bynag.* Nid yw yn anturio gofyn peth mor fawr yn uniongyrchol, ond y mae yn ei awgrymu. Diau fod ei golwg ar y geiriau yn adn. 4, y rhai a adroddodd y genad. *A ddymunech.* Gair am weddïo nad yw Crist byth yn ei arfer am dano ei hunan, ond am eraill. Golyga ddeisyf am gymwynas i un ei hunan (*αἰτεῖσθαι—to beg for one's self*). Enwa *Dduw* ddwywaith, i ddangos mawredd yr hyn ydoedd hi yn ddymuno gael, ac i ddangos y berthynas neilduol yn yr hon y safai Crist â Duw, yn ei meddwl hi. Gallai fod amryw bethau yn awr, yn y mynydau pwysig hyn, yn cydweithio i gadarnhau ei ffydd—clywed am yr adgyfodiadau yn Galilea, addewid yr Iesu (adn. 4), ac yn benaf fe allai ei ddyfodiad sydyn yn awr atynt.

Adn. 23: *Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Adgyfodir dy frawd drachefn.* Yr oedd Efe yn bwriadu "dihuno" y marw hwn, yn ol ei addewid, adn. 11, ac y mae yn addaw yn awr i Martha; ond mewn geiriau amwys—geiriau ag yr oedd yn naturiol iddi hi ar y fynyd gyntaf eu cymhwyso at yr adgyfodiad cyffredinol. Yr oedd eisieu ei pharotoi yn raddol. Ffynai y gred yn adgyfodiad Israeliaid duwiol, ar ddechreuad teyrnasiad y Messïah, yn gyffredinol yn ngwlad Canaan.

Adn. 24: *Dywedodd Martha wrtho, Myfi a wn yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad, y dydd diweddaf.* Y mae dwy ffordd o edrych ar atebiad Martha. Un ydyw—ei bod yn rhoddi yr esboniad hwn ar eiriau ein Harglwydd, er mwyn ei dynu ef allan i lefaru yn fwy eglur. Fel pe dywedasai: 'Os yw yn meddwl rhywbeth heblaw yr adgyfodiad cyffredinol yn y dydd diweddaf, efe a ddywed hyny yn awr.' Ffordd arall o edrych arno yw—fel iaith ymostyngiad galar dwfn a siomedigaeth, yn gorfod gollwng ei gafael o'r hyn nad oedd braidd wedi beiddio ei obeithio. Fel pe dywedasai:—'Ië, ïe, mi a welaf beth yw dy feddwl. Gwneir, fe'i hadgyfodir yn y deffroad mawr—yn y dydd diweddaf. Y mae hwnw yn bell ac yn gyffredinol. Bydd pob cwlwm a dyddordeb dynol wedi darfod y pryd hwnw. Nid yw hyn o nemawr gysur i mi yn fy ngalar personol, presennol.' Gan yr Efengylwr loan yn unig y mae yr ymadrodd hwn—"y dydd diweddaf."

Adn. 25: *Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd: yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw.* Y mae ein Hiachawdwr yn addysgu ffydd Martha ac yn ei hysbrydoli. Amgylchiad dyfodol yn unig oedd yr adgyfodiad yn ngolwg Martha. Ar gyfer hyn gesyd ein Harglwydd ei Berson ei hunan—*Myfi;* a'i Berson fel yn bresennol—"Myfi *yw* yr adgyfodiad." Nid *dydd* yw yr adgyfodiad, ond Person; nid y dydd *diweddaf*, ond yn awr. Nid athrawiaeth yw yr adgyfodiad, ond ffaith. Nid yn perthyn i ddynolryw yn gyffredinol yn unig, ond i bob bywyd dynol ar ei ben ei hun. Un amlygiad yw yr Adgyfodiad o'r Bywyd; cynnwysir ef yn y Bywyd. Yr oedd Martha wedi son am rodd i'w chael oddiwrth Dduw a'i gweinyddu gan Grist. Trŷ ein Harglwydd ei sylw at ei Berson Ef ei hunan. Efe *yw* yr oll sydd ar ddynion eisieu. Nid 'Myfi a ddygaf,' ond "Myfi *yw*."

A'r Bywyd. Crist yw bywyd y cred-

adyn yn bersonol; ynddo Ef y mae parhâd a pherffeithiad yr oll a berthyn i gyflawnder bodolaeth bersonol (adn. 23, *dy frawd;* adn. 11, *ein cyfaill*). Dywed drachefn, ond mewn ystyr arall, yn xiv. 6, mai Efe yw y bywyd. Megys y mae y "bywyd" mewn cysylltiad â'r "adgyfodiad" yn perthyn i'r person unigol, felly y mae y "bywyd" mewn cysylltiad â'r "ffordd a'r gwirionedd" yn golygu holl swm bodolaeth (i. 4), i'r hwn y mae pob dyn yn dyfod â'i "wahaniaeth personol." Efe sydd yn rhoddi unoliaeth a sefydlogrwydd i bob dyn ar ei ben ei hun, ac ar yr un pryd yn rhinwedd hwn i'r holl greadigaeth. Yr un gwirionedd a ddysga yr Apostol pan y dywed fod pob credadyn yn "byw yn Nghrist," Rhuf. vi. 11, ac mai "ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll," Col. i. 17. Bywyd yr *un*—bywyd yr *oll*. Y mae gan bob un sydd yn credu yn Nghrist, er y ddamwain o farw, fywyd wedi ei gyfranu ganddo Ef—cyfranogiad o'i fywyd Ef, yr hwn nis gall dim ei dori, a'r hwn yw egwyddor ac ernes adgyfodiad y corff. Felly, er fod Lazarus yn farw, gallai yn rhinwedd y bywyd hwn gael ei alw yn ol i'r bywyd daearol ar unrhyw fynyd gan yr Iesu.

Adn. 26: *A phwy bynag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. A wyt ti yn credu hyn?* Yr oedd rhai, fel Lazarus, wedi credu a marw; a rhai, fel Martha, eto yn fyw ac yn credu. Am y cyntaf dywedir (adn. 25), nid yw marwolaeth y ddaear iddynt hwy yn wir farwolaeth; nid yn unig cânt fyw eto rywbryd, ond y maent yn byw yn awr, yn byw ymlaen yn ddidor drwy angeu. Am y lleill, ni chaiff y bywyd hwn yn Nghrist byth ei dori. "Ni bydd marw yn dragywydd:" nid y farwolaeth dragywyddol a feddylir, ond "ni chaiff farw *o gwbl*" *(shall never die)*. Y mae hanfod marwolaeth wedi ei ddiddymu i'r credadyn; nid oes yn aros ond y tu allan, yr ymddangosiad. "A wyt ti yn credu hyn?"—Nid, "a wyt ti yn addef hyn?" ond "Ai dyma dy grediniaeth?"

Adn. 27: *Dywedodd hithau wrtho, Ydwyf, Arglwydd: yr wyf fi yn credu mai tì yw y Crist, Mab Duw, yr hwn sydd yn dyfod i'r byd.* Addefa ei chred. Gwna gyffes o'i ffydd. Y mae y rhagenw yn bwysleisiol. 'Yr wyf fi—ïe, *myfi*." Credai mai Efe oedd y Crist y llefarai y prophwydi am dano, ac am yr hwn yr oedd dynion yn dysgwyl fel Crist y prophwydi, ac fel Mab Duw, yr hwn oedd i ail-gydio y ddynoliaeth â Duw. Nid oedd yn deall y dyfnion bethau; ond credai hyn, a pha beth bynag arall oedd yn ganlyniad o hyn.

Sabboth, Mehefin 30ain—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Tachwedd 25ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Adgyfodi Lazarus.

Adn. 28—30: *Ac a alwodd yn ddirgel ei chwaer Mair.* Rhoddwyd y genadwri fel ag i Mair fod ei hunan gyda'r Iesu, fel na byddai i ddrwg-deimlad yr Iuddewon oedd o'i hamgylch gael ei gynhyrfu. *Fe ddaeth yr Athraw.* Dyma gipolwg i mewn i gymdeithas ddirgelaidd yr Iesu a'i ddysgyblion. Fel hyn y galwent Ef ymysg eu gilydd. *Ac y mae yn galw am danat.* Yr oedd eisieu parotoi y ddwy chwaer at y wyrth; felly yn unig y caent eu fleshau trwyddi. *Can gynted ag y clybu hi, hi a gododd yn ebrwydd, ac a ddaeth ato ef.* Y mae yr ymadroddion yn hynod fywiog, fel yr oedd yr ysgogiadau a ddarlunir. *A'r Iesu ni ddaethai eto i'r dref.* Yr oedd yr Iesu wedi aros ar y ffordd—"yr oedd efe yn y man lle y cyfarfuasai Martha âg ef." Ewyllysiai gyfarfod y chwiorydd wrthynt eu hunain, heb y dyrfa o Iuddewon. Ond yn ol

Adn. 31: *Yr Iuddewon . . . . a'i canlynasant hi.* Cyhoeddus oedd y wyrth i fod, er y cwbl. Dyma oedd y trefniant dwyfol. Sylwa Godet: "Gweithredai yr Iesu fel y dylasai; gweithredai Duw fel y mynai." *Y mae hi yn myned at y bedd, i wylo yno.* Dyma eu hesboniad hwy ar ei gwaith yn myned allan. Y mae y gwahaniaeth rhwng y gair a gyfieithir yma "wylo," a'r gair yn adn. 35—"yr Iesu a wylodd," yn darawiadol. Golyga y gair am Mair—ymollwng i wylo, neu wylo parhaus, angerddol. Dyma y gair a ddefnyddir am alaru ar ol y meirw. Ond golyga y gair "wylo" yn adn. 35, wylo dystaw. (Gwel ar yr adnod.)

Adn. 32: Dengys Mair y gwahaniaeth oedd rhyngddi â Martha. Yr oedd Martha yn gryfach, yn gallu meddiannu ei hunan i ymresymu—ei ffydd o nodwedd fwy gwrywaidd. Ond yr oedd Mair o natur drwyadl fenywaidd: yn fyw gan deimlad, wedi ei llyncu gan alar, ac heb wneyd un ymdrech i orchfygu y galar oedd yn ei llethu, ond yn syrthio wrth draed yr Iesu (lle yr oedd yn hoffi bod). Dywedai yr un geiriau a Martha. Y mae yn debyg fod y ddwy chwaer wedi dyweyd hyn lawer gwaith yn ystod clefyd Lazarus, a'r claf ei hun, y mae'n dra thebyg:—"O! na buasai yr Iesu yma!"

Adnabyddai ein Harglwydd y galon ddynol yn rhy dda i drin Martha a Mair yn yr un dull. Gallai ymddyddan â Martha ac ymresymu. Ond nid dyna y

dull i ymwneyd â Mair; eithr trwy gydymdeimlad serchog a gweithrediad penderfynol.

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, MEHEFIN 9FED—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* TACHWEDD 4YDD *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 29.)

"*Rhaid i mi weithio gwaith yr Hwn a'm hanfonodd.*"

ADN 1: *Ac wrth fyned heibio.* Yn nghymydogaeth y deml, fe allai, lle yr oedd y dall yn sefyll i dderbyn elusenau yr addolwyr. Sabboth oedd y dydd hwn (adn. 14), ond nid yr un a vii. 37, eithr un hwyrach. Ni raid golygu fod hyn yn uniongyrchol ar ol yr olygfa yn niwedd pen. viii. Os oedd hono yn y boreu, gallai hon fod yn min yr hwyr. *Efe a ganfu ddyn dall o'i enedigaeth.* "A ganfu"—ymddengys fod rhywbeth yn nghyflwr y dyn wedi tynu sylw neilduol y Gwaredwr. Buasai yn naturiol dysgwyl: "a'r dysgyblion a welsant ac a ofynasant." "O'i enedigaeth." Y mae y gwyrthiau a gofnodir gan Ioan yn sefyll bob un fel cynllun o ddosbarth o wyrthiau. Dyna y rheswm dros nodi mor bendant fod hwn wedi ei eni yn ddall. Yr un modd yr oedd adgyfodiad Lazarus y rhyfeddaf o'r dosbarth hwnw o wyrthiau.

ADN. 2: *Pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rieni, fel y genid ef yn ddall?* Syniai yr Iuddewon fod diffyg neu ddyoddefaint corfforol ymhob amgylchiad yn ganlyniad pechod. Ond yr anhawsder oedd i gymhwyso yr egwyddor at yr achos neilduol hwn. Y cwestiwn oedd pwy oedd y person a gosbid trwy y dallineb hwn; pa un ai y dyn ei hunan oedd wedi pechu cyn ei eni (mewn ystâd flaenorol o hanfodiad, gan fod cyn-hanfodiad eneidiau yn grêd yn yr Iuddewiaeth ddiweddaraf), neu ei rieni. Yr oedd y dyb olaf yn taro â syniadau Iuddewig—"ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant," Exod. xx. 5. *Fel y genid ef yn ddall.* Yr oedd hanes y dyn yn wybyddus, dybygid, yn gyffredinol.

ADN. 3: Nid yw ein Harglwydd yn gwadu nad oedd pechod yn y dyn a'i rieni; ond nid yw yn cefnogi y syniad fod perthynas uniongyrchol, mewn ffordd o gosb, rhwng dallineb y dyn â phechod yn y naill na'r llall. Nid tarddiad pechod nac achosion profedigaethau yw ein pwnc ni, ond ceisio gwella yr hyn sydd o'i le, ac yn bosibl ei wella. *Fel yr amlygid gweithredoedd Duw ynddo ef.* "Gweithredoedd cariad Duw yn y pryned-igaeth, y rhai yr anfonodd Efe fi i'w cyflawni. I mi, y mae pob drwg yn gyfleusdra i amlygu gweithredoedd Duw."

SABBOTH, MEHEFIN 16EG—*(Y rhan olâf o'r Wers am* TACHWEDD 4YDD *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 29).

ADN. 4: *Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd, tra yr ydyw hi yn ddydd.* Cyf. Diwyg.: "Rhaid i *ni* weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd." Dyry ein Harglwydd ei hunan gyda'i ddysgyblion yn yr un dosbarth fel gweithwyr, megys y gwna yn iii. 11 fel tystion. Daw yr adnod hon i mewn, ynglŷn â "gweithredoedd Duw" yn adn. 3: y mae amser penodol i gyflawni "gweithredoedd Duw," sef "y dydd"—tymmor gweithio, yr hwn oedd yn awr yn nesâu at ei derfyn i'r Iesu. *Y mae y nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio.* Ei angeu oedd "y nos," yr hwn oedd yn arwain i ddydd newydd o weithredoedd newyddion, i gael ei ddylyn gan nos drachefn.

ADN. 5: *Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf.* Nid yw y ffugyr o "oleuni" yn yr adnod hon, yn dyfod o'r ffugyr o "ddydd" a "nos" yn yr adnod o'r blaen. Bywyd fel tymmor gweithio yw "y dydd" yn adn. 4. Yr oedd Efe fel ei ddysgyblion yn mwynhau y dydd hwn, ac yn cael ei derfynu ganddo. Ond yma, Efe ei hunan sydd yn creu dydd. Awgrymir "goleuni" yma gan yr hyn oedd yn myned i gael ei wneyd ar y dall hwn yn awr, sef rhoddi goleuni naturiol ac ysbrydol iddo; ac yr oedd hyn yn engraifft a chysgod o'r gwaith mawr, cyffredinol o oleuo yr hil ddynol, ag yr oedd Efe wedi dyfod i'w gyflawni. "Tra yr ydwyf"—'pa bryd bynag yr ydwyf;' yn cymeryd i mewn fe allai amrywiol ddadguddiadau y Gair, yn amser y patriarchiaid, y gyfraith a'r prophwydi. 'Yr wyf yn oleuni i'r byd' (heb y fannod) 'mewn amrywiol ffurfiau; yn gystal ag yn un goleuni *y* byd.' Y cymeriad yr un, y ffurfiau yn amrywiol.

ADN. 6: *Wedi iddo ef ddywedyd hyn, efe a boerodd ar lawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn, ac a irodd y clai ar lygaid y dall.* Yr oedd sylw y dall wedi ei gynhyrfu erbyn hyn yn gwbl, trwy glywed y geiriau hyn, neu trwy rywbeth a ddywedasid wrtho. Bernid fod rhinwedd neilduol mewn poer at y llygaid; ond gwaharddai traddodiad Iuddewig yn bendant ei gymhwyso ar y Sabboth. Yr oedd cymysgu y clai yn chwanegu y drwg. Nis gellir penderfynu paham y dewisodd yr Iesu y dull hwn o iachâu y dall.

Adn. 7: *Dos, ac ymolch yn llyn Siloam, (yr hwn a gyfieithir, Anfonedig).* Yr hyn a barai roddi y geiriau mewn cromfachau, fe allai, oedd y syndod yn vii. 37. Yr oedd y ffrwd a darddai o galon y graig yn gysgod o Grist. Crist, yr Anfonedig, sydd yma yn gweithio trwy y llyn—llyn Siloam—"dyfroedd Siloa sydd yn cerdded yn araf," cysgod o'i deyrnas a'i waith, Esa. viii. 6. Yn erbyn y golygiad olaf dadleua Meyer y buasai y gwrthgysgod felly yn gyru y dall at y cysgod am iachâd. Barna rhai fod y clai a'r poeryn yn foddion gwirioneddol yr iachâd gwyrthiol, a'r mynediad i Siloam yn rhoddi amser iddynt gymeryd effaith.

Sabboth, Mehefin 23ain—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Tachwedd 11eg *yn y* Gwersylyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 29).

Sabboth, Mehefin 30ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Tachwedd 11eg *yn y* Gwersylyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 29).

"*I farn y daethum i'r byd hwn.*"—Ioan ix. 25—41.

[Ceir nodiadau eglurhaol helaeth ar y gwersi am y ddau Sabboth uchod yn y Drysorfa, Rhifyn am Ionawr, 1889, tu dal. 20, 21.]

Hanesion a Darnau Detholedig.

HAD YN FFYNU.

Oddeutu hanner canrif yn ol, yr oedd masnachwr cyfrifol a pharchus o'r enw George Whiting yn byw yn New York. Yn ystod oes faith gwelodd lawer o gyfnewidiadau yn ei amgylchiadau, llawer o droion ar fyd; weithiau yn llwyddiannus iawn, bryd arall, o herwydd caledi a gwasgfa yr amseroedd, yn lled gyfyng arno. Ymdrechai bob amser, fodd bynag, wneyd cymwynasau, a rhoi help i rai ddygwyddent fod mewn anghen; a dengys yr hanesyn canlynol am dano fel y mae caredigrwydd i'r anghenus yn dwyn ad-daliad cyfoethog, hyd yn nod yn y byd yma.

Ar un adeg ymgymerodd â gwerthu yr *Edinburgh Encyclopædia*, ac yr oedd nifer mawr o'r gwaith drudfawr yma ganddo mewn ystafell uwch ben ei swyddfa. Un diwrnod galwodd creadur tlawd, newynog, wrth ei ddrws i erfyn am waith, er cael tamaid o fara. Nid oedd ar Mr. Whiting eisieu neb y pryd hwnw, ond tosturiodd wrth y truan, ac anfonodd ef i'r ystafell lle y cedwid y llyfrau uchod, gan orchymyn iddo eu gosod yn drefnus yn bentyrau, ac y telid iddo am y diwrnod gwaith. Nid oedd unrhyw anghen am i'r gorchwyl gael ei gyflawni, ond yn unig fod calon dyner y masnachwr mor lawn o dosturi, fel yr oedd yn dyfeisio ffordd i wneyd caredigrwydd â'r tlawd oedd wedi dyfod ato yn y fath gyfyngder. Cyflawnwyd y gorchwyl yn ofalus, talwyd am dano, ac aeth y gŵr tlawd ymaith â chalon lawen, wedi cael modd i dori ei newyn, gan ddiolch yn gynhes i'w gymwynaswr, yr hwn yn fuan a anghofiodd bobpeth am y dygwyddiad.

Ymhen ychydig wythnosau torodd tân allan yn ei swyddfa, a llosgwyd yr adeilad yn llwyr, ynghyd a'r cannoedd cyfrolau o'r *Encyclopædia* oedd wedi eu hystorio yno. Yr oedd yr eiddo oll wedi ei yswirio; ond o herwydd nad oedd gan Mr. Whiting gyfrif priodol o'r nifer o lyfrau ddygwyddent fod yno ar y pryd, gommeddai y cwmni yswiriol a thalu. Hawlient gyfrif manwl a chywir am faint y golled cyn ei gwneyd i fyny, ac yn absennoldeb y cyfryw brawf nid oedd gan ein cyfaill ddim i'w wneyd ond dyoddef y golled fawr arianol, yr hon, ar y pryd, fygythiai fod yn ddinystr hollol i'w amgylchiadau.

Yn y brofedigaeth lem yma aeth allan un noswaith, yn ol ei arfer, â nifer o draethodau yn ei law, i ymweled â'r cleifion a'r tlodion mewn rhan isel o'r dref. Dyma ei arferiad yn nghanol ei lwyddiant, a glynai wrthi pan mewn iselder ac adfyd. Wedi ymweled âg amryw drueiniaid, a cheisio eu cysuro, daeth o'r diwedd i ystafell llę y gorweddai gŵr, ar wyneb yr hwn yr oedd afiechyd a thlodi ac anghen wedi ysgrifenu eu hanes yn amlwg iawn. Dywedwyd ychydig eiriau i geisio ei sirioli a'i galonogi, pan y gofynodd yn sydyn, ar ol craffu ar ei ymwelydd caredig, "Ai chwi yw Mr. Whiting?" "Ië," meddai yntau, "paham y gofynwoch?" "O," meddai y claf, "gwnaethoch drugaredd â mi pan oeddwn bron a newynu, trwy fy rhoi i gyfrif y llyfrau hyny; nid anghofiaf byth eich caredigrwydd." Ar hyn gofynodd y masnachwr iddo yn bryderus, a oedd yn dygwydd cofio pa nifer o gyfrolau oedd yn yr ystafell y diwrnod hwnw. Dywedodd yntau ei fod wedi eu rhoi i lawr

i gyd ar y pryd wrth eu trefnu; ac wedi peth chwilio, cafodd afael ar ddarn o bapyr oedd wedi ei ddefnyddio pan wrth y gorchwyl, ac ar y papyr nifer y pentyrau, a pha sawl cyfrol ymhob pentwr. Bu y dernyn papyr hwn, ynghyd a thystiolaeth y dyn claf, yn ddigon i argyhoeddi y cwmni yswiriol, a thalasant yr oll o'r swm gofynol, ac felly arbedwyd Mr. Whiting rhag colled oedd yn debyg o andwyo ei amgylchiadau am ei oes. "Y bore haua dy had, a phrydnawn nac attal dy law: canys ni wyddost pa un a ffyna, ai hyn yma ai hyn acw, ai ynte da fyddant ill dau yn yr un ffunud."

E. W. P.

Barddoniaeth.

ER COF AM Y DIWEDDAR BARCHEDIG ROGER EDWARDS.

Buddugol yn Nghyfarfod Cystadleuol y Wyddgrug: Nadolig, 1887.

Gweinidog Duw! ein hoff weinidog pur!
Er it' ein gadael, d' ysbryd sydd o hyd
Yn myn'd a dyfodol efo 'mlyn y byd
I'n cyfarwyddo ac i leddfu 'n cur!

Ai hygoel ydyw?—gyda 'th ryddid mwy
I ti yn hollol ynom golli 'th ddawn?
Beth? os yn ddilyffethair wyt yn awr,
A roddaist heibio 'n caru ddim yn hwy?

Na, 'r hyn sydd yma 'n *dda* ni wnair yn llai
Gan ddeddfau 'r nef,—cryfhâu o hyd a wnaiff;
A'r hyn oedd yma 'n eiddil, 'magor gaiff
Mewn bythol dirfder—bythol dŵf di-drai.

Pe tynai Ysbrydoliaeth Duw y cèn
Oddiar ein llygaid pylion, caem dy fod
Yn llawer mwy presennol nag erioed!
A'th serch yn glynu ynom yn fwy tèn!

Ond eto, mwy dymunol genym yw
Adgofio 'th fywyd yma yn y cnawd,—
Dy fuchedd sanctaidd, a dy eiriau, frawd,
A'th ogon ddus waith yn eglwys Dduw.

Ac nid oes dim i chwerwi 'n hadgof prudd.
Ond chwerwder hiraeth—chwerwder mill a rhôs
Pan blygant be'n dan iâs defnynau 'r nos
Mewn prudd fwynhâd wrth feddwl am y dydd!

Trawsblana 'r garddwr i diriogaeth well—
Mwy heulog a dymunol—beraidd fint:
Ac wrth ei symud, wraidd a chainc, y gwynt
Wasgara 'i beraroglau draw ymhell.

Ac felly tithau; pan symudwyd di
I ardal well, awyrgylch glir ein gwlad
A lanwyd, drwythwyd, gan berarogl mâd
Dy grefydd, a dy enw mawr ei fri!

Rhaid oedd dy golli i th werthfawrogi 'n iawn;
Rhy agos oeddit yma i'th fawrhâu:
Bu raid i'r beddrod oeraidd arnat gau
Cyn ini allu gwel'd dy werth yn llawn.

Yn angeu Un y gwelsom gariad Duw
Anfeidrol dda; ac yn dy angeu di
Y gwelsom ddyfnder, nerth, ein cariad ni—
Y *wir frawdoliaeth*, sydd i fythol fyw!

Ol dwylaw Duw sydd arnom bod ag un;
A phawb a wnaed i'w amser ac i'w le:
Nid eglur hyn bob amser—mae Efe
Yn rhoi ei ddelw fel y myno 'i hun.

Tra yma, gwagedd, a gorthrymder prudd,
Ymddengys bywyd y mwyafrif mawr—
Diamcan, ofer ydyw, a phob awr
Y blin gwerylir gyda 'r "pethau sydd."

Ond pan y croesir tr' thwy aur y nef,
Un ôl-edrychiad claerbell, ddengys fod
"Y pethau dyrys," "tywyll," is y rhod,
Wedi eu morteisio 'n gywir ganddo Ef!

Ond arnat ti, fy nghyfaill, er yn llanc,
Gofalodd Duw yn amlwg roi ei nôd,
Fel un o'i ddewis rai i dderbyn ei glod,
Drwy greu yn fore yn dy fynwes wanc—

Anniwall wanc, ac ymddyhëad cryf
Am Ddwyf-wybodaeth, synwyr, deall clir,
Yn mhethau 'r Bibl—pethau dwfn ei wir—
Y pethau cyrhaeddadwy i ysbryd hyf.

Dy natur aml-ochrog oedd yn fyw
I'r cyffyrddiadau mwyaf tyner, nais,
A chywair mwyn ei thànau hi, heb drais,
O'i gyffwrdd, roddai sain o uchel ryw!

Dy awen dirf yn mhlygain deg dy oes
A geinciai ini ddifyr, fywiog gân;
A chanol-ddydd a hwyrddydd d' einioes lân,
Mewa Salmau hi ganmolai waed y groes.

D' ysgrifbin buan, parod, beunydd oedd
Yn myn'd, yn myn'd drwy gydol einioes faith:
Arwyddair mawr dy fywyd ydoedd—gwaith!—
"Gwaith" oedd dy oes, yn ddirgel ac yn g'oedd.

Ac er fod "attal" arnat—d'wedaist fwy
Na nemor un am Dduw, am Grist a'i ras;
A miloedd, drwot ti, brofasant fias
Y Feddyginiaeth oedd i wella 'u clwy'.

Hoenus dy ysbryd, bywiog, tanbaid dwym,
Wrth natur oeddit ti: a'r Ysbryd Glân
Beutyrodd friw-wydd sanctaidd ar dy dân,
Ac a'i cysegrodd iddo 'i hun yn rhwym!

A Chymru deg—a'r Cymry ymhob man—
Deimlasant riu a gwres dy galon fawr;
Ac enw Roger Edwards sydd yn awr
Yn beraroglus ymh 'b tref a llan!

Chwith gan gapeli 'n gwlad fod hebot ti!
Chwith gan y Sassiwn—y Gymanfa, 'n awr
Fod heb dy berson lluniaidd yn sêt fawr,
Ac heb dy gof dihysbydd, parod, ffri.

Cyfarfod Misol—nid yw hwnw mwy,
Ond cyfle i'n hadgofio am a fu
Gwagder yn rhythu arnom! tra mae llu
Yn ceisio 'i lenwi—*fel y gallont hwy.*

Ond Wyddgrug deimla 'r gwagder mwya' gyd—
Gwagder na lenwir ond gan hiraeth prudd:
Fel trefwr, a gwleidyddwr, yn dy ddydd,
Tydi a fu ein genau yn y byd!

Chwith yw bod heb y gwenau siriol, mad!
Ac heb y weddi dynai 'r nef i lawr;
Ac heb y cynghor—heb y dagrau mawr!
Ac heb y Cyfaill pur! y Brawd! y Tad!

Daniel Owen.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Brynyrefail, Ebrill 18 a'r 19eg, gwnaed coffâd serchog am y diweddar Mr. W. Morris, brawd i'r diweddar Barch. D. Morris, Bwlan, yr hwn oedd yn ŵr o wybodaeth eang, o weithgarwch egnïol a chrefyddolder dwfn. Pasiwyd penderfyniad yn erbyn i neb a fyddo yn dal trwydded tafarn, neu gyfranau yn y fasnach feddwol, fod yn aelod o'r Cyfarfod Misol.

Yn Nghyfarfod Henaduriaeth Trefaldwyn, a gynnaliwyd yn y Tabernacl, ddydd Llun y Pasc, pasiwyd penderfyniad yn cymeradwyo y Gronfa Fenthyciol. Dangosai ystadegau yr Henaduriaeth gynnydd yn rhif y cymunwyr, y gwrandawyr, ac athrawon a deiliaid yr Ysgol Sabbothol.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Bethania, Cwmtwrch, Ebrill 16 a'r 17eg, pasiwyd penderfyniad yn dadgan fod Deddf Cau y Tafarnau ar y Sabbath yn Nghymru wedi profi yn fanteisiol iawn i'r Dywysogaeth; ac yn dymuno diwygio adran y teithiwr er gwneyd ei gweinyddiad yn fwy effeithiol. (Pasiwyd penderfyniad cyffelyb yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Brynpydew, Ebrill 18 a'r 19eg). Arwyddwyd cydymdeimlad â'r Parch. William Williams, Abertawe, yn ei alar ar ol ei briod.

Yn Nghyfarfod Misol Môn, a gynnaliwyd yn Niwbwrch, Ebrill 29 a'r 30ain, darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. Robert Thomas, Llanllyfni, yr hwn sydd wedi ymsefydlu yn fugail ar eglwys Llanerchymedd. Rhoddwyd derbyniad cynhes a serchog i Mr. Thomas, a dadganwyd y dymuniadau goreu am ei lwyddiant. Amlygwyd gofid y Cyfarfod Misol am ymadawiad y Parch. William Matthews, M.A., Porth Amlwch, o gylch y Cyfarfod Misol; yr hwn sydd wedi ymgymeryd â bugeiliaeth Eglwys capel y Graig. Penderfynwyd rhoddi iddo lythyr cyflwyniad.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Ebrill 30ain, pasiwyd penderfyniad o ddiolchgarwch i Mr. John Edwards, Pendleton, am ei rodd haelionus o £300 tuag at gapel Pendleton; ac i Mrs. Edwards am ei charedigrwydd yn rhoddi benthyg £200 yn ddilŵg ar y capel hwn.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Rhydcymerau, Ebrill 30ain a Mai 1af, pasiwyd penderfyniad yn pleidio Mesur Cau y Tafarnau ar y Sabbath yn Nghymru, ac i ddeisebu am ddiwygiad yn y Mesur er ei wneyd yn fwy effeithiol.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd, a gynnaliwyd yn y Gwynfryn, Mai 6 a'r 7fed, darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. Robert Williams, B.A., Caernarfon, a rhoddwyd derbyniad serchog iddo, ar ei waith yn ymsefydlu fel bugail Eglwys Seisonig Dolgellau Gwnaed coffâd parchus am y diweddar Mr. William Mona Williams, gynt o Tanygrisiau. Dygwyd y dystiolaeth uchaf i'w amryfal ragoriaethau fel Cristion a swyddog eglwysig.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, a gynnaliwyd yn Parc, Mai 2 a'r 3ydd, pasiwyd penderfyniad o blaid y Ddeddf er cau y Tafarnau ar y Sabbath yn Nghymru, ac yn dadgan ei bod wedi profi o fendith annhraethol i'n gwlad.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Saron, Mai 2 a'r 3ydd, darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. D. Jones, o Dalsarn, Arfon, yr hwn sydd wedi ei alw yn fugail ar eglwys Rhuddlan; rhoddwyd iddo dderbyniad croesawgar, gan ddymuno ei lwyddiant a'i ddefnyddioldeb. Pasiwyd yma hefyd benderfyniad o blaid Deddf cau y Tafarnau ar y Sabbath yn Nghymru.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, a gynnaliwyd yn y Parc, Mai 7 a'r 8fed, gwnaed coffâd parchus iawn am y diweddar Mr. R. Jones, U.H., Plasyracre, Bala. Dygwyd tystiolaeth uchel i'w ragoriaethau neillduol.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Nefyn, Mai 6 a'r 7fed, pasiwyd penderfyniad yn dadgan diolchgarwch y Cyfarfod Misol i D. E. Owen, Ysw., 68, Bidston Road, Birkenhead, am ei garedigrwydd yn rhoddi y swm o £25 at gapel newydd Rhydbach. Pasiwyd pleidlais unfrydol o ddiolchgarwch i'r Parch. William Thomas, Pwllheli, am ei anerchiad rhagorol ar "Y pwysigrwydd fod gofal aughenrheidiol yn cael ei gymeryd wrth godi dynion i swyddogaeth eglwysig."

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Bryn'rodyn, Mai 6 a'r 7fed, gwnaed coffâd parchus am flaenoriaid ymadawedig, sef Meistri J. Williams a J. Roberts, Llanrug; a R. Jones, Bryn'refail. Coffäwyd hefyd am y diweddar Barch. Richard Jones, Jerusalem, un a fu yn gymeradwy iawn fel pregethwr, ac yn dra gafaelgar mewn gweddi. Cyfeirwyd hefyd at farwolaeth Miss Jones,

Erw, Nazareth, yr hon a gyrhaeddodd yr oedran mawr o 91 mlwydd, ac a fuasai yn llygad, llaw, calon a phwrs, i'r achos yn Nazareth, er ei sefydliad cyntaf, dros ddeugain mlynedd yn ol, er nad ydoedd erioed wedi ymuno fel aelod eglwysig. Cyfranodd gannoedd o bunnau yn ystod yr wyth mlynedd diweddaf at achos y Gwaredwr yn Nazareth; a gadawodd yn ei hewyllys £200 i'r achos yn y lle. Rhoddwyd derbyniad croesawgar i'r Parch. W. Matthews, M.A., ac hefyd i'r Parch. J. Puleston Jones, B.A. Rhoddwyd llythyr cyflwyniad i'r Parch. D. O'Brien Owen, yr hwn sydd yn symud i fod yn fugail ar eglwysi Llanfrothen a Chroesor. Dygwyd tystiolaeth uchel i werth gwasanaeth Mr. Owen yn y Sir, a hysbysid y byddai colled fawr ar ei ol. Ar dderbyniad llythyr oddiwrth y Parch. John Evans, B.A., Clynnog, yn hysbysu ei fod yn ymddiswyddo fel athraw Ysgol Clynnog, pasiwyd penderfyniad yn dadgan gwerthfawrogiad y Cyfarfod Misol o lafur ffyddlawn a chydwybodol Mr. Evans am gynifer o flynyddoedd ynglŷn â'r Ysgol hon; a'i wasanaeth gwerthfawr fel gweinidog ynglŷn â'r eglwysi yn Nghlynnog.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Casmael, Mai 7 a'r 8fed, darllenwyd llythyr cyflwyniad y Parch. J. R. Hughes, yr hwn sydd yn ymgymeryd â bugeiliaeth yr eglwys yn Neyland. Rhoddwyd derbyniad croesawgar iddo.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. ROBERT DAVIES, AMWYTHIG.

Y 23ain o Ebrill diweddaf daeth yr amser rhagderfynedig i'r Parch. Robert Davies "i ymadael o'r byd hwn at y Tad." Nid oedd efe ond ychydig dros ddeng mlwydd a deugain oed; ac hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth yr oedd efe yn nghyflawnder ei nerth ac yn llafurus yn nghanol ei waith. Ond gostyngwyd ei nerth yn annysgwyliadwy ar y ffordd, a difuddiwyd ef o'r hyn a dybiem ni yn weddill ei flynyddoedd. A chan ei fod yn llanw cylchoedd pwysig ac eang, ac iddo yn y cylchoedd hyny wneyd llu mawr o gyfeillion mynwesol, parodd ei gystudd trwm a'i ddattodiad cyflym alar i laweroedd. Bu yn pregethu am fwy na deng mlynedd ar hugain; ac am dair ar hugain o'r blynyddoedd hyny yn weinidog yr eglwys yn Hill's Lane, Amwythig. Daeth yn y cyfamser yn ŵr o gyfrifoldeb mawr, yn Ngyfarfod Misol Trefaldwyn, pan yr oedd y Sir yn un, ac wedi y rhaniad yn un o'r arweinwyr yn Nghyfarfod Misol y Rhan Isaf, am lawer o flynyddoedd. A daeth ei werth yn raddol yn fwy adnabyddus. Yr oedd efe yn nodedig o analluog mewn un cyfeiriad —yr oedd yn gwbl analluog i alw sylw pobl ato ei hun. Oni welai pobl ei deilyngdod heb iddo ef ymdrafferthu i'w ddangos iddynt, boddlonai i fod yn anweledig. Ond y mae dynion o'r fath yn cael eu gweled yn gyffredin, er hwyrach yn rhy ddiweddar i gael cymaint o'u gwasanaeth ag a allesid. Bu Mr. Davies yn yr wyth mlynedd diweddaf yn un o'r gweinidogion mwyaf cyhoeddus fel Ysgrifenydd Cenadaeth Gartrefol Cymdeithasfa y Gogledd. Cafodd y Cyfundeb trwy hyny, yn enwedig yn y Gogledd, brofiad o'i ragoriaethau—digon o brofiad i'w wneyd yn gwestiwn pwysig, pwy a geir i lanw ei le mor effeithiol a chymeradwy.

Yr oedd yn Mr. Davies yn naturiol lawer o'r boneddwr o ran y dyn oddimewn a'r dyn oddiallan. A golygu fod cadernid moesol yn un o egwyddorion hanfodol gwir foneddigeiddrwydd, fel boneddwr Cristionogol yr erys Mr. Davies mewn cof. Yr oedd yn ormod o foneddwr i ymostwng at ddim isel. Yr oedd ynddo wythïen gyfoethog o chwareunwyf, ond ni lygrodd hi neb. Fe adawodd ar ei ol, yr ydym yn credu, lawer o bregethau rhagorol wedi eu meddwl yn drwyadl, a'u hysgrifenu yn ofalus. Ond pe ceid hwy yn argraffedig, yn ofer y chwilid hwy am ddim cyffrous; fe geid y gwirionedd yn llawn, yn ddigêl, ïe, yn ddiaddurn, o ran dim ymgais celfyddydol o'i gwmpas—y gwirionedd syml mewn tawelwch urddasol. Felly y pregethai Mr. Davies, felly y bu fyw, ac felly y bu farw. Felly yr ydym yn tueddu i feddwl am dano yn croesi rhiniog "tŷ fy Nhad."

Torodd allan lifeiriant o gydymdeimlad â Mr. Davies yn ei gysudd, ac â'i deulu; ac nid yw y dyfroedd wedi peidio yn hollol pan yr ydym yn ysgrifenu. Casglwyd cannoedd o bunnau; ac ni bu un symudiad erioed mwy ffynnonawl. Dengys hyn y lle mawr a chynhes yr oedd Mr. Davies wedi ei wneyd iddo ei hun yn marn a chalon y wlad.

J. P.

Y PARCH. JOHN MORRIS, GRONANT.

Ebrill 18fed, bu farw y Parch. John Morris, Gronant, Sir Fflint, yn 46 mlwydd oed, wedi bod yn pregethu yr efengyl gyda graddau helaeth o gymeradwyaeth am 16 mlynedd, ac wedi cael ei ordeinio i holl waith y weinidogaeth er y flwyddyn 1883. Brodor o Gronant

ydoedd, ac yno y treuliodd ei holl oes. Gan fod teulu ei rieni yn fawr, bu raid iddo ymaflyd mewn gorchwyl bydol yn lled gynnarol ar ei oes; a chan nad oedd ysgol ddyddiol o fath yn y byd y pryd hwnw yn y pentref, ychydig o fanteision addysg a gafodd. Ond trwy wneuthur y goreu o'i oriau hamddenol, a thrwy ddiwydrwydd mawr mewn amser ac allan o amser, fe ennillodd wybodaeth helaeth; a thrwy amaethu ei ddoniau naturiol fe ddaeth yn ddefnyddiol iawn gyda'r Ysgol Sabbothol, ac mewn cylchoedd eraill, flynyddoedd cyn iddo ddechreu pregethu. Gan ei fod yn ffyddlawn gyda phethau llai pwysig, a chan ei fod yn cyflawni y gwaith anghenrheidiol mewn swyddau îs gyda chrefydd, mor foddhaol, yr oedd ei gydnabod yn Gronant, a'r cyfeillion yn y Cyfarfod Miscl, yn barod i ganiatau iddo gylch eangach o ddefnyddioldeb pan y gwnaeth gais am ddechreu pregethu. Meddylgarwch a threiddgarwch oeddynt nodweddion arbenig ei weinidogaeth yn y blynyddoedd cyntaf, yn fwy nag apeliadau at y gydwybod a'r teimlad. Ond yn raddol fe ddaeth gwedd fwy cyflawn ac addfed ar ëi genadwri, ac yr oedd y dosbarth goreu o'r gwrandawyr yn gwerthfawrogi ei weinidogaeth yn fawr iawn. Er na bu mewn athrofa erioed, ac er na chafodd ond rhyw flwyddyn o ysgol, a hyny ar ol tyfu i fyny, daeth rhagddo yn hynod fel pregethwr ac fel gŵr o farn. Cynnyddu a chwanegu mewn cymeradwyaeth yr oedd o hyd, a rhoes y Cyfarfod Misol brawf o hyny trwy ei ddewis i'w ordeinio chwe' mlynedd yn ol, ac yr oedd yn prysur ddringo i sefyllfaoedd uchaf y Cyfarfod Misol. Yr oedd yn nodedig o haelionus a ffyddlawn gyda'r achos crefyddol yn ei gartref. Yn wir yr oedd yn gwneuthur holl waith bugail, ac yn ei wneuthur yn drwyadl, er nad oedd wedi ei alw yn ffurfiol felly. Efe hefyd oedd arweinydd yr ardal gyda phethau gwladol a chymdeithasol, ac yr oedd y trigolion yn ewyllysgar iawn yn talu gwarogaeth i'w fedrusrwydd ac i'w synwyr da. Ië, yr oedd teimladau da ei gydnabod tuag ato bron yn peri ei fod yn eithriad i'r ddiareb, sef "nad yw prophwyd yn gymeradwy yn ei wlad ei hun." Dechreuodd ei gystudd diweddaf tua thri mis cyn ei farwolaeth, fel y methodd a myned allan i bregethu. Anfonwyd llythyrau cydymdeimlad ato gan y Cyfarfod Misol a chan Gymdeithasfa Pont Menai, a chan lu o'i gydnabod. Ond dwysâu yr oedd ei gystudd o hyd, fel yr ehedodd ei ysbryd at ei Dduw, ddydd Iau cyn Gwener y Groglith. Dydd Mawrth, Ebrill 23, oedd diwrnod y cynhebrwng. Daeth tyrfa fawr ynghyd ar yr achlysur galarus. Yr oedd dros 20 o weinidogion yn bresennol, a nifer dda o flaenoriaid, a lliaws mawr o bobl o'r ardaloedd cylchynol. Cynnaliwyd gwasanaeth crefyddol yn Nghapel Gronant, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. R. Owen, Wyddgrug; H. Roberts, Maesglas; E. Thomas, Deganwy; R. Pierce, Trelogan; J. Jones, Caerwys; J. Adams, Trefnant; W. Williams, Helygain; a Mr. E. Goodwin, Treuddyn. Claddwyd ef yn mynwent Llanasa, lle tua dwy filldir o Gronant, ac yr oedd yr orymdaith yn fawr ac yn olygus. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol wrth y bedd gan y Parch. B. Hughes, Llanelwy, a therfynwyd trwy weddi gan y Parch. J. Jones, Fflint.

B H.

YR ARHOLIAD AM FYNEDIAD I ATHROFA Y BALA—MEDI, 1889.

Testynau yr Arholiad nesaf am fynediad i Athrofa y Bala.

Cyfansoddi Cymraeg.
Gramadeg Saesonaeg, a
Chyfansoddi Saesonaeg.
Saesonaeg y Cyfieithiad Awdurdodedig o Esaiah, pen. xl.—liii. Y mae methiant mewn Saesonaeg ar ei ben ei hun yn anghymhwyso ymgeisydd i ddyfod i mewn.
Gramadeg Lladin—yr *Accidence* a'r *Syntax*, brawddegau byrion i'w troi i Ladin.
Arithmetic.
Algebra. *Four Rules*, a *Simple Equations*.
Geometry. Euclid I. a II.
Groeg. Yr *Accidence*, prif reolau y *Syntax*, brawddegau byrion i'w troi i Roeg.
Traethawd yn Gymraeg neu Saesonaeg ar bwnc duwinyddol.
Bwriedir cynnal yr arholiad yn y Bala y trydydd dydd Mawrth yn mis Medi nesaf, a dechreuir am 9 yn y bore.

GALWADAU.

Rhoddwyd galwadau i'r gweinidogion canlynol yn ddiweddar:—

Y Parch. John Owen, Aberdyfi, i Eglwys Seisonig Turf Square, Caernarfon.
Y Parch. W. Matthews, M.A., Porth Amlwch, i Gapel y Graig, Arfon.
Y Parch. Hugh Pugh, Gwynfryn, i eglwysi Penygraig a Rhydlïos, Lleyn.

Y Parch. Robert Williams, B.A., Caernarfon, i Eglwys Seisonig Dolgellau.

Y Parch. D. Jones, Talsarn, i Rhuddlan.

Y Parch. D. O'Brien Owen, Gerlan, i Llanfrothen a Croesor.

Y Parch. Evan Jones, Bodffari, i Waenfawr, Arfon.

Y Parch. H. Barrow Williams, Wrexham, i Landudno.

Y Parch. David Jones, Machynlleth, i Eglwys Seisonig y Wyddgrug.

MIDDLESBOROUGH

Mai y 12 a'r 13eg, cynnaliodd y Methodistiaid Calfinaidd eu Cyfarfod Pregethu Blynyddol yn y dref uchod, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Thomas Gray, Manchester. Caed cyfarfodydd nodedig o lwyddiannus, ac arddeliad Dwyfol ar y weinidogaeth—y pregethwr yn llaw yr Arglwydd mewn modd neilduol, a'r gynnulleidfa dan deimladau dwysion. Dysgwylir gweled ffrwyth toreithiog ar ol pregethau mor afaelgar a grymus.—*Gohebydd.*

Nodiadau Misol.

CYFARFODYDD MAI.

Y mae y Cyfarfodydd hyn yn dra dyddorol i bob Cristion a dyngarwr. Dyma yr adeg pan y mae goleuni a gwres, a holl egnïon y byd Cristionogol, megys, wedi eu crynhoi i un pwynt—i *focus*. Ceir rhyw syniad trwy yr adroddiadau a'r areithiau, yn nghyfarfodydd y gwahanol gymdeithasau crefyddol, am y frwydr ddifrifol sydd yn cael ei dwyn ymlaen rhwng teyrnas y goleuni â theyrnas y tywyllwch yn ei holl alluoedd. Cynnaliwyd ar y dydd laf o Fai Gyfarfod blynyddol

Y FIBL GYMDEITHAS.

Llywyddwyd gan Iarll Harrowby (gynt Arglwydd Sandon). Yr oedd araeth y Llywydd yn un o'r rhai mwyaf dyddorol yn y Cyfarfod. Dywedai fod dyddordeb cynnyddol yn y Bibl yn cael ei amlygu bron ymhob gwlad. Rhoddodd adroddiad hynod o galonogol am y llwyddiant a ddilynai weithrediadau y Gymdeithas yn Madagascar, Japan, Malaysia ac Arabia, ac hefyd ar Gyfandir Ewrop. Cafwyd araeth o'r dyddordeb mwyaf gan Syr Richard Temple, un o'r awdurdodau uchaf ar India. Adroddodd ffeithiau nodedig o ddyddorol, nid yn unig am y gwaith sydd yn myned ymlaen yn India, ond yn Palestina—fel y mae y meddwl Mahometanaidd yn ymagor i dderbyn y Bibl, ac yn Australasia, Affrica, ac amryw o wledydd Ewrop. Araeth bwysig iawn hefyd oedd yr eiddo y Parch. J. Macgowan, Cenadwr o China; a'r eiddo y Parch. J. J. Jameson, goruchwyliwr y Gymdeithas yn yr Yspaen. Dywedai yr olaf am y wlad hono, hyd yn ddiweddar y fwyaf cauedig rhag yr Efengyl a'r fwyaf anobeithiol yn Ewrop, wedi cael rhyddid i ledaenu y Bibl ar hyd a lled y wlad, fod Gair Duw wedi dyfod yn llyfr teuluaidd trwy yr oll o'r Yspaen. Dywedai fod gweithwyr y Genadaeth Yspaenaidd yn awr yn holl borthladdoedd Môr y Canoldir, a bod swyddfeydd y Fibl Gymdeithas yn Madrid, y brifddinas, yn un o hen lanerchau y Chwil-lys.

Yr oedd y Cyfarfod drwyddo yn rhagorol, ac yn llawn o ddefnyddiau calondid i weithio gydag egni adnewyddol.

Drwg genym fod yn rhaid i ni adael allan o'r Rhifyn hwn grybwyllion am Gyfarfodydd pwysig eraill, o ddiffyg lle.

Byrnodion Amrywiaethol.

FFEITHIAU DYDDOROL YNGLYN A'R BIBL.

Y mae Golygydd y *Secolo* yn Itali—dyn o olygiadau anffyddol—wedi dwyn allan o'i swyddfa argraffiad, gyda darluniau, o *Fibl y Bobl*, mewn rhanau *dimai* yr un, gyda chylchrediad o ddwy fil ar bymtheg yn wythnosol.

Y mae y Fibl Gymdeithas yn awr yn lledaenu y Bibl mewn 287 o ieithoedd. Nid oedd y Bibl ond mewn 54 o ieithoedd yn nechreu y ganrif hon.

Y mae lledaeniad yr Ysgrythyrau yn Japan wedi cynnyddu yn ystod y flwyddyn ddiweddaf o 16,000 i 37,000.

Cyhoeddwyd y Bibl yn gyflawn yn Japan y flwyddyn ddiweddaf. Ac yn mis Chwefror diweddaf cyhoeddodd yr Ymherawdwr ryddid crefyddol trwy yr holl ymherodraeth.

Lledaenwyd yn Germany y flwyddyn ddiweddaf 18,000 o gopïau o'r Bibl mwy na'r flwyddyn flaenorol.

Lledaenwyd 16,000 o gopïau yn Italy y flwyddyn ddiweddaf yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Holl ledaeniad yr Ysgrythyrau (yn gyfan neu mewn rhan) gan y Gymdeithas y flwyddyn ddiweddaf oedd dros dair miliwn a hanner 3,677,204.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA PONT MENAI,

Ebrill 9, 10, a'r 11eg, 1889.

Llywydd,—Y Parch. John Pritchard, Amlwch.

Dydd Mawrth, Ebrill 9fed.

Am 2 o'r gloch, Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Derbyniwyd Cenadwriaethau o'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau.

III. *Ordeinio* :—Cymeradwywyd y brodyr canlynol i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa i gael eu hordeinio eleni:—O Fôn:—Mr. John Roberts, Llanfaethlu. O Arfon:—Mr. Phillip Williams, Carneddi. O Ddwyrain Meirionydd:—Meistri John Jones Hughes, Llidiardau; John Puleston Jones, B.A., Bala; a David Lewis Owen, Gwyddelwern. O Gorllewin Meirionydd: — Mri. Hugh Ellis, Pennal; a Hugh Pugh, Gwynfryn. O Drefaldwyn Uchaf:—Mr. B. F. Richards, Sychnant. O Henadnriaeth Trefaldwyn:—Mr. J. Daniel Evans, Tabernacl. O Henaduriaeth Sir Gaer:—Mr. John Owen Thomas, M.A., Liverpool. O Liverpool:—Mr. Robert Davies, Workington.

Ynglŷn â'r enwau hyn, gofynwyd a oedd pob un wedi ei ddewis yn rheolaidd. Cafwyd nad oeddynt oll wedi bod am flwyddyn mewn cysylltiad âg eglwysi fel gweinidogion yn ol gofyniad y rheol.—Penderfynwyd fod pwyllgor yn cael ei benodi i adolygu y Rheol sydd yn gofyn am i bregethwr fod mewn cysylltiad bugeiliol âg eglwys am flwyddyn o amser o leiaf cyn y bydd ar dir y gellir ei ordeinio. Credid fod yr adran hon o'r rheol yn anfantais i'r achos yn ein plith. Nodwyd y personau dilynol fel aelodau ar y pwyllgor hwn:—Parchn. O. Thomas, D.D.; Robert Roberts, Dolgellau; T. J. Wheldon, B.A.; John Hughes, D.D.; Mr. Robert Rowland, U.H.; y Cadeirydd, a'r Ysgrifenydd. Y Parch. T. J. Wheldon i fod yn gynnullydd.

IV. *Gwerthu Tir.*—Ar gais Cyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, penderfynwyd fod caniatad yn cael ei roddi i gyfeillion Rhuthyn i werthu capel y Rhos.

V. *Llythyrau Cyflwyniad.*—Penderfynwyd fod llythyrau cyflwyniad yn cael eu rhoddi i'r Parchn. Francis Jones, Abergele; D. R. Griffith, Rhyl; Robert Williams, M.A., Corwen, a J. R. Williams, Rhydbach, ar eu hymweliad âg America.

VI. *Aelodau yn Cadw Tafarndai.*—Wedi ymddyddan maith a lled wresog ar bwnc gofyniad a ddaethai o Gyfarfod Misol Môn, penderfynwyd,—Ein bod yn galw sylw yr holl Gyfarfodydd Misol at y Rheol a basiwyd yn Nhreffynnon, yn Rhagfyr, 1853, gan ddymuno arnynt ddwyn y Rheol i weithrediad gyda phob addfwynder doethineb. Dyma y Rheol:—Sylwyd nad oedd eisieu gwneuthur rheol newydd ar hyn, ond fod yn ddigon adrodd a chadarnhau y Rheol sydd genym eisoes, a'r hon y penderfynwyd arni yn Nghymdeithasfäoedd Bangor a Rhuthyn, yn 1838; sef nad ydyw yn oddefol i neb o'n haelodau fyned rhagllaw i fasnach y diodydd meddwol; ac am y rhai sydd yn cadw tafarndai eisoes, ein bod yn eu hannog i ymryddhau oddiwrth y gyfryw fasnach mor fuan ag y gallont; a thra y byddont eto heb ddyfod yn rhydd, na byddo iddynt oddef dim meddwdod yn eu tai, na gollwng diod mewn amser anmhrydlawn, ac yn enwedig ar ddydd yr Arglwydd.

VII. *Achos Criccieth.*—Darllenwyd Adroddiad ar yr achos hwn gan y Parch. Thomas Roberts, Jerusalem, a rhoddwyd eglurhad pellach gan Thomas Lewis, Ysw., A.S. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r ddwy eglwys yn Nghriccieth pa fodd i derfynu yr anghydwelediad arianol sydd rhyngddynt, ac hefyd cytunwyd i anfon y Parch. William Rowlands, Cefnywaen, a Dr. Roberts, Penygroes, i ymweled â Phentrefelin, i gymeryd eu llais yno gyda golwg ar pa un o'r eglwysi yn Criccieth y dymunent fod mewn cysylltiad â hi fel taith Sabbothol. Golygid fod eu llais hwy yn Mhentrefelin i fod yn derfynol ar y pwnc.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Am 6 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

Dechreuwyd gan y Parch. William Rowlands, Cefnywaen.

X. *Anerchiad y Cynlywydd.*—Y Parch. W. James, B.A., a sylwai, wrth adolygu hanes blwyddyn ei lywyddiaeth a'r prif bethau a fuont dan ystyriaeth y Gymdeithasfa, mai siomedigaeth chwerw iddynt oedd methiant y cais i sicrhau undeb rhwng De a Gogledd yn addysg y weinidogaeth. Ond cael hyny gellid dysgwyl sefydlu ysgol gwir Gymreig o dduwinyddiaeth. Ar ol ychydig eiriau ar y dymunoldeb o greu Cronfa Fenthyciol, aeth Mr. James rhagddo i alw sylw at y cyhuddiadau difrifol a wneir yn ein herbyn fel cenedl, nad ydym yn bobl foesol. Rhai a ddywedant nad ydyw Cristionogion erioed wedi gosod Cristionogaeth yn ei goleuni priodol. Ofnai yntau weithiau ein bod heb lefaru digon yn erbyn y pechodau sydd yn halogi dyn, sef cybydd-dod, twyll, ar air, mesur a phwys, cenfigen, dygasedd, bwriadau drwg, a phob anghariadoldeb. Ni ddylem ddiystyru yr hen bethau na'r newydd. Credai ein tadau mewn pethau newyddion, ac am hyny eu herlidiwyd. Gofidus oedd meddwl am yr holl eiddigedd sectol a anrheithiai Gymru. Parod oedd efe i gredu gosodiad y Parch. H. Price Hughes, y dylai y Presbyteriaid uno gyda'r

Wesleyaid a'r Annibynwyr â'r Bedyddwyr.—Penderfynwyd fod diolchgarwch gwresog y Gymdeithasfa yn cael ei roddi i'r Parch. William James, B.A., am ei wasanaeth ffyddlawn a medrus yn ystod blwyddyn ei lywyddiaeth, ac am ei anerchiad rhagorol wrth ymadael â'r gadair.

XI. *Y Gymdeithasfa Nesaf.*—Hysbyswyd fod y Gymdeithasfa nesaf i gael ei chynnal yn Ninbych, Mehefin 19, 20, a'r 21, sef dyddiau Mercher, Iau, a Gwener. Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa i gyfarfod am ddau o'r gloch dydd Mercher, y 19eg. Bydd Pwyllgorau yr Achosion Seisonig a'r Genadaeth Gartrefol yn cyfarfod nos Fawrth a boreu Mercher, y 18fed a'r 19eg.

XII. *Cadarnhau.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd penderfyniadau y Cyfeisteddfod Cyffredinol.

XIII. *Athrofa'r Bala.*—Cadarnhäwyd dewisiad y Parch. N. Cynhafal Jones yn aelod o'r Cyfeisteddfod dros Drefaldwyn Isaf yn lle y diweddar Barch. Joseph Thomas.

Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau Cyfeisteddfod Athrofa'r Bala :—

Cyfarfu y Cyfeisteddfod am 10 a 2 o'r gloch, ddydd Gwener, Chwefror 15fed, yn Nghapel St. John Street, Caerlleon. Cadeirydd,—Richard Davies, Ysw., U.H.—1. Darllenwyd a chadarnhäwyd cofnodau y Cyfeisteddfod diweddaf.—2. Penderfynwyd gyda'r unfrydedd a'r brwdfrydedd llwyraf,—Ein bod yn rhoddi gwahoddiad cynhes i'r Parchedig Thomas Charles Edwards, D.D., Prif Athraw Coleg y Brifysgol i Gymru (Aberystwyth), i ddyfod yn Llywydd yr Athrofa yn y Bala, i ddwyn ymlaen y gwaith a fu unwaith yn cael ei gyflawni gan ei dad, y diweddar Barchedig Dr. Edwards.—3. Penderfynwyd,—Fod y Trysorydd Cyffredinol, Richard Davies, Ysw., U.H., a'r Ysgrifenydd, i ymweled â Dr. Edwards, i osod y mater ger ei fron.—4. Penderfynwyd,—Ein bod yn penodi y Parchedig Ellis Edwards, M.A., yn *Vice Principal*, a'n bod yn ychwanegu £50 at ei gyflog; a'r Parchedig Hugh Williams, M.A., yn drydydd Athraw, a'n bod yn ychwanegu £20 at ei gyflog yntau.—5. Cytunwyd fod y Cyfeisteddfod i gyfarfod nesaf mewn cysylltiad â Chymdeithasfa Pont Menai, dydd Llun, Ebrill 8fed.—6. Diolchwyd yn gynhes i'r Cadeirydd, ac i gyfeillion Caerlleon am eu caredigrwydd yn darpar at wneuthur y Cyfeisteddfod mor gysurus.—R. H. Morgan, *Ysg.*

Cynnaliwyd cyfarfod o'r Cyfeisteddfod yn Mhont Menai, Ebrill 8 a'r 9fed, 1889. Cadeirydd,—Richard Davies, Ysw., U.H. Yr oedd Dr. Edwards, Aberystwyth, yn bresennol.—1. Darllenwyd a chadarnhäwyd cofnodau y Pwyllgor diweddaf.—2. Darllenwyd y llythyr dilynol oddiwrth Dr. Edwards, mewn atebiad i gais y Pwyllgor iddo i fod yn Brif Athraw yn y Bala.

At Bwyllgor Athrofa y Bala.

Anwyl Frodyr,—Nis gallaf beidio teimlo yn ddwys wrth roi atebiad, ar ol rhai wythnosau o ystyriaeth, i'r cais a anfonasoch ataf i ymgymeryd â llywyddiaeth Athrofa y Bala. Y mae y gwahoddiad yn anrhydedd mawr ynddo ei hun: yn benaf am ei fod yn alwad i'r gwaith tra phwysig o hyfforddi ac arwain y gwŷr ieuainc fydd o anghenrheidrwydd yn ffurfio syniadau duwinyddol, ac, i fesur helaeth, ansawdd crefydd yr oes nesaf, o'r hyn lleiaf mewn un rhan o'r Cyfundeb; ond hefyd o herwydd y gelwir fi i ddilyn un y mae rhai o honoch yn cofio sefydlu yr Athrofa ganddo, a phawb o honom yn gwybod yn dda pa beth fu yr Athrofa dan ei lywyddiaeth ef a'i gydathrawon am hanner canrif.

Ystyriais y mater, mor belled ag yr oeddwn yn ei ddeall, yn ei holl gysylltiadau. Ni adewais o fwriad ddim ond un ystyriaeth o'r neilldu. Y mae yn deg i mi ddyweyd fy mod wedi ymdrechu, ac, mi a gredaf, wedi llwyddo, heb nemawr o anhawsdeb, gadael allan o'r cyfrif yn hollol unrhyw wahaniaeth arianol a achlysurid trwy fy ymadawiad o Aberystwyth. Os bu iddo bwyso gronyn yn y glorian, yn ddiarwybod i mi y bu hyny. Am y gwahaniaeth mewn safle y sonia rhai am dano, y mae y fath ystyriaeth yn gwbl islaw fy sylw.

Ymddangosai i mi fod y cwestiwn yn troi, yn y diwedd, ar ddwy ystyriaeth. Cyfeiria y naill at fy nghysylltiad â Choleg y Brifysgol yn Aberystwyth. Ar y cwestiwn pa un a fyddai i mi ymadael yn y cyfwng presennol yn hanes y Coleg yn niweidiol iddo ai peidio, nid oeddwn yn teimlo y gallwn ymddiried i fy marn fy hun. Ond y mae cynghor y Coleg, heb son am yr hyn a ddywedai lliaws o gyfeillion eraill y Sefydliad wrthyf, wedi anfon i mi benderfyniad a basiwyd yn unfrydol ganddynt, yn dadgan eu hanewyllysgarwch i fy ngollwng. Yr un pryd, teimlwn bob amser awydd mawr i wneuthur yr hyn oll a ddichon fod ar fy llaw i gynnorthwyo yn y gwaith goruchel o addysgu pregethwyr ieuainc mewn duwinyddiaeth; ac addefaf yn rhwydd y byddai fy ngogwydd yn gryf i dderbyn galwad y Pwyllgor, pe gallwn gredu fod gobaith lled ddyogel y sicrheid trwy hyny ffurfiad Athrofa Dduwinyddol deilwng o'r Cyfundeb, ac o sefyllfa bresennol duwinyddiaeth yn ei gwahanol ganghenau.

Yr ymholiad nesaf gan hyny oedd, Pa ragolygon fyddai o fy mlaen am Athrofa Dduwinyddol o radd uchel, dan yr amgylchiadau presennol. Wrth ystyried y cwestiwn hwn, cymerais o hyd yn ganiataol mai Athrofa hollol dduwinyddol, ac nid fel y mae wedi bod, hyd yma—Coleg cymysg neu gyffredinol, sydd i fod yn y Bala o hyn allan. Nis gwn, i sicrwydd, pa mor bell y cytuna y Pwyllgor neu y Gymdeithasfa â mi nac â'u gilydd ar hyn. Ond yr wyf fy hun yn argyhoeddedig, os ceisir cyfuno dau ddosbarth mor wahanol o efrydwyr mewn un Athrofa, sef ar y naill law, y rhai nad ydynt gymhwys i'w derbyn i'r Colegau Cenedlaethol ac a aent i'r Bala i ddysgu elfenau gwybodaeth gyffredinol ac ychydig dduwinyddiaeth hefyd; ac ar y llaw arall, y rhai sydd wedi gorphen eu cwrs o addysg yn y Colegau Cenedlaethol ac a aent i'r Bala i astudio duwinyddiaeth yn unig, a bono fel y gellid dysgwyl iddynt hwy wneyd, yn ei ffurfiau ysgolheigaidd; yr wyf yn argyhoeddedig y byddai i hyn iesteirio gwaith yr Athrofa, os nad ei llwyr ddyfetha, fel ysgol dduwinyddol dda. Nid wyf yn dyweyd y byddai yn anhebgorol i'r holl efrydwyr a dderbynid i'r Athrofa eu bod wedi myned trwy un o'r Colegau Cenedlaethol. Gallaf yn hawdd ddychymygu y byddai rhai na buont yn y Colegau hyny, ac na chawsant fanteision i ennill gwybodaeth eang mewn ieithoedd neu wyddoniaeth, er hyny wedi dysgyblu eu meddwl yn ddigonol i ymgymeryd âg astudiaeth fanwl a thrwyadl mewn duwinyddiaeth. Y peth yr wyf yn credu fyddai yn debygol o droi allan yn hytrach yn fethiant, yn sefyllfa bresennol a dyfodol Cymru, ydyw y Coleg cymysg.

Ond os cyfyngir gwaith yr Athrofa i dduwinyddiaeth, y mae yn bwnc o'r pwysicaf i mi i'w ystyried a allwn i yn deg ddysgwyl gweled

sefydlu Athrofa fyddai yn atdynu, heb ronyn o orfodaeth, y myfyrwyr goreu, hyd yn nod ar ol iddynt raddio yn y Colegau Cenedlaethol? Wrth ateb y cwestiwn hwn, drachefn, i mi fy hun, yr oeddwn o anghenrheidrwydd yn cymeryd i ystyriaeth yr amgylchiadau presennol ymhob cyfeiriad. Rhoddais amser i feddwl ac ymgynghori o berthynas iddo. Ond po fwyaf yr ystyriwn ef, yr oedd yr argyhoeddiad yn cryfhau ynof nas gallwn i (nid wyf yn dyweyd dim am neb arall) obeithio gweled ffurfio Athrofa ddigon uchel i atdynu y myfyrwyr goreu, oddieithr nifer fechan iawn, na digon eang i fod yn deilwng o'r cynnydd eithriadol sydd wedi ei wneyd yn y blynyddoedd hyn mewn ymchwiliadau duwinyddol, yn ystyr helaethaf y gair,—o'r hyn leiaf ar hyn o bryd a than yr amgylchiadau presennol, tra na byddai yr Athrofa yn perthyn i'r holl Gyfundeb.

Chwi a welwch i ba gasgliad y mae yr ystyriaethau hyn wedi fy arwain. Pa un a ddaethum i'r penderfyniad cywir sydd bwnc y bydd fy mrodyr, y mae yn dra thebygol, yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd arno, ïe y rhai hyny y mae genyf bob amser fwyaf o ymddiried yn eu barn. Ond nid arferais nac ysgafnder na byrbwylldra, ac yn sicr nid esgeulusais ofyn yn ostyngedig a thaer am arweiniad yr Hwn sydd yn rhoddi doethineb i bawb heb ddannod. Tra yn ddiolchgar fod fy mrodyr yn dangos cymaint o ymddiried ynof, a thra yn coleddu y parch a'r serch dyfnaf atynt, a thra yn dymuno eu gwasanaethu hyd eithaf fy ngallu ymhob modd o fewn fy nghyrhaedd, gorfodir fi i gredu nad ydyw cwmwl yr Arglwydd yn cyfodi heddyw, —ac y mae arnaf ofn rhyfygu myned gam o'i flaen.

Ydwyf, fy anwyl frodyr,
Yr eiddoch yn barchus a ffyddlawn,
T. C. Edwards

Ebrill 5ed, 1889.

Cafwyd ymddyddan maith ar yr atebiad, a phwyswyd ar Dr. Edwards i ail ystyried ei benderfyniad. Yn ganlynol datganodd Dr. Edwards ei farn, ac amlwg oedd fod ei benderfyniad yn derfynol, ac nas gallai ar hyn o bryd weled ei ffordd yn glir i dderbyn galwad y Cyfeisteddfod i ymgymeryd â Llywyddiaeth Athrofa'r Bala. Ar ol gwrando ac ystyried yn fanwl, ac wedi i amryw gyfeillion ymddyddan â Dr. Edwards, cytunwyd yn unfrydol ar y penderfyniad dilynol:—Ein bod fel Cyfeisteddfod, ar ol cymeryd i'n hystyriaeth fwyaf difrifol, ac wedi ymddyddan maith a phwyllog ar yr atebiad a roddwyd gan y Parch. Thomas Charles Edwards, D.D., i'r cais a anfonasom ato i ymgymeryd â Llywyddiaeth ein Hathrofa, ac i fod yn Brifathraw Duwinyddol ynddi, yn dymuno datgan ein cydnabyddiaeth ddiolchgar iddo am y sylw manwl a dalwyd ganddo i'r cwestiwn, a'r pryder mawr y mae yn eglur a ddangoswyd ganddo, i gael allan yr ewyllys ddwyfol gyda golwg ar ei ddyledswydd yn yr achos; a thra nas gallwn lai na theimlo yn ofidus oblegid y penderfyniad y daeth iddo, i anghydsynio â'n cais, eto yr ydym yn gorfod teimlo a chydnabod, ei fod ef wedi dyfod iddo oddiar argyhoeddiad trwyadl ei gydwybod ei fod yn gwneuthur yr hyn a olygir ganddo ef yn oreu, a chyda dymuniad diffuant i wasanaethu, nid yn unig ei genedl, ond ein Cyfundeb ni ein hunain, yn yr amgylchiadau yr ydym ynddynt ar hyn o bryd, yn y modd mwyaf effeithiol; a'n bod o'r galon yn dymuno ar i amddiffyn Rhagluniaeth ddwyfol barhau drosto, ymhob modd, am weddill ei oes; ac y caniateir iddo hir oes i wasanaethu Duw yn yr efengyl am ei Fab, a dilyn ei hynafiaid anrhydeddus, mewn bod yn fwy defnyddiol a llwyddiannus, i ddyrchafu ei genedl mewn gwybodaeth a phob rhinwedd.—3. Gwnaed sylwadau coffadwriaethol am y diweddar Mr. Richard Jones, U.H., Bala, trysorydd lleol yr Athrofa. Penderfynwyd fod llythyr yn cael ei anfon at ei deulu yn datgan ein cydymdeimlad â hwy yn wyneb eu profedigaeth trwy farwolaeth un oedd mor dirion, ffyddlawn, a gwasanaethgar ymhob cylch, ac yn enwedig mewn cysylltiad â chrefydd, a'r Athrofa.—4. Penderfynwyd,—Ein bod yn penodi ei frawd, sef Mr. Edward Jones, Bala, yn Drysorydd Lleol yn ei le, a'i fod ef yn cael ei ychwanegu genym at aelodau y pwyllgor lleol.—5. Gadawyd ail drefniad gyda'r garddwr i ofal y Trysorydd Cyffredinol mewn gohebiaeth â'r pwyllgor lleol.—6. *Dyfodol yr Athrofa.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn rhyddhau dwylaw y ddau athraw yn y Bala gyda golwg ar y modd i gyfranu addysg am y flwyddyn ddyfodol, gan ofyn iddynt roddi cymaint o arbenigrwydd ag sydd yn bosibl i dduwinyddiaeth, gan eu gadael hwy i wneyd pa drefniadau a farnont hwy yn oreu mewn perthynas i addysg glasurol.—7. *Yr Arholiad nesaf am Dderbyniad i mewn i'r Bala.*—Cytunwyd,—Ein bod yn teimlo, tuag at ddwyn y cyfnewidiad sydd yn anghenrheidiol yn nodwedd yr Athrofa i'w throi yn dduwinyddol hollol, na byddo dim ymgeiswyr i'w derbyn i'r Athrofa am y flwyddyn nesaf, ond y rhai fyddont yn alluog i ddyfod i fyny â safle yr ail flwyddyn, ac mai yn nechreu mis Medi nesaf y cynnelir yr Arholiad eleni am fynediad i mewn i'r Bala. Gadawyd ar y ddau Athraw i roddi pob hysbysrwydd ynghylch materion yr Arholiad yn y *Goleuad* a'r *Drysorfa*.—8. Ail benodwyd yr Is-bwyllgor i drefnu ymhellach ynglŷn â'r Arholiadau, y gwobrau, &c., yn y Bala yn y dyfodol, sef y Parch. T. J. Wheldon, B.A., a Mr. W. R. Evans, Wrexham; Proff. Henry Jones, Bangor; y ddau Athraw, a'r Ysgrifenydd.—R. H. Morgan, *Ysg.*

Yn ddilynol traddodwyd anerchiad gwresog gan y Parch. T. C. Edwards, D.D., ar addysg y Weinidogaeth yn Nghymru, a'r pwys ein bod yn cael undeb â'r Deheudir er mwyn sicrhau Athrofa Dduwinyddol deilwng o'r Cyfundeb, a theilwng o dduwinyddiaeth y dyddiau hyn.

XIV. *Y Gronfa Fenthyciol.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn gohirio sylw pellach ar y cynllun cynnygiedig hyd nes y daw llais arno o'r holl Gyfarfodydd Misol.

XV. *Llyfr Tonau Cynnulleidfaol.*—Ar ol peth ymddyddan ar y mater, penderfynwyd, —Ein bod yn cyflwyno yr holl achos o gael Llyfr Tonau Cynnulleidfaol i'r Cyfundeb i sylw y Gymanfa Gyffredinol nesaf.

XVI. *Ymddiriedolwyr Newyddion.*—Darllenwyd y llythyr canlynol oddiwrth J. Bryn Roberts, Ysw., A.S., yn egluro yr anghenrheidrwydd am i'r penodiad hwn gael ei wneyd yn y Gymdeithasfa. Ymddengys fod hyn yn ofynol yn ol Deddf Syr Morton Peto, mewn amgylchiadau lle nad oes titl i'r eiddo, heblaw meddiant am flynyddoedd:—

House of Commons,
8 April, 1889.

Dear Sir,—An application will be made to the Quarterly Association at Menai Bridge to appoint Trustees to Llanrug and one or two other Chapels, and it has been suggested to me that it would be well for me to write an explanation of the necessity. Sir Morton Peto's Act provides that Trustees shall be

appointed in manner prescribed in the Trust Deed of the particular chapel, and if no mode be prescribed, then in such manner as shall be agreed on by the Body. Now in the Chapels referred to there are no Trust Deeds or any deeds at all, the title being one of possession merely, the chapels in most cases having been built on commons. The appointment in such cases therefore would come under the second alternative, and the Trustees should be appointed at a meeting of the Body to which the chapel belongs. Now the Quarterly Association is the only meeting that answers that description. The County Monthly Meeting is not a meeting of the whole Body but of the County district, whereas the chapel belongs not to the district merely but to the whole Body. Of course, wherever there is a Trust Deed prescribing that the chapel is held on the Constitutional Deed, the necessity of applying to the Association does not arise, for in that case the Trust Deed prescribes either expressly or by reference to the Constitutional Deed that the appointment shall be in the Monthly Meeting, and therefore as above shewn the Act requires that the appointment should be made as so prescribed. The application to the Association is only necessary in the rare cases where the chapel is held by possession only, and there is therefore no Trust Deed.

Yours truly,
J. BRYN ROBERTS.

Rev. R. H. Morgan, M.A.

Penodwyd brodyr, ar gynnygiad y Parch. T. J. Wheldon, B.A., a chefnogiad Mr. Robert Rowland, U.H., yn ymddiriedolwyr ar eiddo y Cyfundeb yn Ysgoldy, Dysgwylfa, a Llanrug, Arfon; ac awdurdodwyd y Llywydd i arwyddo yn ngwydd y Gymdeithasfa a dau dyst weithredoedd cyfreithiol yn gwneuthur y penodiadau.

XVII. *Rheolau derbyniad i'r Weinidog aeth.*—Penderfynwyd, mewn atebiad i ofyniad o Gyfarfod Misol Sir Fflint ar y pwnc uchod, mai dwy ran o dair *o holl* eglwysi y Cyfarfod Misol sydd i'w ddeall wrth eiriad y Rheol.

XVIII. *Pwnc Cyfarfod y Pregethwyr.*—Penderfynwyd fod ymddyddan â'r brodyr sydd i gael eu hordeinio ynghylch eu teimladau fel pregethwyr, i fod yn fater dan sylw yn Nghyfarfod y Pregethwyr.

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. O. Thomas, D.D.

DYDD MERCHER, EBRILL 10FED.

Am 9 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr' a Chyfarfod y Blaenoriaid.

Am 10 30 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

XIX. *Brodyr i'w Hordeinio.*—Ymddyddanwyd, gan y Parch. J. Hughes, D.D., ynghylch eu profiad, â'r 11 brawd sydd i'w hordeinio eleni. Rhoddwyd cynghor iddynt gan y Parch. Owen Thomas, D.D. Ar ol cael siorwydd o Gyfarfod y Blaenoriaid am reoleidd-dra eu dewisiad, cytunwyd ein bod yn cyflwyno y brodyr hyn i gael eu hordeinio.

XX. *Ymddiriedolwyr Newyddion.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd enwau brodyr a benodwyd yn ymddiriedolwyr newyddion ar eiddo y Cyfundeb yn Ysgoldy, Cysegr, Dysgwylfa a Llanrug, oll yn Arfon. Arwyddwyd y gweithredoedd cyfreithiol yn gwneyd y penodiadau gan y Llywydd yn ngwydd y Cyfarfod a dau dyst, sef y Parch. John Hughes, D.D., a'r Ysgrifenydd, pa rai a arwyddasant y gweithredoedd.

Am 1 30, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

Dechreuwyd gan y Parch. James Donne.

XXI. *Hanes yr Achos yn Môn.*—Rhoddwyd hanes yr Achos yn ei wedd allanol gan Mr. Samuel Hughes, Bodednyfed, ac yn ei wedd ysbrydol gan y Parch. David Roberts, Gwalchmai. Llawenychai y Gymdeithasfa yn fawr i glywed am sefyllfa gysurlawn yr achos yn y Sir.

XXII. *Diolchgarwch.*—Penderfynwyd yn unfrydol:—Ein bod fel Cymdeithasfa yn talu diolchgarwch i Robert Davies, Ysw., U.H., am ei rodd werthfawr i ni fel Cyfundeb o'r adeilad hardd a drudfawr, ymha un yr oeddym yn ymgynnull ddoe, a'n bod yn dymuno nodded a bendith yr Arglwydd arno, a llawer o gysur a thangnefedd yr Efengyl iddo, hyd ddiwedd ei yrfa.

XXIII. Darllenwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau Trysorfa y Gweinidogion:—

Yr oedd yn bresennol, o *Fôn*, y Parch. John Pritchard a Meistri John Matthews a Samuel Hughes; o *Leyn ac Eifionydd*, y Parch. Edward Lloyd a Meistri John Ellis a Robert Rowland; o *Arfon*, y Parch. O. G. Owen a Meistri Henry Lewis ac Edward Jones; o *Ddyffryn Conwy*, y Parch. John Williams a Meistri John Hughes ac Owen Williams; *O Ddyffryn Clwyd*, y Parchn B. Hughes ac Evan Jones a Mr. Owen Williams; o *Sir Fflint*, y Parch. John Pugh, B.A., a Mr. J. E. Powell; o *Ddwyrain Meirionydd*, y Parch. J. T. Alun Jones, a Mr. William Jones; o *Orllewin Meirionydd*, y Parch. David Jones, a Meistri J. Parry Jones a Morris Jones; o *Drefaldwyn Uchaf*, y Parchn. David Jones, a N. C. Jones; o *Drefaldwyn Isaf*, y Parchn. John Hughes a William Williams; o *Henaduriaeth Trefaldwyn*, neb; o *Henaduriaeth Lancashire*, neb; o *Liverpool*, y Parch. O. J. Owen, M.A., a Mr. John Williams; o *Monchester*, Meistri Robert Lloyd a William Williams.—Etholwyd Mr. Robert Rowland yn Gadeirydd.—1. Cyflwynwyd yr Adroddiad am 1888. Dangosai fod y derbyniadau o'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau yn £946 10s. 10c., a'r llogau yn £1218 15s. 1c., yn gwneyd cyfanswm o £2165 5s. 11c. Yr oedd y taliadau i aelodau a'u teuluoedd yn £1297 5s. 4c.; a'r treuliadau cyffredinol yn £69 10s. 2c.; yn gwneyd cyfanswm o £1366 15s. 6c. Wedi tynu hyny o £2165 5s. 11c., y mae yn aros mewn llaw ar gyfrif y flwyddyn £798 10s. 5c. Gwerth y Drysorfa ar ddiwedd 1888 oedd £26,659 16s. 1c. —2. Penderfynwyd fod yr Adroddiad yn cael ei dderbyn a'i ledaenu fel y blynyddoedd o'r blaen, ac o hyn allan fod yr Adroddiad blynyddol o weithrediadau y Cyfeisteddfod yn cael ei argraffu yn Adroddiad cyffredinol y Drysorfa.—3. Dygwyd i sylw achos dwy eneth i frawd ag oedd yn aelod o'r Drysorfa, yr hwn sydd wedi marw, a'i weddw heb fod mewn ystâd i ymddiried iddi am ofalu am

danynt. Penderfynwyd ein bod, dan amgylchiad mor eithriadol, yn ystyried y plant hyny fel yn wir amddifaid, ac yn gwneyd *grant* at eu cynnaliaeth am y flwyddyn hon o £15; penderfynwyd hefyd fod yr arian yn cael eu talu i swyddogion eglwys Capel Coch, Llanberis, a'n bod yn dymuno arnynt hwy eu defnyddio yn y ffordd[1] a ymddangoso iddynt yn fwyaf doeth er budd y genethod.—4. Galwyd sylw at y ffaith fod yr aelodau i dalu punt bob hanner blwyddyn at y Dryorfa, yn ol Rheol IX., ac nad ydys i olygu fod y bunt sydd yn ddyledus yn Ionawr neu Gorphenaf, i beidio cael ei thalu yn gyflawn, er i'r aelod, cyn diwedd yr hanner blwyddyn, fod wedi cyrhaedd 70 mlwydd oed. Hefyd eglurwyd mai yn ol yr wythnosau yr ystyrir fod y taliadau i'w gwneyd i aelodau allan o'r Drysorfa, yn ol Rheol V., adran 1, ac nid yn ol y dyddiau y dygwyddont fod mewn afiechyd. —5 Ystyriwyd ceisiadau oddiwrth dri o frodyr oeddynt, o herwydd amgylchiadau neilldiol, heb ymuno â'r Drysorfa yn ol Rheol IX., yr hanner blwyddyn gyntaf ar ol eu hordeiniad; penderfynwyd fod y tri yn cael ymuno, ar y dealltwriaeth eu bod yn dechreu eu taliadau o adeg eu hordeiniad.—6 Bu sylw ar y cyfeiriad yn Rheol XVII., adran 8, at gael *Trustdeed* i'r Drysorfa: addawodd y Trysorydd Cyffredinol ymholi ynghylch hyny erbyn cyfarfod nesaf y Cyfeisteddfod.—7. Bu llawer o ymddyddan gyda golwg ar y Rheolau, gan fod yr adeg wedi dyfod i wneyd yr adolygiad pum'-mlynyddol arnynt. Heb ddyfod i unrhyw benderfyniad ar hyny, cydolygwyd i gymeryd yr holl achos dan ystyriaeth, a chyfarfod ynglŷn â'r Gymdeithasfa nesaf, a gwneuthur adroddiad. Ystyrid mai dymunol fyddai i unrhyw aelod a fwriado gynnyg unrhyw gyfnewidiad pwysig ar y Rheolau, anfon rhybudd o hyny bythefnos cyn y Gymdeithasfa i'r Ysgrifenydd Cyffredinol, fel y gallo yntau ei anfon i'r aelodau wrth alw y cyfarfod.—8. Ymofynwyd beth oedd yn cael ei wneyd tuag at gasglu y £4000 i gyfarfod â chynnygiad caredig Mr. Davies, Llandinam. Ni chaed fod eto ond £51 5s. 9c. yn 1886, a £122 7s. 4c. yn 1887, a £396 0s. 10c. yn 1888,—yn gwneyd cyfanswm o £569 13s. 11c., —wedi dyfod i law y Trysorydd Cyffredinol, er y deallid fod y rhan fwyaf o'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau yn ymsymud gyda hyn. Annogid yn daer ar fod ymdrech egnïol yn cael ei wneyd i gwblhâu y gwaith hwn ymhob man erbyn diwedd 1890. Dymunwyd hefyd ar fod cyfrif yn cael ei gadw o'r holl gyfraniadau, fel y galler yn y diwedd wneyd adroddiad llawn, yn cynnwys enwau yr holl danysgrifwyr at yr ymdrech neilldiol yma.—9. Pasiwyd pleidlais gynhes o ddiolchgarwch i'r Trysorydd Cyffredinol, Dr. Gee, am ei wasanaeth gwerthfawr i'r Drysorfa y flwyddyn ddiweddaf; hefyd i'r Ysgrifenydd Cyffredinol; a'r Ysgrifenydd Arianol; a'r Ymddiriedolwyr; a Meistri John Williams, a David Hughes, oeddent wedi gwneyd ymchwiliad i *securities* y Drysorfa; ynghyd a'r Archwilwyr; a phenodwyd yr un personau i'r swyddau hyn am y flwyddyn ddyfodol.—10. Diolchwyd yn garedig i Mr. Rowland am ei wasanaeth fel Cadeirydd.—DANIEL ROWLANDS, *Ysgrifenydd Cyffredinol*.

Penderfynwyd fod yr Adroddiad yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo.

XXIV. *Achos Seisonig Llandudno.*—Traddodwyd areithiau hyawdl gan y Parchn. C. T. Astley, M.A., a James Donne, yn gosod yr achos uchod ger bron. Penderfynwyd, fod Mr. Astley a Mr. Donne i gymeryd y mater hwn dan sylw eto yn eu Cyfarfod Misol, a'u bod yn ei ddwyn mewn ffurf fwy addfed i'r Gymdeithasfa nesaf, a'n bod yn dadgan ein cydymdeimlad trwyadl â Mr. Astley yn ei lafur gyda'r achos hwn.

XXV. *Cyfeisteddfod y Blaenoriaid.*—Llywydd, Mr. Edward Jones, Bangor.

1. Darllenwyd cofnodau y Cyfarfod diweddaf, a chadarnhäwyd hwy.—2. Ymofynwyd i reoleidd-dra dewisiad y brodyr sydd i'w hordeinio, a chaed atebiad cadarnhaol am yr oll o'r brodyr. Ynglŷn â hyn, caed fod ammheuaeth mewn rhai siroedd am ystyr y rheol, a dymunwyd ar fod pawb yn deall ac yn gweithredu yn ol y rheol fel y mae hi ar lawr, sef mai *dwy ran o dair o eglwysi y sir*, ac nid y nifer fyddo yn pleidleisio, sydd i'w ddeall; hefyd, os bydd swyddogion rhai o'r eglwysi yn methu a bod yn bresennol yn y Cyfarfod Misol lle y derbynir y pleidleisiau, mai dyledswydd y cyfryw ydyw anfon eu pleidlais i Ysgrifenydd y Cyfarfod Misol cyn y Cyfarfod.—3. Dewiswyd y Parch Evan Jones, Caernarfon, i draddodi yr Araeth ar Natur Eglwys, a'r Parch. Dr. Hughes, Caernarfon, i roddi y Cynghor yn y Cyfarfod Ordeinio nesaf yn Ninbych.—4. Cafwyd gair o hanes y Gymdeithas Yswiriol. Hysbyswyd fod amryw gapelau o'r newydd wedi eu hyswirio eleni.—5. Galwyd sylw at farwolaeth Mr. John Bright, a dymunid ar fod y Gymdeithasfa yn pasio pleidlais o gydymdeimlad â'r teulu. Mr. Richard Davies, Arglwydd Raglaw Môn, i gynnyg hyn.—6. Galwyd sylw at yr ymchwiliad a wneir i'r gwaddoliadau elusenol yn bresennol yn Nghymru, a hefyd at yr ymchwiliad (y *Royal Commission*) a wneir i Ddeddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru, a phenderfynwyd,—Ein bod yn annog y Cyfarfodydd Misol i benodi rhyw frawd neu frodyr i ofalu am hyn ymhob sir, a bod y cyfryw yn gofalu, nid yn unig na byddo camdystiolaethau yn cael eu derbyn, ond fod y tystiolaethau yn gyfryw ag a fyddo yn gosod y naill achos a'r llall yn deg o flaen y Llywodraeth.—7. Ni chaed amser i ymdrin â'r mater gohiriedig, ond caed ychydig sylwadau annogaethol i roddi yr ymgeledd gymhwys ac anghenrheidiol i'r lleoedd gweiniaid yn y gwahanol siroedd.—OWEN WILLIAMS, *Ysg.*

Penderfynwyd,—Ein bod yn derbyn ac yn cymeradwyo yr Adroddiad uchod.

Royal Commission.—Galwyd sylw difrifol at yr ymchwiliad sydd yn cael ei wneyd, ac yn debyg o gael ei wneyd gan y Llywodraeth i sefyllfa Gwaddoliadau Elusenol ac i weithrediad Deddf Cau y Tafarndai ar y Sabbath yn Nghymru Hyderid yn fawr y byddai pob Cyfarfod Misol yn gwrando ar awgrymiad Cyfeisteddfod y Blaenoriaid gyda golwg ar y pethau hyn.

XXVI. *Cau y Tafarnau ar y Sabbothau.*—Ar ol peth ymddyddan ar y mater hwn, penderfynwyd, fod y Parchn. John Hughes, D.D., a Daniel Rowlands, M.A., a Richard Davies, Ysw., i dynu allan benderfyniad i gael ei gyflwyno i'r Gymdeithasfa boreu drannoeth. (Gwel Penderfyniad XXXIII.)

XXVII.—*Argraffiad Newydd o Feddiannau y Cyfundeb.*—Yn unol â chenadwri Trefaldwyn Uchaf, penderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno y pwnc o'r dymunoldeb o gael argraffiad newydd o *Feddiannau y Cyfundeb* i sylw y Gymanfa Gyffredinol.

XXVIII. *Hanes yr Hen Bregethwyr.*—Hysbyswyd, mewn canlyniad i ohebiaeth a fu ar ol Cymdeithasfa y Dyffryn, fod Mri. Hughes, Wrexham, yn barod i ddwyn allan ail argraffiad o'r rhan gyntaf o Pennod xvi. yn *Nghofiant John Jones, Talysarn*, am 1s. mewn amlen, a 1s. 6c. mewn llian, a hyny ar eu cyfrifoldeb eu hunain, ond i'r Gymdeithasfa roddi pob cefnogaeth iddynt. Penderfynwyd, Ein bod yn derbyn cynnygiad y cyhoeddwyr gyda diolchgarwch, ac yn addaw bod yn bob cefnogaeth i ledaeniad y llyfr.

XXIX. *Coffadwriaeth y diweddar Barch. Joseph Thomas, Carno.*—Cytunwyd mai gwell fyddai i hyn fod yn destyn y Cyfarfod bore drannoeth, yn hytrach na'r erthygl rhif 8 o'r *Cyffes Ffydd*—"Dyn yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd creadigol."

XXX. *Cofion a Chydymdeimlad.*—Penderfynwyd,—Ein bod, fel Cymdeithasfa, yn anfon ein cofion a'n cydymdeimlad at y Parchn. Robert Hughes, Gaerwen; Robert Davies, Amwythig; Edward Lloyd, Wolverhampton; Hugh Roberts, Bangor; John Morris, Gronant; ac Edward Matthews, Bridgend; yr hwn a rwystrwyd gan afiechyd i fod yn bresennol. Penderfynwyd hefyd fod y Llywydd a Mr. John Davies, Pendleton, yn cael eu hanfon dros y Gymdeithasfa i ddadgan cydymdeimlad â'r Parch. Joseph Jones, Menai Bridge.

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. Benjamin Hughes, Llanelwy.

Dydd Iau, Ebrill 11eg.

Am 8 30 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. Evan Jones, Adwy'r clawdd.

XXXI. *Llyfr Newydd.*—Galwyd sylw at *Flashes from the Welsh Pulpit*—sef llyfr yn cynnwys detholion o bethau mwyaf tarawiadol pregethau Cymreig, wedi eu cyfieithu i Saesoneg gan y Parch. J. Gwynoro Davies, Abermaw, a'i gyhoeddi yn gyfrol ddestlus gan Mri. Hodder & Stoughton, Llundain. Annogwyd i'w phrynu.

XXXII. *Brodyr Ymadawedig.*—Gwnaed sylwadau ar y diweddar Dr. Davies, Caernarfon, ac hefyd yn fwy helaeth ar y diweddar Barch. Joseph Thomas, Carno, gan y Parchn. J. Hughes, M.A., a David Jones, Machynlleth; T. C. Edwards, D.D., a John Hughes. D.D. Penderfynwyd yn unfrydol fod cydymdeimlad y Gymdeithasfa yn cael ei ddadgan tuag at deuluoedd y brodyr ymadawedig hyn.

XXXIII. *Cau y Tafarndai ar y Sabbath.*—Mabwysiadwyd y penderfyniad dilynol:—Fod y Gymdeithasfa hon yn llawenhau wrth ddeall fod ein Llywodraeth yn bwriadu penodi Dirprwyaeth i chwilio i mewn i weithrediadau y Ddeddf i gau Tafarnau ar y Sabbath, ac yn hyderu y gwneir y ddirprwyaeth i fyny o wŷr diduedd. Os gwneir hyny, yr ydym yn dra hyderus fod y ddeddf yn y lleoedd y gweinyddir hi yn unol â'r darpariadau, wedi ei phrofi yn effeithiol, ac y gall ymchwiliad hefyd fod yn foddion i gywiro ynddi y pethau a gydnabyddir genym yn ddiffygiol. —Awgrymwyd mai dymunol iawn fyddai i'r Methodistiaid sydd ar y Cynghorau Sirol ofalu fod pobpeth yn cael ei wneyd er mwyn sicrhau tystiolaeth gywir ger bron yr Ymchwilwyr ar y pwnc pwysig hwn.

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. T. C. Edwards, D.D.

R. H. Morgan, *Ysgrifenydd.*

CYMANFAOEDD Y PASC.

LLUNDAIN.

Cynnaliwyd Cymanfa y Pasc yn Llundain yn y drefn arferol. Cynnaliwyd y Cyfarfod Eglwysig cyffredin yn New Jewin, boreu Gwener y Groglith, dan lywyddiaeth y Parch. J. Elias Hughes, M.A. Y mater oedd 1 Ioan ii. 20: "Eithr y mae genych chwi eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw, a chwi a wyddoch bob peth." Caed cyfarfod rhagorol. Pregethwyd ddydd Gwener, y Sabboth a Llun, yn y gwahanol gapelydd, gan y Parchn. D. C. Davies, M.A., Trefecca; G. Parry, D.D., Aberystwyth; T. J. Wheldon, B.A., Ffestiniog; W. James, Aberdar; Owen Evans, Colwyn Bay; J. J. Roberts, Portmadoc; a John Evans, Llanfaircaereinion. Caed Cymanfa lewyrchus.—*X. Y. Z.*

MANCHESTER.

Cynnaliwyd y Gymanfa hon eleni ar y dyddiau arferol, a gweinyddwyd yn y gwahanol gyfarfodydd gan y Parchn. Thomas Levi, Aberystwyth; W. J. Williams, Hirwaen; Ellis Edwards, M.A., Bala; a John Williams, Brynciencyn. Yn y Cyfarfod Eglwysig Cyffredinol, bore dydd Gwener y Groglith, yr hwn a gynnaliwyd yn y Roby Schoolroom, llywyddwyd gan Mr. Robert Lloyd, a chyflwynwyd yr Adroddiad blynyddol am 1888 gan y Parch. W. James, B.A. Dangosai yr Adroddiad mai rhif yr aelodau o fewn cylch y Cyfarfod Misol ar ddechreu y flwyddyn hon oedd 1577, yr hyn sydd yn gynnydd o 24 ar y flwyddyn ddiweddaf. Casglwyd yn ystod y flwyddyn at y Weinidogaeth, £1217 4s. 9½d; ac at dalu dyled y Capelau, £1378 13s. 6d; a derbyniwyd oddiwrth yr eisteddleoedd, £375 9s. 3d. Yr oedd cyfanswm y derbyniadau at bob achos yn £3661 8s. 10½d. Gwnaed sylwadau ar yr Adroddiad gan y Parch. Thomas Levi. Agorwyd y mater penodedig i gael ymdriniaeth arno, sef

Gwyrthiau Crist, yn eu haddysg a'u gwersi ymarferol, gan y Parch. Ellis Edwards, mewn araeth alluog, a gwnaed sylwadau rhagorol arno ymhellach gan y gweinidogion dyeithr eraill. Cynnaliwyd Cyfarfod Dirwestol nos Sadwrn yn Higher Ardwick, a phregethwyd yn y gwahanol gapelau nos Iau, nos Wener, a'r Sabbath trwy'r dydd, gan y gweinidogion a enwyd.

Bwrdd y Golygydd.

TREFNYDDIAETH Y METHODISTIAID WESLEYAIDD A CHALFINAIDD.

At Olygydd y Drysorfa.

Fel y mae yn hysbys i ddarllenwyr y Drysorfa fod ar hyn o bryd ymdrechion yn cael eu gwneuthur genym fel Cyfundeb mewn gwahanol gyfeiriadau er hyrwyddo yr achos yn ei wahanol ranau, nid annyddorol, fe allai, a fyddai i mi roddi ffrwyth ymddyddan a gymerodd le rhyngof â gŵr o gyfrifoldeb yn perthyn i'r Wesleyaid ar ddau fater sydd yn tynu sylw yn ein plith y dyddiau hyn. Y ddau fater ydyw

1. *Y Drysorfa o* Arian Dilog *er rhoddi help i eglwysi sydd dan faich o ddyledau ar eu haddoldai.*

Fel y mae yn ofidus meddwl, nid oes yn perthyn i ni yr un eto, ac yr ydym drwy hyn wedi ffurfio ariandŷ o'r dosbarth cyntaf i lu o hen Gymry sydd yn orbryderus am *le diogel* i roddi eu harian ar log. Ymhlith y dosbarth hwn y mae capelau y Methodistiaid yr *investment* mwyaf diogel o un sydd yn Nghymru. Ac felly yn ddiau y maent. Yr un pryd, nid gwir yw mai dyma y lle y ceir y llog uchaf, a'r hyn sydd yr un mor wir nad er mwyn cael *safe investment* i ryw hanner cybyddion ar hyd a lled y wlad yr adeiledir ein capelau ninnau ychwaith, fel yr haerwyd yn y Senedd rai blynyddau yn ol. Ond yr hyn yn unig y cyfeiriaf ato yw, Ai ni fyddai yn bosibl bellach i ni ddysgu gwers oddiwrth ein brodyr y Wesleyaid gyda golwg ar gael Trysorfa o'r fath yn ein plith? Gallai fod yn ormod o orchwyl i ni yn syniad rhywun, gan fod genym eisoes lawer o bethau eraill mewn llaw. Yr wyf yn hyderus yn dywedyd nad yw mewn un modd, ac nid yw fy hyder ychwaith wedi ei seilio ar ryfyg nac un math o anystyriaeth. Wele un ystyriaeth.

Bedair blynedd ar hugain yn ol nid oedd gan y Wesleyaid, fel y'm hysbyswyd, un math o Drysorfa fenthyciol o'r natur yma yn nhalaeth Gogledd Cymru. Yn awr y mae yn eu meddiant Drysorfa o ddeng mil o bunnau, y rhai a weinyddir gan bwyllgor penodedig, ac a fenthycir yn wahanol symiau ac i'w talu yn ol yn symiau penodol mewn deng mlynedd o amser. A'r hyn a'm tarawodd â pheth syndod yw nad yw y pwyllgor wedi dyoddef unrhyw golled oddiwrth yr eglwysi gyda hyn. Un rheswm am hyn yw, nad ydynt yn eu cael ond ar yr ammod eu bod yn talu eu dyled yn llwyr mewn amser penodol. Heblaw hyn y mae ganddynt drysorfa i estyn rhodd iddynt o £200 i £350 er gorphen eu gwaith. Yr wyf yn deall fod hyn wedi ei wneuthur mewn amryw o brif drefi y Gogledd ganddynt yn ddystaw bach, heb waeddi "Amen" na "Gogoniant," er fod gweithredoedd fel hyn yn rhai tra gogoneddus a hyfryd. Os iawn y deallais, y mae y drysorfa i estyn *rhodd* yn perthyn i Gyfundeb y Wesleyaid yn gyffredinol trwy Loegr a Chymru. Hyfryd oedd clywed hefyd mai trwy fod yn ddiwyd i wneyd y casgliad yn ei amser y daethant i feddiant o'r drysorfa o £10,000. Gobeithiaf y dechreuir gyda ninnau allan o law heb wneyd llawer o ystwr gydag ef. Pe byddai i bawb ymuno â'r gymdeithas yswiriol a berthyn i ni, byddai hon yn fuan yn ffynnonell o nerth i ni, fel yr amcenir gan y gŵr da a'i cychwynasant. Ychydig, yr wyf yn ofni, sydd yn deall mai dyma un peth oedd yn ngolwg y rhai a ddygasant i fod yr *Assurance Trust Fund* sydd genym fel enwad. Rhyfedd yw, y mae genym eto rai dynion da yn ein plith nad ydynt yn ceisio yr eiddynt eu hunain, ac yn eu plith y mae y rhai hyn y cyfeiriaf atynt.

2. Y mater arall a fu dan sylw ydoedd Trysorfa y Gweinidogion.

A'r ddau beth cyntaf a ddywedodd am ein Trysorfa ni ydoedd, fod ein pregethwyr ni yn talu rhy fach yn flynyddol i'r Drysorfa er ei gwneyd yn gynnaliaeth sylweddol erbyn afiechyd neu henaint; ac na ddylesid talu o honi fel y gwnaed hyd yn ddiweddar. Bu y gweinidogion Wesleyaidd yn talu yn debyg, ond suddo a wnaeth; a bu raid iddynt dalu yn flynyddol £6, ac felly y mae yn awr. Ac fel y gallesid dysgwyl, y mae eu taliad hwy (y Wesleyaid) i'w gweinidogion mewn afiechyd neu henaint yn llawer amgen i'r hyn ydyw yn ein plith ni. Y mae hyny i'w ganfod ar unwaith, pan y deallir fod ganddynt ddwy drysorfa tuag at ddarpar ar gyfer eu gweinidogion mewn afiechyd neu henaint. Yn un peth, y mae ganddynt Drysorfa y Gweinidogion, i'r hon nad oes neb ond gweinidogion yn unig yn cyfranu, yr hon a elwir *Annuity Fund*, ac y mae eu taliad iddi, fel y dywedwyd, yn £6 yn flynyddol. Gyda hyn, ond yn hollol arni ei hun, y mae ganddynt drysorfa arall, yr hon a elwir *Auxiliary Fund*. Gwneir hon i fyny o roddion gwirfoddol yr aelodau. A daw rhodd o'r ddwy yma mewn afiechyd, os bydd gŵr yn weinidog ac wedi uno â'r flaenaf. Yn niffyg hyn, caiff rodd yn unig iddo ef ei hun neu ei deulu o'r ddiweddaf a nodwyd. Yn awr, cymerer fod gweinidog

yn cael ei analluogi gan afiechyd neu henaint i ddilyn ei weinidogaeth, y mae yn derbyn yn ol y drefn a ganlyn o'r ddwy *Fund*:—Bydd ei ran o'r *Annuity Fund* yn ol y blynyddoedd y bu yn y weinidogaeth, a £14 o *bonus*, i bob un ar hyny. Tybier fod y gweinidog a fydd yn disgyn arni o herwydd ei afiechyd wedi bod ddeng mlynedd ar hugain yn y weinidogaeth, caiff £30 a £14 o'i Drysorfa ei hun, neu yr *Annuity Fund;* yna caiff rodd o £45 o'r *Auxiliary Fund* at hyny, a dyna a fydd ei holl *income* iddo ef, ac i'w briod ar ei ol tra y parhao yn weddw. Tybier fod un o'r gweinidogion yn cael ei daraw yn glaf ymhen wythnos neu bythefnos ar ol y Gynnadledd Flynyddol, caiff fyw yn nhŷ y Corff am y flwyddyn hono, a derbyn cyflog fel pe byddai yn iach, a thelid *bill* y *doctor* gyda hyny. Ymhen y flwyddyn, os bydd yn parhâu yn glaf, y mae yn cael ei gyfrif yn uwchrif *(supernumerary)*, a derbynia gyflog neu rodd o'r ddwy drysorfa a nodais. Os bydd yn gallu pregethu, goreu oll, yn ei gylchdaith ei hun neu unrhyw gylchdaith arall; ond nid yw i ddysgwyl, fel ei gydnabyddiaeth, ond ei dreuliau teithio yn unig.

Nid äf yn bresennol i mewn i'r drefn sydd gan ein brodyr y Wesleyaid er darpar ar gyfer plant eu gweinidogion, am nad yw ar y pwnc dan sylw, er yn dwyn cysylltiad agos â hyn. Yn unig crybwyllaf un reol, sydd yn dangos pa mor lygadog yw eu harweinwyr i estyn oes a chynnal y gweinidog gyda ei waith, rhag disgyn i fod yn uwchrif yn gynt na phryd. A dyma y rheol,—Wedi i weinidog fod am ddeng mlynedd ar hugain yn y weinidogaeth, a bod ei iechyd yn parhâu, y mae yn derbyn yn flynyddol, tra y bydd yn ei waith, £10 yn ychwanegol at ei dreuliau teithio.

Wrth derfynu, ni raid i mi ddyweyd fod ein brodyr lleiaf hyn (o ran rhif) yn tra rhagori yn hyn, fel mewn lluoedd o bethau eraill, na chaf, ar hyn o bryd, eu nodi. Yr wyf yn eu hysgrifenu yn unig er mwyn ein hymannog i gariad a gweithredoedd da. Tybed fod rhywrai eto yn ein plith ni ag ydynt yn breuddwydio ein bod, fel Cyfundeb yn Nghymru, yn well na neb ymhob ystyr yn ein cydnabyddiaeth o'r weinidogaeth a'r achos yn gyffredinol? Dyma enwad sydd yn gyfoed i ni, er ei fod y lleiaf, neu yn un o'r lleiaf, o'r llwythau yn Nghymru, wedi myned flynyddoedd o'n blaen. Y mae yn bryd, ïe, yn llawn bryd, i ni dewi a son am ein tlodi, canys nid yw hyn yn wir am danom. Y mae i'w briodoli, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, i rywbeth arall ynom fel pregethwyr a blaenoriaid. Gwyliwn rhagddo. Meiddiaf ddyweyd fod aelodau eglwysig y Methodistiaid yn esiampl mewn deall, ac ufudd-dod i'w swyddogion ymhob peth a roddir ger eu bron i'w wneuthur gyda yr achos, i holl eglwysi Ymneilduol y deyrnas. A hawdd fydd ei brofi os bydd galw am hyny.—Yr eiddoch, &c.,

S. O.

GAIR AT ARCHDDIACON SIR GAERNARFON.

Anwyl Frawd,—Gwelsom lythyr hynod o afaelgar o'ch eiddo yn y Drysorfa am fis Mawrth, fel rhyw wrth-darawiad i lythyr y *Blaenor* yn mis Chwefror. Ond nid oes a wnelom ni â'r ddadl: ond y pethau a'n tarawodd ni fwyaf oedd *dau* sylw; y darluniad cryf a nerthol o weinidogaeth y diweddar Barchedig Robert Roberts, Clynnog. Buasai yn dda iawn genym gael chwaneg o hanes y gŵr gwerthfawr hwn genych; yr ydym yn deall ar eich llythyr eich bod chwi trwy eich rhieni yn alluog i wneyd hyny.*

Y peth arall ydych yn ei ddarlunio nes ein dychryn bron, oedd geiriau y graig yn ateb y gweinidog pan yn pregethu yn Sassiwn Bangor, ac i hyny fod yn foddion i droi y gŵr boneddig o Sais. A gawn ni wybod pa eiriau yn fwyaf uniongyrchol oedd y rhai hyny oedd y graig yn ateb?

Cofied yr *Archddiacon* nad ydym yn ammheu yr un iot o'i eiriau; ond cawsom y pleser mwyaf o ddarllen ei lythyr; nid unwaith na dwywaith y darllenasom ef.—Ydwyf,

Diacon o'r Deheudir.

---

* Bydded hysbys i'r *Diacon* fod cyfrol wedi ei dwyn allan, er's tua phedair blynedd yn ol, yn cynnwys pob peth a ellid gasglu oddiar draddodiad ac ysgrifen am y Parch. Robert Roberts, Clynnog. Cynnwysa ei Gofiant gan ei Nai, y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, erthygl ar ei gymeriad fel pregethwr gan Eben Fardd, sylwadau ar yr un mater gan y diweddar Barch. J. Hughes, Liverpool y Parchn. Richard Jones, Wern; Robert Jones, Llanllyfni; a Dr. O. Thomas; Adgofion, &c., Llythyrau, a thros hanner cant o'i Bregethau, na buont (oddieithr dwy neu dair) yn argraffedig o'r blaen. Y mae y llyfr i'w gael oddiwrth Mr. William Lewis, Argraffydd, Penygroes, Sir Gaernarfon.

Bywgraffiaeth.

MR. JOHN JONES, HEOL Y FARCHNAD, CAERGYBI.

Gan y Parch. W. R. Jones, *Caergybi.*

Mab ydoedd Mr. John Jones i John a Mary Jones, Bryn-y-cyrff, Llanfair P.G., Mon, ac efe ydoedd yr hynaf o saith o blant. Ganed ef Medi 5, 1817. Er fod ei rieni yn bobl fucheddol, nid oeddynt, ar y pryd hwnw, yn aelodau eglwysig, felly ni chafodd efe ei ddwyn i fyny o'i febyd gyda chrefydd. Ond daeth at grefydd yn bur ieuanc, ac efe oedd y cyntaf o'r teulu i ymuno â'r eglwys, a chafodd fyw i weled yr oll yn dilyn ei esiampl, ac amryw o honynt hwy, a'u teuluoedd, yn troi yn

ddefnyddiol gyda'r gwaith. Yn ol ei adroddiad ef ei hunan wrthym, bu pan yn ieuanc iawn yn ddeiliad argyhoeddiadau dwysion. Daethai ar draws copi o *Dragywyddol Orphwysfa'r Saint* gan Baxter, hen lyfr ei daid, gellid meddwl. Darllenodd lawer arno, a bu swn geiriau titl un o bennodau y llyfr hwnw yn swnio yn ei glustiau am fisoedd, pan yn fachgen, sef: "Trueni y rhai a gollant yr orphwysfa hon." Tua'r adeg hono gwrandawodd, gyda theimladau dwysion iawn, amryw bregethau, a'r rhai hyny, yn ol arferiad hen weinidogion haeddbarch y dyddiau hyny, gan mwyaf, yn bregethau taranllyd dros ben. Pregethent ar y fath destynau a'r rhai canlynol:—"Nid ymryson fy Ysbryd I â dyn yn dragywydd," "Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl?" &c. Clywsai yntau bregethau taullyd ac argyhoeddiadol ar y testynau hyn, a rhai tebyg, nes peri anesmwythder rhyfedd yn ei feddwl. Yr ydoedd ganddo goffa byw iawn, hyd ei fedd, am bregethau hynod a wrandawsai yn y blynyddoedd hyny; ac nid oes betrusder genym na ddarfu i weinidogaeth daranllyd, ol a blaen i'w argyhoeddiad, fod yn foddion, nid yn unig i roddi *cychwyniad* i'w grefydd, eithr hefyd i roddi *furf* neilldiuol iddi, canys bu gan wirioneddau difrifol crefydd afael neilldiuol ar ei feddwl ef ar hyd ei oes. Nid ydoedd, o duedd naturiol, yn bruddglwyfus mewn un modd, eto yr oedd gan y fath wirioneddau â byrder oes, dyeithrwch angeu, manylder y farn, a mawredd tragywyddoldeb, swyn neilldiuol i'w feddwl ef; o'r gwirioneddau hyn, gan mwyaf, y tynai gymhellion, ac yn y rhai hyn y gloewai saethau wrth gynghori ac annog yn erbyn pechodau. Yn y flwyddyn 1834, pan yn fachgen 17 oed, ymunodd â'r eglwys Fethodistaidd yn Llanfair; rhoddes ei law ar yr aradr, ac nid edrychodd byth o'i ol. Nid oedd yn weddus, yn marn y bobl dda y pryd hyny, roddi sylw ebrwydd i rai ieuainc iawn, pan yn ymuno â'r eglwysi; yr oedd eisieu prawf trwyadl arnynt. Felly bu yntau am amser yn dilyn heb i'r frawdoliaeth wneyd nemawr o sylw o hono; o'r diwedd y mae hen frawd o ddiacon yn tori allan, yn un o'r cyfarfodydd eglwysig, ac yn dyweyd, "Yn siwr y mae rhywbeth rhyfedd iawn ar y bachgen yma, y mae o yn fy nilyn i o hyd, i bob man." Caniatawyd iddo le yn y tŷ "ar brawf," ac yno y bu, yn ol ei dystiol aeth ef ei hun, am rai misoedd heb nemawr sylw pellach. Modd bynag, wrth weled ei astudrwydd a'i ddichlynedd, y mae yn cael ei gyflawn dderbyn, a'r noswaith y derbyniwyd ef gelwir arno i ddybenu y seiat drwy weddi. Y pryd hyny treulid yr oedfa nos Sul yn gyfarfod gweddi, a'r nos Sabboth dilynol i noswaith ei dderbyniad, fe alwyd ar "John Bryn-y-cyrff" i gymeryd rhan yn y cyfarfod gweddi; ac yn ol ei arfer, byth wedi hyny, ufuddhaodd yntau. Boreu y Llun canlynol, yn ei gartref, annogai ei dad ar i'w fam ddwyn y Bibl i'r bwrdd, er mwyn i'r "bachgen gadw dyledswydd," yr hyn a wnaeth yntau yn ngwydd yr holl deulu, ac amryw ddynion a ddygwyddent fod yno yn gweithio ar y pryd. Yr hyn sydd yn gwneuthur hyn yn dra tharawiadol i'r rhai oedd yn ei adnabod ef ydyw, na phallodd y tân a chynneu ar yr allor deuluaidd, lle bynag y byddai John Jones, o hyny hyd yr adeg yr analluogwyd ef gan afiechyd, yn niwedd ei oes. Pell fyddai efe oddiwrth fostio o hyn, nac o unrhyw beth arall, eto gwyddom y byddai yn darllen ar ddyledswydd, bob boreu, bennod o'r Testament Newydd, a phob hwyr bennod o'r Hen Destament, ac iddo ddarllen y Testament Newydd dair a deugain o weithiau, a'r Hen Destament bymtheg waith drosodd! Y fath wers i grefyddwyr y dyddiau hyn! Y mae hyn yn rhoddi cyfrif, pe heb ddim arall, paham yr oedd John Jones yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau.

Ar ddydd Nadolig, yr un flwyddyn ag y daeth at grefydd, sef 1834, ymunodd â'r Gymdeithas Ddirwestol, a buan iawn y daeth yn ddirwestwr zelog, yn llwyrymwrthodwr allan ac allan, ac yn areithiwr tanbaid ar ddirwest, a pharhäodd felly trwy gydol ei oes. Cofia rhai, yn ddiau, sydd yn dygwydd ei oroesi, am ei anerchiadau dirwestol yn y blynyddoedd hyn, pa mor ddigêl a phenderfynol oeddynt i ddynoethi y drwg o feddwdod, a pha mor gynhes a pherswadiol oeddynt o blaid dirwest. Nid ydoedd pleidio dirwest yn beth mor boblogaidd y pryd hyny ag yn awr, ac yr ydym yn cofio ei glywed yn dyweyd, mai prin y diangodd yntau heb dramgwyddo, ie, rhai Cristionogion, ysywaeth, o herwydd llymder ei sylwadau yn erbyn ymyfed. Yr ydoedd John Jones yr un oed fel dirwestwr ag ydoedd fel Cristion; edrychai efe ar ei lwyrymwrthodiad yn cyfodi o'i grefydd, yn rhan o'r hunanymwadiad hwnw a ofynir gan bob un o gaulynwyr Mab Duw. Wedi gweithio fel hyn yn egnïol gyda chrefydd, a phob symudiad daionus arall, dewiswyd ef yn flaenor gan eglwys Llanfair. Cofier, nid mor fynych y pryd hyny y dewisid dyn ieuanc wyth ar hugain oed yn flaenor! Y mae tocyn ei swyddogaeth, fel "Golygwr Cymdeithas y Methodistiaid Calfinaidd yn Llanfair, Swydd Fôn," yn awr ger ein bron, wedi ei arwyddnodi gan y Parchedig Robert Hughes, Gaerwen, yn mis Awst, y flwyddyn 1845. Felly yr oedd yn flaenor er ys tair a deugain o flynyddoedd; a phan fu farw, yr ydoedd yr hynaf, oddigerth un, o flaenoriaid Ynys Môn.

Ar yr 20 o Fehefin, 1851, ymunodd mewn glân briodas â Miss Mary Pritchard, Gwagy-nöe, Abererch, ger Pwllheli, yr hon a fu yn wir ymgeledd gymhwys iddo ar hyd ei oes, a'r hon sydd yn awr wedi ei gadael yn weddw hiraethus i deimlo chwithdod mawr am dano. Yn 1851 symudodd i Gaergybi, lle, o hyny allan, y treuliodd y gweddill o'i oes, yn flaenor defnyddiol a gweithgar yn Hyfrydle, yn was da a ffyddlawn yn yr holl dŷ, yn ddiwyd yn y moddion, yn zelog

gyda'r Ysgol Sabbothol a Dirwest, yn danbaid yn erbyn pob pechod, yn gynghorwr yr ieuainc, yn gysurwr yr hen, â gair da iddo gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Syniai pawb yn y dref yr anneddai ynddi mai "gŵr i Dduw o'r gwraidd oedd." Gweddiodd lawer dros y dref, cadwai lygaid eiddigus ar bob arferion llygredig a gyfodent eu penau ynddi, yn enwedig ymysg yr ieuenctyd; ac er yn hallt weithiau, pan fyddai zel tŷ Dduw yn ei ysu, eto ni throediodd daear ei dynerach wrth bobl ieuainc a phlant. Chwith fydd i'r dref ar ei ol fel y diweddaf o'r Puritaniaid; ond chwithach fydd i'w eglwys ef ei hun, Hyfrydle; yno yr ydoedd wedi tyfu megys yn ddarn o'r lle. Er iddo ef ei hunan gael gwleddoedd breision yn yr hen gapel, eto pan ddaeth yr adeg i adeiladu teml newydd, nid oedd neb parotach nag ef i gydfyned â'r gwaith, a daeth, trwy lawer o lesgedd, i'r cyfarfodydd agoriadol yn mis Awst diweddaf, lle y mwynhaodd ddanteithion yr efengyl. Mewn gair, nid oedd bywyd y ddaear yn werth iddo ef heb gapel, mwy nag y buasai bywyd y nef yn werth iddo yn awr heb yr Iesu.

Ar y 7fed o Ragfyr, 1886, cafodd ergyd drom o'r parlys; a bu, am y waith gyntaf yn ei oes, am hanner blwyddyn heb allu myned i foddion gras, i fwynhau cymdeithas ei frodyr, ac i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd yn ei deml. Nid oedd fodd i John Jones gael croes drymach na hon; iddo ef yr ydoedd hyn y tro ar fyd mwyaf yn bosibl. Yn ei feddwl ef, yr ydoedd raid i'r holl foddion fod yn eu hadegau priod, er nas gallasai ef fyned iddynt,—pregethau y Sabbath fel arfer, y cyfarfod gweddi yn ei noswaith, ac yn neilltuol y *Society* nos Iau; onidê byddai yr holl fyd iddo ef yn hollol chwithig. Tua chanol Mehefin, y flwyddyn ddilynol, cafodd ddechreu dyfod i'r capel, mewn cerbyd bychan, hylaw, a roddwyd iddo yn anrheg gan gyfeillion caredig, ac yn cael gofal perthynasau a chyfeillion ffyddlawn am dano; a bu yn gallu dyfod felly am dros flwyddyn o amser, a phawb yn hoff o'i weled, er yn teimlo yn fawr wrth ei weled mor ddigymhorth. Byddai yn *bresennol* yn y moddion, er nas gallai gymeryd rhan flaenllaw ynddynt, fel y byddai ei arfer cynt; a phan y byddai trafod adnodau neu benillion yn myned ymlaen yn y cyfarfod eglwysig, tarawai yntau i mewn yn fynych gyda'i bennill a'i adnod, a hyny gyda dylanwad anorchfygol. Boreu Gwener, Medi 27, cafodd ergyd arall, a dydd Iau, Hydref 4, 1888, bu farw, gan huno i ffwrdd yn dawel, dawel, i wyddfod ei Dduw, ac yn mreichiau ei Brynwr a wasanaethodd mor ffyddlawn, yn 71 mlwydd oed. Y noswaith cyn iddo gael yr ergyd ddiweddaf, wedi iddynt ei ddodi i orwedd, ac wedi crynhoi a thacluso y dillad o'i amgylch, yn ei orweddle, dywedai—"Ac wedi gorphen pob peth, sefyll." A dyma eiriau diweddaf *dealladwy* ein diweddar gyfaill John Jones! Ié, a "sefyll" gogoneddus ydoedd hefyd iddo ef: er ei fod yn *gorwedd* yn ddigymhorth yn ei wely cystudd, wedi cael amryw ergydion o'r parlys, ac ar fin un arall farwol; eto, "sefyll" yr ydoedd. "Y mae y rhai hyny hefyd yn gwasanaethu, y rhai nas gallant ond sefyll a dysgwyl." Sefyll y gwelsom ni ef; bu yn sefyll fel diacon am dair blynedd a deugain! Yr oedd iddo ran arbenig yn mendith y gweision hyny sydd yn "sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos." Cafodd gyfran o'r geiriau a lefarwyd wrth y prophwyd: "Dos dithau hyd y diwedd: canys gorphwysi, a sefi yn dy ran yn niwedd y dyddiau." A sefyll y bydd y tro nesaf y cawn olwg arno —"sefyll ger bron Mab y dyn." "Ac WEDI GORPHEN POB PETH, SEFYLL."

Claddwyd ef dydd Mawrth, Hydref 9, yn nghladdfa gyhoeddus Maeshyfryd, Caergybi. Hawdd canfod ar y dref mai nid dyn cyffredin yn marn y cyhoedd a gleddid y diwrnod hwnw. Gwyddid ar yr angladd ddarfod i dywysog a gŵr mawr syrthio i'r bedd, y dwthwn hwnw, yn nhref Caergybi. A'i grefydd, ac nid dim arall, a roddai fawredd ar John Jones. Darllenwyd a gweddïwyd wrth y tŷ gan y Parch. Ebenezer Evans, Bodedeyrn; gwasanaethwyd yn y capel ac wrth y bedd gan y Parchn. S. A. Frazer, Rhosgolyn; O. Hughes, W. Lloyd (A.), R. Morgan Jones, M.A., J. Hughes Parry, Caergybi; ac ysgrifenydd y llinellau hyn. Ar hwyr y Sabbath dylynol gwnaed sylwadau coffadwriaethol am dano i gynnulleidfa fawr, yn nghapel Hyfrydle, oddiar Matth. xxv. 14—30.

Lloffion.

CERDDORIAETH NATUR.

Sonir yn chwedloniaeth y Groegiaid am gydgord y Cylchoedd. Dyna oedd hyny—y teimlad oedd ganddynt hwy o'r hyn y'dyw Natur yn ei chyfansoddiad mwyaf mewnol; mai enaid ei holl leisiau a'i mynegiadau oedd cerddoriaeth berffaith. Ni a alwn Farddoniaeth gan hyny yn *feddwl cerddorol*. Y bardd yw yr hwn sydd yn *meddwl* yn y dull yna. Yn y gwaelod, y mae yn troi o hyd ar nerth meddwl; cywirdeb a dyfnder gweledïad dyn sydd yn ei wreyd yn fardd. Os gwelwch yn ddigon dwfn, chwi a welwch yn gerddorol. Cerddoriaeth yw calon Natur yn mhob man, os gallwch chwi ond yn unig ei chyrhaedd.—CARLYLE.

GEIRIAU Y DOETHION.

Gweddiwch ar Dduw, ond rhwyfwch tua'r lân.

Yr hwn a erys hyd nes y gall wneyd llawer o ddaioni ar unwaith, ni wna ddim byth. Gwneir daioni yn raddol.

Y ffordd i lywodraethu Natur ydyw trwy ufuddhau iddi.

Yr ydym yn agor calonau pobl eraill, pan agorwn ein calonau ein hunain.

Y mae yn rhyfedd gymaint o bethau sydd yn y byd nad oes arnoch eu heisieu, os gellwch chwi ond yn unig ddwyn eich hunan i feddwl felly.

Gellir gwneyd pob moment o amser i ddal pwys rhywbeth tragywyddol.

Cronicl Cenadol.

Bryniau Jaintia.

TAITH TRWY DDOSBARTH SHANG-POONG.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. R. EVANS.

(Parhâd o tu dal. 200.)

WEDI gorphen yr hyn oedd genym i'w wneyd yn Mawlyber, ymadawsom am

MAWRYNTWNG.

Yr oedd y ffordd i'r pentref hwn yn well nag arfer, a daeth nifer o'r Cristionogion rai milldiroedd i'n cyfarfod, yr hyn oedd yn gwneyd y daith yn un hyfryd. Gydag amryw eraill daeth yr eneth ddall, yn cael ei harwain gan un arall, i'n cyfarfod tua dwy filldir. Mae yr achos yma yn edrych yn siriol—y gwrandäwyr wedi cadw eu tir; —nid oedd neb yn y pentref i ychwanegu atynt, a'r eglwys wedi gwneyd cynnydd mawr, o 16 i 48. Derbyniwyd 34 i'r eglwys ar brawf yn ystod y flwyddyn, a bedyddiwyd 24,—12 o rai mewn oed a 12 o blant. Treuliasom ddwy noson yma, a gwnaethom y defnydd goreu o'n hamser mewn dysgu y bobl. Cynnaliasom gyfarfodydd i adrodd hanesion Ysgrythyrol, i bregethu ac egluro y Bibl, a chyfarfod eglwysig. Treuliasom ran o un dydd i ddywedyd wrth yr eneth ddall (ei hoed 22) am y rhodd garedig a sylweddol oedd Mrs. Margaret Jones, 28 Sand Street, Pwllheli, wedi anfon iddi, ac i ystyried pa beth oedd oreu i wneyd â'r arian. Yr oedd hi yn ddiolchgar iawn i'r wraig garedig a'i rhoddodd. Wedi meddwl a chynnyg amryw ffyrdd gyda golwg ar ddefnyddio yr arian (£2), cytunwyd ar brynu tâu eidion i aredig. Pe byddai iddi eu rhoddi allan i weithio am dâl, gallai gael tua digon o *rice* am flwyddyn oddiwrth hyny. Ond gan fod ganddi frawd, gall ef wneyd defnydd o honynt ar ei rhan. Gofynais iddynt, beth pe byddai i un o honynt farw? a dywedent na byddai help am hyny, ac y gallent ymddiried yn yr Arglwydd am eu bara beunyddiol fel o'r blaen. Yr wyf wedi rhoddi amryw ar waith i edrych am ychain cymhwys. Dysgwyliwn gael dau am yr arian. Yr oedd mam yr eneth yn teimlo yn ddiolchgar iawn, am y gwelai ffordd i'w merch ennill ei thamaid yn esmwythach na thrwy falu *rice* yn nhai ei chymydogion. Maent yn deulu parchus a da, ond yn dlodion. Yr oeddym yn derbyn yr eneth (Ka Bahïan) yn gyflawn aelod, ac yn ei bedyddio pan oeddwn yno y tro diweddaf.

Oddiyma cychwynasom am

BRATO.

Ar ein ffordd yr oedd pentref Mawkhroh i ac arosais yno i fwyta fy moreufwyd; Daeth cynnulleidfa lïosog ynghyd, yn benaf o bosibl i fy ngweled i yn bwyta; ond yr oedd yn amgylchiad cyfleus i ni bregethu yr efengyl iddynt. Mae teimlad y bobl hyn tuag at Gristionogaeth wedi newid llawer er ys tair neu bedair blynedd. Y pryd hwnw yr oedd Mawkhroh yn un o'r pentrefi mwyaf anwaraidd bron yn y wlad, yn awr nid oes ar y bobl ofn dyfod i wrando yr efengyl. Ysgydwais law â'r holl ddynion, y rhai oeddynt yn rhifo tua deugain, ac ymostyngodd tua phymtheg o'r gwragedd i'r un oruchwyliaeth, er difyrwch mawr i bawb oedd yn bresennol. Wedi gwneyd unwaith, ni bydd arnynt byth ofn gwneyd drachefn â chenadwr, a bydd yn hawddach iddo gael ganddynt wrando at ei genadwri.

Daeth nifer o Gristionogion Brato rai milldiroedd i'n cyfarfod, ac aethom ymlaen yn orymdaith go fawr drwy y pentref, nes dwyn pawb i ddrws ei dŷ i edrych arnom. Mae yn werth gwneyd ychydig o stwr mewn pentref mawr fel hwn. Cyfyd hyny siarad a dadleu yn ein cylch ar yr aelwydydd am y dyddiau dilynol. Fel hyn y mae y naill yn cyhoeddi yr efengyl i'r llall heb feddwl oi fod yn gwneyd gwasanaeth yn y byd iddi. Bydd rhai yn ein galw ni a'r efengyl yn bob enwau; ond, fynychaf, bydd hyny yñ troi yn fantais i ni, gan y bydd yn creu cydymdeimlad â ni yn y rhai fydd yn gwrando. Mae yn sicr fod yn agos i un o bob deg o bobl y rhanbarth y mae â wnelwyf fi âg ef, wedi derbyn rhyw gymwynas neu garedigrwydd neu gilydd oddiar ein llaw. Felly nis gall fod deg o bobl gyda'u gilydd mewn unrhyw bentref heb fod yn eu plith, o leiaf, un yn teimlo yn gynhes tuag atom; a dengys hyny drwy ein hamddiffyn.

Wedi iddi dywyllu, cawsom gyfarfod, pryd y pregethais i. Ar ol hyny yr oedd yno ddau achos o anghydfod i'w setlo. Ar y cyntaf ymddangosai pethau yn dywyll; ond wedi bod yno am tuag awr daeth y pleidiau at eu gilydd, a'r diwedd fu iddynt ysgwyd dwylaw ac addaw anghofio yr hyn a fu. Bore drannoeth cawsom gyfarfod eglwysig, pryd y derbyniwyd dau yn gyflawn aelodau, a thri ar brawf. Wedi hyny cafwyd cyfarfod i fedyddio y ddau uchod a'u plant, ac i gyddgyfranogi o Swper yr Arglwydd. Dyma y tro cyntaf erioed i'r Sacramentau hyn gael eu gweinyddu yn Brato, a daeth nifer go fawr ynghyd o'r pentref i weled y gweinyddiad.

Mae yr ychydig sydd yn gwneyd i fyny yr eglwys fechan yma yn bobl y gellir dibynu arnynt, yr hyn sydd yn un argoel y

bydd i'r achos lwyddo yma. Bu un o'r ychydig, yr hon a allwn alw yn Lydia yr Eglwys, yn bur wael yn ystod y flwyddyn, mor wael fel yr ofnid am dani. Ond trugarhaodd yr Arglwydd wrthi, ac wrth yr achos yn y lle, drwy ei hadferyd. Gwraig ddystaw ydyw, ond o ddylanwad mawr. Rheola ei thŷ mewn dystawrwydd, a cha ufudd-dod gan ei phlant, yr hyn nad yw yn beth rhy gyffredin yn y wlad. Mae hefyd yn haelionus. Yr unig beth sydd ganddi i'w gyfrannu yw *rice;* ac ni bydd byth yn edrych yn ei lygad, fel y dywedir, mewn achos o dlodi ac angheu.

Oddiyma aethom i

LAPANGAP,

sef pentref newydd, mewn ystyr Gristionogol, tua deng milldir i'r gogledd o Brato. Mae yn hwn nifer o bobl wedi gadael eilunaddoliaeth a throi at Gristionogaeth, er ys tua blwyddyn. Daeth nifer go fawr—10 neu 15— o ddynion atom o'r pentref, a chynnorthwyasant ni i wneyd lle gyda matiau i goginio ein bwyd ynddo, ac arosasant gyda ni am ddwy awr neu dair, gan wrando arnom a chanu gyda ni. Wedi iddynt hwy a ninnau gael bwyd, daethant yn ol drachefn, a chawsom gyfarfod, pryd y darfu i dri o honom roddi cyfarchiadau, a chanasom amryw o hymnau rhwng pob un. Ar ol hyny cawsom gyfarfod bychan gyda'r Cristionogion ar wahan, i'w cynghori a'u cyfarwyddo. Bore drannoeth drachefn cynnaliasom ddau gyfarfod, i un o ba rai y daeth rhai ugeiniau o'r pentrefwyr ynghyd. Mae ynhlith y rhai sydd wedi troi at Gristionogaeth yma un dyn tua hanner cant oed sydd wedi bod yn gripil ar hyd ei oes, ond y mae ynddo feddwl anghyffredin. Ymlusga yn ei ddeublyg i'w gaeau, tua milldir o'r pentref, bob dydd. Ond nid dyna yr unig beth sydd i'w ddyweyd am dano. Efe, mewn gwirionedd, ydyw arweinydd y Cristionogion yn y lle. Efe oedd y mwyaf zelog i ysgrifenu cytundeb ynghylch yr ysgol, ac yn calonogi y lleill. Y mae efe hefyd wedi myned i'r nawfed tu dalen yn y llyfr cyntaf, lle y mae efe yn dysgu, a hyny heb gymhorth arall, ei fod ef a phawb yn bechaduriaid. Yr oedd yn ymddangos i mi fod enaid prydferth yn y dyn hwn, mewn corff pur aflunaidd. Os yw yn credu yn Nghrist, gall, ryw ddydd, hyd yn nod synu at brydferthwch ei gorff. "Yr hwn a gyfnewidia ein corff gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorff gogoneddus Ef." Enw y dyn ydyw U Kha Shilla. Yma hefyd y mae yr hen wraig yn byw y dywedais ei hanes mewn llythyr o'r blaen. Bu ganddi bump o ferched ac un mab. Tua deuddeng mlynedd yn ol ymunodd â'r Cristionogion yn Kyrwen, gan gredu y byddai ei merch (yr unig un erbyn hyny oedd wedi ei gadael iddi) fyw. Ni bu yno yn hir cyn i'r eilunaddolwyr un ac oll ei pherswadio i fyned yn ol, gan ddyweyd y byddai ei merch yn sicr o farw os arosai gyda'r Cristionogion. Mewn math o anobaith ac anwybodaeth, gwrthgiliodd. Ond mor gynted bron ag y gwnaeth hyny bu farw ei merch, heb nac afiechyd na rhybudd. Teimlodd mai cosb am ei phechod ydoedd; ond heb wybod digon am faddeuant Duw trwy Iesu Grist, diangodd hi a'i mab, fel y tybiai, o olwg Duw a'i chymydogion. Ar ol bod am ddeuddeng mlynedd yn poeni am ei phechod, yr wyf yn credu ei bod wedi rhoddi ei hunan i Iesu Grist o ddifrif. Parodd i'm hymweliad â'r pentref flwyddyn yn ol i bob peth ddyfod yn fyw i'w meddwl. Cafodd allan y gwnai Duw faddeu iddi; ac y mae hi wedi dyfod ato yn awr gyda llawer mwy o oleuni nag oedd ganddi y pryd hwnw. Trugarhaed yr Arglwydd wrthi hi a'i mab.

Oddiyma aethom drwy Brato i

TANGRAIN,

lle y treuliasom y Sabboth. Daeth rhai o'r Cristionogion o Tangrain i'n cyfarfod i Brato, sef pellder o tua phedair milldir, a daeth eraill—tyrfa go lïosog—tua milldir o'r pentref. Adegau hapus ydyw yr adegau hyn i mi. Bydd gweled y Cristionogion yn fy sirioli yn fawr, a bydd yn arwydd eu bod yn ceisio byw yn lled agos i'w lle. Os bydd rhywrai ar y llithrigfa, ni byddant byth yn awyddus am ddangos eu hunain i mi. Troisom y Sabboth yr hyn a alwn yn Sabboth Henaduriaeth, gan roddi heibio yr Ysgol Sul, a chael pregethu deirgwaith, yn benaf o ddiffyg lle i gadw ysgol. Ar ol y cyfarfodydd prydnawn Sul, daeth *Dolloi* Shilliang Myntang i ymweled â mi, a defnyddiais yr amser i bregethu yr efengyl iddo. Treuliais hwyr y Sabboth gyda nifer o'r Cristionogion mwyaf goleuedig.

Boreu Llun yr oedd genym y gorchwyl anhapus o farnu ar achos yn codi oddiar sefyllfa gymdeithasol y bobl. Gyda golwg ar lïaws o faterion o'r fath, y mae Cristionogaeth wedi dyfod i gadw y wlad rhag dinystr; ac wrth edrych ar foesau y lleoedd y mae hi yn teyrnasu, o'u cymharu â'r lleoedd nad yw, nid oes enw gwell ar y gwaith y mae hi yn ei wneyd na'r gair *annhraethol.*

Yr oeddwn wedi bwriadu gweinyddu yr ordinhad o Swper yr Arglwydd yma, ond yr oedd yr eltenau wedi darfod; a bum yno drachefn, ar y ffordd o Mawkyndeng, i'r pwrpas hwnw. O Tangrain aethom i

SHILLIANG MYNTANG.

Mae hwn yn bentref mawr, lle mae y *Dolloi* yn byw. Cyrhaeddasom yn gynnar, a threuliasom weddill y prydnawn mewn ymweled â'r *Dolloi,* a chynnal cyfarfod ar ganol y pentref. Daeth nifer lled dda ynghyd, o ddynion a merched. Ar y diwedd, dywedais y byddai genym gyfarfod drachefn yn yr hwyr, ac y rhoddwn feddyginiaeth i'r cleifion bore drannoeth. Daeth tua phymtheg o'r pentref i gyfarfod yr hwyr, a chawsom gyfarfod hapus iawn. Bore drannoeth daeth mwy o lawer nag oeddwn yn ddysgwyl i gael meddyginiaeth—tua 30, a daeth llawer mwy i edrych arnom yn myned trwy y gorchwyl. Ymddangosai yr holl bentref mewn berw, ac yn cymeryd dyddordeb mawr yn ein gwaith. Clywais heddyw fod y nifer fwyaf o'r rhai a ddaethant am feddyginiaeth wedi cael gwellhad mawr, a'u bod yn agosâu at

Gristionogaeth. Bydded i'r Arglwydd eu troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw. Oddiyma daethom i Shangpoong.

HANES YR HENADURIAETH YN CHERRA.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Shillong, Ebrill 8fed, 1889.

AR y 23ain, y 24ain, a'r 25ain o Fawrth, cynnaliwyd yr Henaduriaeth yn Cherra. Cyrhaeddasom yr orsaf nos Wener, a chawsom oll dderbyniad caredig gan Mr. Roberts a Mr. Ceredig Evans. Yr oedd yn dda genym weled y ddau deulu a'u cael yn iach, ac yn edrych yn gryf a siriol.

Am 7 bore drannoeth, dydd Sadwrn, ymgynnullwyd yn y capel, ac yr oedd yn dda iawn genym weled cynifer wedi dyfod ynghyd o wahanol ranau y Bryniau. Y peth cyntaf oedd rhoddi caniatad i'r Cristionogion yn Mawsmai a Nongthymai i ymffurfio yn eglwys ar ei phen ei hun, heb un cysylltiad rhyngddynt mwyach âg eglwys Nongsawlia. Penderfynwyd fod y pentrefi hyn, ynghyd a nifer o bentrefi eraill, i fod dan ofal Mr. Ceredig Evans. Hefyd, rhoddwyd caniatad i eglwys Sohbar i adeiladu capel newydd. Ymddengys fod y cyfeillion yn y lle hwn wedi gweithio, ac yn parhau i weithio yn dda tuag at gael teml i addoli Duw yn nghanol y pentref. Yn nesaf, caed adroddiad gan Dr. Griffiths o'r casgliad a wnaed ddechreu y flwyddyn ddiweddaf tuag at gynnorthwyo tlodion sydd yn myned i Mawphlang, ac yn gorfod aros yno am dymmor, er bod yn agos at y meddyg a myned dan driniaeth. Casglwyd dros y Bryniau—*rupees*, 166. 8. 9.

Y peth nesaf oedd derbyn blaenoriaid. Yr oedd 17 i gael eu derbyn. Dyma y nifer mwyaf a welais yn cael eu derbyn ar unwaith mewn unrhyw Henaduriaeth. Rhai oeddynt o eglwysi Cherra, Nongrymai, Wmsaw, Jiwai, Nongbah, Padw, Nongtalang, &c., y nifer fwyaf o honynt yn ddynion rhwng 24 a 40 mlwydd oed; ac yr oedd edrych arnynt yn peri i'n calon lawenychu yn yr Arglwydd wrth weled yr Ysbryd Glân yn codi ac i raddau yn cymhwyso dynion i fod yn ddysgawdwyr ac arweinwyr yn yr eglwysi. Gwnaeth Mr. Stephens ofyn eu profiad, a Mr. Roberts eu holi am eu gwybodaeth, a Dr. Griffiths roddi cynghorion iddynt. Pasiwyd penderfyniad o gydymdeimlad âg U Sati yr Efengylydd, yn y brofedigaeth o golli ei wraig, a dymunwyd nodded y Nefoedd drosto ef a'i chwe' phlentyn amddifad.

Am un, cyfarfod yr Efengylwyr a'r Blaenoriaid; y mater yn seiliedig ar Ioan iv. 24, 25—"Y dylai, ymhob math o addoliad, fod cymdeithas rhyngom âg Ysbryd Duw." A darfu iddynt ysgrifenu papyr yn cynnwys crynodeb o'r ymdriniaeth arno.

Y cyfarfod nesaf am dri. Dechreuodd U Joel, o Jiwai. Y mater cyntaf—ymadawiad Dr. Griffiths a'i deulu am seibiant gartref, ar ol bod yn llafurio ar y maes Cenadol am ddeng mlynedd. Siaradwyd ar hyn gan Mr. Roberts, U Mohonroy, o Shillong, U Don o Mawphlang, ac U Jura a minnau. Dygent oll dystiolaeth i ddduwioldeb a gweithgarwch Dr. Griffiths fel Cenadwr dros Iesu Grist, ac fod Duw wedi bendithio ei ymdrechion ef a'i briod i ddwyn eneidiau i adnabod a chredu yn y Gwaredwr, a'i garu, y rhai, ni a gredwn, fyddant yn goron gogoniant iddynt yn nydd Crist. Tystient hefyd i'w barodrwydd fel meddyg i fyned i ymweled â'r cleifion ymhob man, ddydd a nos; dim ond clywed fod rhywun yn sal, byddai yn y fan ar gychwyn i ymweled âg ef. Mae ei barodrwydd, ei fedrusrwydd, ei sirioldeb, a'i amynedd yn y ffordd hon wedi bod o wasanaeth mawr, nid yn unig i leddfu poen a gwella cleifion, ond hefyd i chwalu ofergoelion a gyru y demoniaid ar ffo, a thaenu gwybodaeth o'r efengyl yn y wlad. Yr oedd meddygiaeth yn wastad yn llawforwyn wasanaethgar i'r efengyl; ac yr ydym yn dysgwyl gweled ffrwythau mwy eto i hyn yn y dyfodol. Diolchent hefyd i Mrs. Griffiths am ei pharodrwydd a'i hymdrech bob amser i rwyddhau y ffordd i Dr. Griffiths fyned pa bryd bynag y deuai galwad arno, er y byddai hyny, ar adegau, yn anghyfleusdra iddi hi a'r teulu. Dymunem oll nodded yr Arglwydd drosto ef a'i deulu ar eu mordaith, a llawer o nerth a chysur yn nghymdeithas eglwysi Crist; a byddwn yn edrych am dano yn ol cyn pen hir iawn. I amlygu eu teimlad da tuag ato ef a'i briod, cododd yr holl gynulleidfa ar eu traed. Mae yn dda genym fod Dr. Hughes wedi dyfod yma i gario y gwaith ymlaen; ac yr ydym yn dysgwyl llawer o gymhorth ganddo yntau yn y dyfodol fel meddyg ac fel Cenadwr Cristionogol.

Yn nesaf treuliwyd hanner awr neu well i siarad ar y pwnc oedd wedi ei roddi yn flaenorol, sef "Priodoleddau Duw;" yr ydym yn dilyn y *Cyffes Ffydd* o bennod i bennod. Siaradwyd ar hyn gan Dr. Griffiths, U Sympot, U Amirkha, a'r Llywydd.

Yna caed hanes yr achos yn Nosbarth Cherra. Cafwyd gair am sefyllfa yr achos yn y pentrefi, megys Umniuh, Nongjiri, Sohbar, Toahlong, Mawmluh, Tyrna, Nongkhroh, Mynteng, Mawsmai, Mawkabor, Mawphuh, &c., a phentrefi Cherra, yn gystal âg am yr achos yn Nongsawlia. Ymddengys fod yma lawer o weithio a gweddïo ac ymdrech o blaid teyrnas yr Iesu; ymdrech i ddysgu pobl i ddarllen a deall trefn yr iachawdwriaeth, ond tystiolaeth llawer oedd eu bod yn cael y bobl yn galed iawn, yn enwedig oddeutu Cherra; eu bod yn addef yn rhwydd fod yr efengyl yn wir, a bod Iesu Grist yn Waredwr a'r unig Waredwr, ond fod yn anhawddd iawn eu symud a'u cael i wrando pregethiad yr

efengyl. Er hyny eu bod yn myned ymlaen, gan ddwyn had gwerthfawr a'i fwrw ymhob llecyn y tybid fod yno rywfaint o ddaear, gan gwbl gredu y bydd i'r Ysbryd Glân beri iddo wreiddio a ffrwytho. Mae llafur y Cristionogion, yn feibion a merched, yn y ddwy flynedd ddiweddaf, wedi ei fendithio gan Ddiw i ddwyn llawer o Cherra a'r amgylchoedd i adnabod a charu Iesu Grist, ac ymddiried ynddo am fywyd tragywyddol. Mae heddwch a thangnefedd a chariad yn ffynu yn yr holl eglwysi.

Ar y Sabboth (y 24ain), cyfarfod gweddi da am 7 y bore. Am 10 pregethodd U Ksan, Shella, Exodus x. 3; a minnau, ar Actau vii. 45. Am 1, pregethodd U Jura, Matthew xxvii. 46; a Dr. Griffiths, Matthew xv. 27. Am 4, U Myngor, Shillong, Matthew xiii. 32; a Mr. Stephens, Ephesiaid ii. 8. Yr oedd yno gynnulleidfa fawr ar hyd y Sabboth yn gwrando yn astud, ac yn ymddwyn yn weddus; bernid fod yno lawn 1000; yr oedd yr adeilad yn llawn, a nifer allan yn methu cael lle i ddyfod i mewn. Maent wedi ei helaethu yn fawr, tybiwn ei fod yn fwy na chymaint arall. Mae yn edrych yn hardd a chadarn, ac yn ddigon hawdd siarad a chlywed ynddo. Mae y cyfeillion yma wedi gweithio yn rhagorol, ac yn haeddu cael eu crybwyll a'u cofio a'u canmawl am eu llafurus gariad yn helaethu teml yr Arglwydd. Bydded i'w ogoniant Ef ei llenwi yn wastadol.

Seiat am 7 yn yr hwyr; y mater, "Y breintiau a'r anrhydedd o fod yn Gristion," 1 Ioan iii. 1. Cafwyd cyfarfod cysurus; ni a hyderwn y gwna ddaioni i'r saint.

Cyfarfod am 7 bore Llun. Darllenwyd y papyr o Gyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid, a gwnaeth amryw sylwadau ar y mater ac ar y papyr, y rhai, ni a obeithiwn, a brofant yn fendith i'r rhai oeddent yn bresennol. Yna pasiwyd i anfon copi o hono i bob eglwys. Wedi hyny cafwyd gair gan Mr. Pengwern Jones am yr achos yn Sylhet, a chan ddau o Gristionogion oddiyno oeddent wedi dyfod gydag ef i'r Henaduriaeth. Dywedai fod yr achos yno yn myned yn ei flaen yn gysurus, a bod y Cristionogion oll yn ffyddlon a zelog a gweithgar, ac yn ymddangos yn wir awyddus am weled yr achos yn llwyddo. Fod gwrthwynebiadau yn codi, ond nad oeddent yn debyg o wneyd fawr o niwed, fod eu ffydd yn gadarn yn yr Iesu, y byddai yr achos yn sicr o lwyddo. Er nad oedd neb eto wedi dyfod allan a phroffesu yr Arglwydd Iesu, eu bod yn hyderus y bydd yr Ysbryd Glân yn sicr o ddyfod ac argyhoeddi byd Sylhet, o bechod, o gyfiawnder, ac o farn. Yr oedd nifer o Gristionogion o Orrisa yn Bengal, wedi symud i fyw i Sylhet; yr oeddent yn gwneyd eu goreu i ddysgu a hyfforddi y rhai hyny yn ffordd y gwirionedd. Yr oedd yn ddrwg genym i waeledd rwystro Gour, yr Efengylydd, i fod yn bresennol yn yr Henaduriaeth. Yr Henaduriaeth nesaf i fod yn Shangpoong, Tachwedd 24ain. Wedi talu diolchgarwch i'r cyfeillion yn Nongsawlia am eu caredigrwydd, dybenwyd trwy weddi.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
O Sir Fynwy	3	0	0
A. B. C. Ch.	2	0	0
O New Brighton, Casgliadau am 1887 a 1888	3	19	3
Oddiwrth Mrs. Ellis, Cynlas, Llanddefel, trwy law Miss Ellis	0	10	0
Er serchus gof am Kate Ellis, eto ..	0	10	0
A Friend, Cefnddwysarn, eto	0	5	0
O Sir Gaerfyrddin	1	0	10
Oddiwrth Mr. Griffith Jones, Cefn, Maesoglan, Llangaffo, trwy law Richard Davies, Ysw., U.H	50	0	0
Oddiwrth Gyfaill i'r Genadaeth	2	2	0
Rhaiader	2	2	6
"A Breconshire friend of the Mission," trwy law y Parch. Edwin Williams, M.A., Coleg Trefecca ..	40	0	0
Cymro	1	0	0
Oddiwrth un o Bethania, Corris, tuag at Gapel Myllim	0	10	0
"D.," Minffordd, tuag at Ysbytty Jowai	0	2	6
Oddiwrth Gymdeithas Dorcas, Bala, eto	2	0	0
O Ddwyrain Morganwg	12	16	3
Crickhowell, eto	1	16	0
Cyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, casgliad arbenig i gyfarfod â threuliadau cynnyddol y Genadaeth	138	2	4
Cyfaill o Cathay, Caerdydd, i'w hanfon i'r Parch. R. Evans, tuag at gapel Mawkaiew	5	0	9
O Sir Fflint	90	0	0
Derbyniwyd am lyfr Mr. J. Herbert Roberts, "Ymweliad â Khasia" ..	3	10	0
Cyfarfod Cenadol cyhoeddus yn y Gymanfa Gyffredinol yn Llangollen:—			
Rhodd G. W. Taylor, Ysw....£50 0 0			
Casgliad 9 1 8			
	59	1	8
Dienw, trwy law y Parch. T. Levi, "tuag at anfon Biblau i Fryniau Khasia"	1	0	0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.